# Deall cymhellion ffermwyr: Ffermydd Bach a Bach Iawn

**Adroddiad Terfynol**

20 Gorffennaf 2021

**Rhif cyfeirnod y contract: C178/2019/2020**

**Dr Dylan Bradley**
Cyfarwyddwr, Agribusiness Consulting, IHS Markit

**Yr Athro Berkeley Hill**
Athro Emeritws mewn Dadansoddi Polisi, Coleg Imperial, Llundain

**Llorenc O'Prey**
Uwch Ymgynghorydd, Wavehill

**Endaf Griffiths**
Cyfarwyddwr, Wavehill

**Eirwen Williams**
Cyfarwyddwr, Menter a Busnes

# Cynnwys

**CRYNODEB GWEITHREDOL .... V**

**1 CYFLWYNIAD .... 1**

**2 METHODOLEG .... 3**

2.1 ADOLYGIAD LLENYDDIAETH .... 3
2.2 DATBLYGU HOLIADUR .... 3
2.3 AROLWG O FFERMWYR .... 4
2.4 DADANSODDIAD O'R AROLWG .... 5

**3 CRYNODEB O'R ADOLYGIAD LLENYDDIAETH .... 7**

**4 FFERMYDD BACH IAWN A BACH YNG NGHYMRU: Y CYD-DESTUN .... 11**

**5 NODWEDDION FFERM .... 15**

5.1 MAINT ECONOMAIDD FFERM .... 15
5.2 MATH O FFERM .... 15
5.3 MAINT FFISEGOL Y FFERM .... 16
5.4 PERCHNOGAETH FFERM .... 17
5.5 PROFIAD FFERMIO BLAENOROL .... 18
5.6 LLWYBR I FFERMIO'R DALIAD PRESENNOL .... 19
5.7 AMSER AR Y DALIAD .... 20
5.8 YMGYSYLLTU Â CHYNLLUNIAU AMAETH AMGYLCHEDD .... 21

**6 NODWEDDION YR AELWYD .... 23**

6.1 CYFANSODDIAD YR AELWYD .... 23
6.2 CYMWYSTERAU AMAETHYDDOL AC AN-AMAETHYDDOL .... 24
6.3 CYFLOGAETH GAN AELODAU O AELWYD Y FFERM .... 25
6.4 YMWNEUD Â GWEITHGAREDDAU HEBLAW AM FFERMIO AR Y DALIAD .... 26
6.5 CYLLID AELWYDYDD FFERM .... 27
6.6 OLYNIAETH .... 34
6.7 DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG .... 35

**7 YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED LEOL .... 37**

**8 GWNEUD PENDERFYNIADAU A DYSGU .... 40**

8.1 Y BROSES BENDERFYNU .... 40
8.2 DYSGU A SGILIAU .... 42

**9 RHESYMAU DROS FFERMIO .... 43**

9.1 Y FFERM FEL BUSNES .... 43
9.2 PWYSIGRWYDD YR AMGYLCHEDD .... 45
9.3 TEIPOLEG Y RHESYMAU DROS FFERMIO .... 46

**10 YMATEBION I'R DU YN GADAEL YR UE .... 61**

10.1 CYMRYD RHAN MEWN TRAFODAETHAU AM FECANWEITHIAU CYMORTH FFERM AR ÔL GADAEL YR UE .... 62
10.2 EFFAITH DDISGWYLIEDIG GADAEL YR UE AR INCWM O WEITHGAREDDAU AMAETHYDDOL .... 62
10.3 NEWIDIADAU AR Y DALIAD O GANLYNIAD I ADAEL YR UE .... 63
10.4 NEWIDIADAU YN YR AELWYD O GANLYNIAD I ADAEL YR UE .... 69
10.5 CRYNODEB O'R YMATEBION I'R DU YN GADAEL YR UE .... 73

**11 MODEL SEGMENTU CYMRU .... 74**

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 

**12 CANFYDDIADAU ALLWEDDOL ..... 77**

12.1 Y FFERMYDD BACH IAWN A BACH ..... 77
12.2 AELWYDYDD SY'N GWEITHREDU FFERMYDD BACH A BACH IAWN ..... 77
12.3 INCWM CARTREFI SY'N GWEITHREDU FFERMYDD BACH IAWN A BACH ..... 77
12.4 OLYNIAETH ..... 78
12.5 DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG ..... 78
12.6 YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED LEOL ..... 78
12.7 GWNEUD PENDERFYNIADAU A DYSGU ..... 78
12.8 RHESYMAU DROS FFERMIO ..... 79
12.9 YMATEBION I'R DU YN GADAEL YR UE ..... 80

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

# Deall cymhellion ffermwyr

## Adroddiad Terfynol Drafft

Fe gontractiodd Llywodraeth Cymru IHS Markit i helpu i ddarparu dealltwriaeth o gymhellion unigol a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n digwydd yn yr aelwydydd ffermio hynny a ddiffinnir yn economaidd fel rhai bach iawn a bach. Mae'r Adroddiad Terfynol Drafft hwn yn cyflwyno ein dadansoddiad. Awduron yr adroddiad yw Dr Dylan Bradley (IHS Markit) a'r Athro Berkeley Hill (Coleg Imperial, Llundain). Cwblhawyd y gwaith arolygu gan Wavehill (Llorenc O'Prey ac Endaf Griffiths. Rhoddodd Eirwen Williams (Menter a Busnes) fewnwelediadau defnyddiol.

# Crynodeb Gweithredol

Gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2020 gan ddechrau ar gyfnod pontio lle bu'r DU yn parhau i fod yn aelod *de facto* o Farchnad Sengl yr UE ac yn ddarostyngedig i bolisïau cyffredin yr UE, gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Daeth y cyfnod pontio hwn i ben ar 31 Rhagfyr 2020. O 1 Ionawr 2021 cychwynnodd y DU a'r UE ar berthynas newydd fel y'i diffinnir o dan Gytundeb Masnach a Chydweithrediad yr UE-DU a gafodd ei gytuno ar 24 Rhagfyr 2020. Hefyd ers1 Ionawr 2021 mae amaethyddiaeth yng Nghymru, sy'n gyfrifoldeb datganoledig yn y DU, wedi bod yn destun polisi amaethyddol cenedlaethol a ddyluniwyd ac a weithredir gan Lywodraeth Cymru; mae hyn wedi disodli'r PAC.

Mae Llywodraeth Cymru (LlC), ynghyd â rhanddeiliaid allanol, wedi archwilio'r dystiolaeth sydd ei hangen i helpu i fynd i'r afael â'r heriau y mae gadael yr UE wedi'u cyflwyno. Amlygodd y gwaith hwn nifer o fylchau tystiolaeth, gan gynnwys deall sut mae ffermwyr yn debygol o ymateb i'r ystod o heriau y mae'r diwydiant amaethyddol yn eu hwynebu. Ychydig sy'n hysbys am yr hyn sy'n cymell ffermwyr yng Nghymru; sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau a'u gweithredoedd tebygol yn wyneb ansicrwydd. Yn benodol, roedd bwlch gwybodaeth mewn perthynas â ffermydd a ddiffiniwyd fel "Bach Iawn" a "Bach" o safbwynt economaidd.

Er bod unedau Bach Iawn a Bach yn cyfrif am lai na 30% o drosiant busnes amaethyddol Cymru, maent yn cynnwys tua 21,000 (87%) o'r 24,500 o ffermydd yng Nghymru ac, er gwaethaf eu daliadau tir cyfartalog llai, ychydig dros hanner (57%) cyfanswm y tir sy'n cael ei ffermio yng Nghymru.

Felly lansiodd LlC alwad gyhoeddus am dendrau ym mis Ebrill 2020 i gynnal ymchwil i gymhellion ffermwyr sy'n rhedeg ffermydd sy'n dod o fewn y grwpiau maint economaidd hyn. Dyfarnwyd y contract i IHS Markit, ar y cyd â Wavehill. Y ddogfen hon yw ein hadroddiad terfynol.

Fel y nodir yn y manylebau tendro (wedi'u golygu ychydig), nod y gwaith ymchwil hwn yw:

- Rhoi dealltwriaeth o gymhellion unigol a phrosesau penderfynu o fewn yr aelwydydd ffermio hynny [ffermydd gweithredol] sy'n cael eu diffinio fel ffermydd Bach Iawn a Bach o safbwynt economaidd.
- Asesu'r effaith y bydd cymhelliant a phenderfyniadau unigol yn eu cael ar fwriadau ar gyfer gweithredu o ystyried y sefyllfaoedd posibl ar gyfer masnach a'r newidiadau arfaethedig i fecanweithiau cymorth fferm.
- Ymchwilio i ba raddau y mae'r aelwydydd ffermio hynny [sy'n gweithredu ffermydd Bach Iawn a Bach] [yn] gysylltiedig â'r gymuned leol a ffermydd mwy o faint ac yn eu cefnogi, a p'un a yw hynny'n gwahaniaethu o fusnesau a gweithgareddau eraill.

Amcanion yr ymchwil yw:

- Darparu mewnwelediad ar gyfer datblygu polisi defnydd tir yn y dyfodol o ran y ffactorau hynny sy'n debygol o ddylanwadu ar yr aelwydydd ffermio hynny [sy'n rhedeg ffermydd Bach Iawn a Bach] a sut y bydd hynny'n effeithio ar eu prosesau gwneud penderfyniadau. Dylai hyn gynnwys unrhyw arwydd o ymddygiadau tebygol a chamau gweithredu posibl.
- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth fwyaf diweddar ar drefniadau masnachu a ragwelir yn y dyfodol fel sylfaen, [i] asesu effaith bosibl gwahanol gytundebau masnach parhaus ar y rhagolygon economaidd ar gyfer ffermio.

- I gasglu gwybodaeth ychwanegol am ffermydd Bach Iawn megis ffigurau sy'n ymwneud â pherchnogaeth/deiliadaeth/olyniaeth fferm a hefyd defnyddio cwestiynau Model Segmentu Diwydiant Amaethyddol Cymru (WAISM) i asesu eu penderfyniadau.

## Methodoleg

Roedd ein methodoleg ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn cynnwys (i) adolygiad llenyddiaeth; (ii) datblygu holiadur; (iii) gweinyddu arolwg; a, (iv) dadansoddiad disgrifiadol ac ystadegol o ganlyniadau'r arolwg.

Roedd ein hadolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr yn edrych ar lenyddiaeth o'r DU a gwledydd OECD ar y materion diffiniol yn ymwneud ag aelwydydd; cymhelliant a'r broses o wneud penderfyniadau; segmentu a theipolegau ymddygiad ffermwyr; ffynonellau incwm a gweithgaredd ychwanegol; ymatebion disgwyliedig ac ymatebion a welwyd i newid polisi; a'r defnydd o sefyllfaoedd wrth archwilio effaith debygol y DU yn gadael yr UE.

Trafodwyd holiadur yr arolwg, a ddatblygwyd ar sail yr adolygiad llenyddiaeth, gyda Grŵp Llywio LlC ar gyfer y prosiect ymchwil hwn. Cynhaliwyd arolwg peilot ym mis Rhagfyr 2020, a arweiniodd at rai mân addasiadau. Datblygwyd sampl o aelwydydd ffermio sy'n rhedeg ffermydd o fewn y diffiniadau o ffermydd Bach Iawn a Bach, yn ôl maint economaidd, yn seiliedig ar gronfa ddata Cyswllt Ffermio ac arolwg mis Mehefin LlC. O fewn y fframwaith a ddarparwyd gan y ddwy gronfa ddata o gysylltiadau, roedd y dull samplu ar hap a ddefnyddiwyd yn golygu bod y sampl yn gynrychioladol o ran rhanbarth, math o fferm, ac ati, at ei gilydd.

Lansiwyd yr arolwg ar 11 Ionawr 2021 a'i gwblhau ar 02 Mawrth 2021. Yn unol â'n bwriadau, cynhyrchwyd dros 400 (419) o ymatebion gorffenedig y gellir eu defnyddio yn dilyn cyswllt cychwynnol â 1,916 o unigolion gan gynhyrchu cyfradd ymateb o 21.9%.

Defnyddiwyd data wedi'i ddilysu i gynhyrchu dadansoddiad disgrifiadol rhagarweiniol a ddatblygwyd wedyn i gynhyrchu nifer o groes-dablau yn seiliedig ar nodweddion ymatebwyr yr oedd tîm yr astudiaeth o'r farn y byddai'n darparu mewnwelediadau defnyddiol. Yna archwiliwyd tueddiadau yn y data meintiol trwy gyfres o ddulliau ystadegol.

## Canfyddiadau allweddol

### Y ffermydd Bach Iawn a Bach

Bu ein prosiect yn canolbwyntio ar ffermwyr yng Nghymru ar ben lleiaf y sbectrwm yn ôl maint economaidd. Mae ffermydd Bach Iawn a Bach, sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am bron i 9 o bob 10 o ffermydd yng Nghymru, yn bwysig o ran pobl a thir ac o ddiddordeb i lunwyr polisi, yn enwedig yng nghyd-destun ailgyfeirio cefnogaeth tuag at y ddarparu nwyddau cyhoeddus ac i ffwrdd oddi wrth ddulliau mwy seiliedig ar gynhyrchu. Ni ddylid chwaith anwybyddu pwysigrwydd ffermydd Bach i rai o'r categorïau defnydd tir a da byw. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'n harolwg a gynhaliwyd ar ddechrau 2021 yn rhedeg ffermydd lle mai'r brif fenter yw defaid a/neu bîff. Er bod ffermydd bîff a ffermydd defaid yn debyg o ran maint ffisegol (cyfartaledd o 51 hectar a 52 hectar yn y drefn honno), mae ffermydd bîff a defaid gyda'i gilydd yn fwy (83 hectar ar gyfartaledd). Ceir perthynas rhwng maint ffisegol ac economaidd gyda ffermydd Bach yn defnyddio mwy o ardal tir ar gyfartaledd na ffermydd Bach Iawn (ac eithrio ffermydd llaeth, sy'n bosibl ei egluro mae'n debyg yn ôl graddfa dwyster).

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn berchen ar eu fferm, neu'n berchen ar y rhan fwyaf o'u fferm. Y llwybr mwyaf cyffredin ar gyfer ffermio eu daliad presennol oedd prynu'r tir (46%), gyda 31% ychwanegol wedi cymryd yr awenau ar y fferm deuluol; a 19% wedi etifeddu'r daliad. Roedd gan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr brofiad

blaenorol o weithio ar y fferm deuluol (66%); roedd hyn yn llawer mwy cyffredin ar ffermydd Bach o'i gymharu â ffermydd Bach Iawn. Roedd ymatebwyr wedi bod yn rhedeg eu daliad am 23 mlynedd ar gyfartaledd.

Roedd hanner y ffermydd yn ein sampl (50%) yn rhan o gynllun amaeth amgylcheddol neu gadwraeth, neu wedi bod yn y gorffennol.

## Aelwydydd sy'n gweithredu ffermydd Bach iawn a Bach

Roedd mwyafrif yr aelwydydd a oedd yn cadw ffermydd Bach Iawn a Bach yn cynnwys dau oedolyn (53%), gydag aelwydydd tri oedolyn yn cyfrif am 20% o'r sampl, ac aelwydydd un oedolyn yn cyfrif am 13% arall. Roedd ffermydd mwy yn tueddu i fod ag aelwydydd mwy yn gysylltiedig â nhw. Nid oedd gwahaniaeth clir rhwng ffermydd Bach Iawn a ffermydd Bach o ran cyfansoddiad aelwydydd.

Oedran cyfartalog yr ymatebwyr oedd 57 a'r ail oedolyn yn 54.

Roedd gan bron i hanner yr ymatebwyr (44%) gymwysterau heblaw am amaethyddiaeth, ac roedd gan 26% gymhwyster mewn pynciau sy'n gysylltiedig â ffermio. Roedd ymatebwyr o ffermydd Bach Iawn ddwywaith yn fwy tebygol o fod â gradd nag ymatebwyr o ffermydd Bach (16% o'i gymharu ag 8%).

Cyfuno ffermio gyda rhyw fath o gyflogaeth oddi ar y fferm neu hunangyflogaeth oedd y norm (71% o aelwydydd fferm Bach Iawn a 64% o aelwydydd fferm Bach); dim ond traean o'r aelwydydd (32%) oedd ddim yn cyflawni unrhyw weithgaredd cyflogedig oddi ar y fferm o gwbl. Roedd gan draean o'r aelwydydd (31%) un aelod o'r aelwyd yn cyflawni rhyw fath o weithgaredd oddi ar y fferm, ac roedd ychydig o dan draean (30%) yn nodi bod dau aelod o'r aelwyd (roedd gan 7% ohonynt fwy na dau aelod sy'n oedolion) yn cyflawni rhyw fath o weithgaredd oddi ar y fferm. Roedd bron i hanner (47%) yr ymatebwyr yn rhedeg gweithgareddau heblaw am amaethyddiaeth o'u daliad.

## Incwm aelwydydd sy'n gweithredu ffermydd Bach Iawn a Bach

Roedd pedair rhan o bump (80%) o'n hymatebwyr yn gallu ac yn barod i ddweud ym mha fand yr oedd incwm eu haelwyd. Ychydig iawn o aelwydydd (5%) oedd yn dod o fewn y band llai na £10,000 - mae hyn ychydig yn uwch na phensiwn blynyddol y wladwriaeth ar gyfer person sengl. Roedd gan fwy na phedwar o bob pump (82%) incwm cartref rhwng £10,000 a £69,999, ac roedd gan 13% incwm cartref uwch na £70,000. At ei gilydd, mae'n ymddangos bod incwm cyfartalog y grŵp ffermydd Bach Iawn ychydig yn is na'r grŵp ffermydd Bach, ond nid yw'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn sylweddol. Y casgliad pwysicaf yw nad yw maint economaidd fferm yn ganllaw dibynadwy ar gyfer lefel incwm yr aelwyd.

Y ffynhonnell incwm mwyaf cyffredin a nodwyd oedd gwarged masnachol (gwerthiant tynnu costau cynhyrchu) o weithgaredd ffermio (91%), ac yna'r Taliad Sylfaenol (76%), cyflog oddi ar y fferm, enillion cyflog a hunangyflogaeth (64%), taliadau amgylcheddol (54%), pensiynau (46%), arallgyfeirio ar y fferm (35%) ac elw ar fuddsoddiadau megis incwm rhent (33%). Ar gyfer aelwydydd gyda ffynonellau incwm penodol, roedd incwm o warged masnachol a'r Taliad Sylfaenol yn dueddol o gael ei ystyried yn bwysicach o'i gymharu ag incwm o gynlluniau amgylcheddol a phensiynau. Yn groes i'r reddf o bosibl, roedd ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o osod mwy o bwysigrwydd ar warged masnachol yn hytrach na ffermydd Bach lle'r oedd y taliadau hyn ar gael, ac roedd y gwrthwyneb yn wir ar gyfer gwarged o ganlyniad i weithgareddau ar y fferm nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu bwyd (twristiaeth, ynni adnewyddadwy ac ati).

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 

## Olyniaeth

Mae canlyniadau ein harolwg yn cyd-fynd â llawer o'r canfyddiadau yn y llenyddiaeth am bwysigrwydd olyniaeth i lawer o agweddau ar wneud penderfyniadau mewn ffermio, ac yn ychwanegu rhai dimensiynau pellach. Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr (57%) wedi ystyried olyniaeth, ychydig yn uwch ymhlith gweithredwyr ffermydd Bach (61% o'i gymharu â 55%). Roedd gan bron i hanner (47%) yr ymatebwyr gynllun i drosglwyddo eu daliad i rywun arall. Ymhlith y rhai a oedd wedi meddwl am olyniaeth, roedd y mwyafrif (73%) yn bwriadu trosglwyddo'r fferm trwy rodd, gan adlewyrchu natur deuluol y diwydiant ffermio ar raddfa Fach Iawn a Bach; nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl band economaidd fferm.

## Defnydd o'r Iaith Gymraeg

Roedd ychydig dros draean (36%) o gyfanswm ein sampl yn rhugl yn y Gymraeg ac roedd 6% ychwanegol yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Roedd y gallu i siarad Cymraeg ychydig yn fwy cyffredin ymhlith gweithredwyr ffermydd Bach. Mae'r lefel gyffredinol hon o allu siarad Cymraeg yn cyd-fynd gyda chyfrifiad poblogaeth 2011 a oedd yn dangos ei fod yn fwy tebygol ymysg y gymuned amaethyddol yn hytrach nag yn y gymdeithas gyfan. Mae'n ymddangos bod ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl hefyd yn gysylltiedig â lefelau incwm cartref ychydig yn uwch.

## Ymgysylltu â'r gymuned leol

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned ffermio gyda'r teimlad hwn yn gryfach yn ystadegol ymysg gweithredwyr ffermydd Bach o'i gymharu â gweithredwyr ffermydd Bach Iawn. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr hefyd yn teimlo bod eu haelwyd yn rhan o'r gymuned amaethyddol; unwaith eto, roedd ymatebwyr o ffermydd Bach yn teimlo ychydig yn gryfach am hyn o'i gymharu ag ymatebwyr o ffermydd Bach Iawn. Roedd mwyafrif helaeth o'r aelwydydd fferm Bach Iawn a Bach yn cymryd rhan mewn sefydliadau cymdeithasol ac amaethyddol.

## Gwneud penderfyniadau a dysgu

Wrth edrych ar ystod o benderfyniadau'n ymwneud â rhedeg y fferm (gan gynnwys cynlluniau amaeth amgylchedd), roedd ymatebwyr i'n harolwg o ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru'n credu bod y rhain i gyd yn cael eu gwneud gan y prif berson sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau (33% i 38%) neu'r person hwn gyda'i briod/partner (31% i 34%). Mae'n ymddangos bod penderfyniadau'n ymwneud â buddsoddiadau mewn busnesau oddi ar y fferm yn cael ei gwneud ar y cyd ychydig amlach, a bod penderfyniadau'n ymwneud â chyflogaeth oddi ar y fferm neu hunangyflogaeth gan aelodau'r aelwyd fel arfer yn cael eu gwneud gan y prif berson sy'n gwneud penderfyniadau (21%), ar y cyd gyda phriod/partner (32%) neu gan unigolyn arall (23%).

Wrth ymateb i ystod o gwestiynau, roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach yn nodi eu bod bob amser yn dysgu, ac yn hapus i dderbyn cyngor ynglŷn â rheoli'r amgylchedd naturiol, eu bod yn agored i ddefnyddio technoleg newydd ac yn dod o hyd i wybodaeth a chyngor ar y we. Fodd bynnag, roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn ychydig yn fwy tebygol o deimlo'n gryf am y materion hyn na ffermwyr ffermydd Bach.

## Rhesymau dros ffermio

Roedd bron i dri chwarter o'r ymatebwyr o ffermydd Bach Iawn a Bach yn nodi eu bod yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf (73%); roedd hyn yn fwy tebygol ymysg gweithredwyr ffermydd Bach na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (83% o'i gymharu â 67%). Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt yn ddiweddarach yn yr holiadur i ba raddau yr oedden nhw'n cytuno bod eu daliad yn fwy o fusnes na dewis ffordd o fyw, roedd bron i draean yn cytuno, traean yn anghytuno a thraean ddim yn cytuno nag yn anghytuno. Unwaith eto, roedd

gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o gytuno bod eu fferm yn fwy o fusnes nag yn ddewis o ffordd o fyw. Er bod y rhai a oedd yn ystyried eu ffermydd fel busnes yn bennaf yn llai tebygol o gytuno bod sicrhau ansawdd bywyd da yn bwysicach na gwneud yr incwm gorau posibl (73% o'i gymharu â 88%), y prif bwynt yw bod bron i dri chwarter yn credu bod ansawdd bywyd yn bwysicach nag incwm, hyd yn oed ymysg y grŵp hwn.

Roedd mwy na thri chwarter o'r ymatebwyr (79%) yn ystyried bod croesawu cadwraeth amgylcheddol yn bwysig ar gyfer dyfodol eu haelwyd ffermio; roedd hyn ychydig yn fwy cyffredin ar ffermydd Bach Iawn (80% o'i gymharu â 75%).

Yn deillio o'r adolygiad llenyddiaeth, gofynnwyd cwestiynau i'n cynorthwyo i ddeall pwysigrwydd absoliwt a chymharol y grwpiau canlynol o ffactorau cymell, sy'n wahanol ond eto'n gorgyffwrdd ar brydiau ac yn gallu cyd-atgyfnerthu ei gilydd:

- ***Cyfryngol*** (defnyddio'r fferm fel ffordd o gyflawni rhywbeth) - gwneud incwm boddhaol; diogelu'r incwm ar gyfer y dyfodol; ehangu'r busnes; darparu amodau gwaith braf.
- ***Cymdeithasol*** - ennill cydnabyddiaeth a bri; bod yn rhan o'r gymuned ffermio; parhau â'r traddodiad teuluol; gweithio gydag aelodau eraill o'r teulu; cynnal perthnasoedd da gyda gweithwyr.
- ***Mynegiannol*** - teimlo balchder o fod yn berchen ar rywbeth; hunan-barch am wneud gwaith gwerth chweil; ymarfer galluoedd a thueddfrydau arbennig; cyfle i fod yn greadigol ac yn wreiddiol; cwrdd â her, cyflawni nod, datblygu cymeriad personol.
- ***Cynhenid*** - mwynhad o gyflawni tasgau gwaith; hoffter o fywyd iachus yn ffermio yn yr awyr agored; gweithgaredd pwrpasol, gwerth gwaith caled; annibyniaeth - rhyddid rhag goruchwyliaeth ac i drefnu amser; rheolaeth mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr i'n harolwg yn nodi mai ffactorau ***cynhenid*** oedd y rhesymau pwysicaf pam eu bod yn ffermio. Yr ail grŵp o'r rhesymau pwysicaf a nodwyd amlaf oedd ffactorau ***cymdeithasol*** a ***mynegiannol***, gyda theimladau cryfach ar y cyfan ynghlwm â'r ffactorau cymdeithasol. Yn y ddau achos, roedd y grwpiau hyn o ffactorau'n cael eu hystyried yn bwysicach gan weithredwyr ffermydd Bach na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn. Y rhesymau lleiaf pwysig dros ffermio oedd y ffactorau ***cyfryngol*** (er wrth gwrs, roedd y rhesymau hyn yn bwysig iawn i rai); unwaith eto, roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o nodi bod y ffactorau hyn yn bwysig na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn. Mae ein canlyniadau'n cyd-fynd â'r llenyddiaeth, sy'n dangos ei bod hi'n annoeth tybio mai cynyddu incwm yw prif nod ffermwyr. Rhesymau cyfryngol yw'r rhai sydd wedi'u polareiddio fwyaf hefyd, gyda'r cyfrannau uchaf o ymatebwyr yn nodi bod y rhain yn ddibwys (10%); roedd 8% o ymatebwyr yn teimlo bod rhesymau cymdeithasol yn ddibwys. Mewn cyferbyniad, dim ond 2% o ymatebwyr oedd yn honni bod ffactorau cynhenid a mynegiannol yn ddibwys.

## Ymatebion i'r DU yn gadael yr UE

Casglodd ein harolwg, a gynhaliwyd ar ddechrau 2021 (ar ôl diwedd y cyfnod pontio ymadael a thua dechrau'r trefniadau masnachu newydd a'r polisi amaethyddol domestig newydd) wybodaeth ynglŷn â disgwyliadau incwm, ac effaith newidiadau arfaethedig yn yr amgylchiadau economaidd a rheoliadol yn ystod y cyfnod ansicr hwn (hynny yw, penderfyniadau a oedd eisoes wedi cael eu gwneud) a'r newidiadau a fwriedir nawr bod darlun mwy clir (er nad yw wedi'i ddiffinio'n llawn) yn dod i'r amlwg (penderfyniadau arfaethedig, gydag ystod o debygolrwyddau'n bosibl). Nodwyd gwahaniaeth rhwng yr effaith ar y fferm a ffermio ar un llaw, ac ar y llaw arall, yr effaith ar aelwyd y ffermwr. Gellir disgwyl i'r newidiadau hyn adlewyrchu cymhellion y rhaid sy'n cadw ffermydd sy'n dod o fewn y dosbarthiadau hyn o ran maint economaidd.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

Roedd gweithredwyr ffermydd defaid Bach Iawn a Bach yn fwy tebygol o ddisgwyl gostyngiad mewn incwm amaethyddol o ganlyniad i adael yr UE (65% o'i gymharu â 57%), ac nid oedd gweithredwyr ffermydd bîff yn disgwyl unrhyw wahaniaeth; roedd gan weithredwyr ffermydd bîff a defaid ddisgwyliadau rhwng yr ymatebion hyn, gan awgrymu bod disgwyl y bydd incwm amaethyddol yn y sector defaid yn benodol yn lleihau. Roedd gwahaniaeth amlwg yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn gan ddibynnu a yw'r ymatebwr yn ystyried y fferm fel busnes yn bennaf. Roedd tua 65% o'r grŵp hwn yn disgwyl i'r incwm amaethyddol leihau o'i gymharu â 35% yn unig o'r rhai nad oeddent yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf.

Er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae ein gwybodaeth ynglŷn â chymhelliant yn berthnasol i ymatebion gan ffermwyr i'r DU yn gadael yr UE, cynhaliwyd dau fath o ddadansoddiad ychwanegol.

*(a) Dosbarthu'r gweithredwyr fferm yn ôl eu prif ffactorau cymhelliant*

Rhannwyd ymatebwyr yn grwpiau yn ôl y grŵp o ffactorau cymhelliant mwyaf cyffredin, h.y. cynhenid, cyfryngol, cymdeithasol a mynegiannol. Cafodd ymatebwyr eu dyrannu i'r grŵp lle'r oedd eu sgorau unigol ar eu uchaf o'u cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y sampl gyfan.

*(b) Dosbarthiad gweithredwyr ffermydd yn ôl dwyster y ffactorau cymhelliant*

Cafodd un grŵp ("selogion") ei ddiffinio o ganlyniad i roi sgorau uwch na'r cyfartaledd o fewn pob un o'r pedwar ffactor cymhelliant gyda'i gilydd, a grŵp arall o ganlyniad i roi sgorau llai na'r cyfartaledd o fewn pob un o'r grwpiau hyn ("pesimistiaid"). Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn eistedd o fewn naill o'r grwpiau hyn ("dim un").

Roedd llai na thraean (31%) yr ymatebwyr eisoes wedi gwneud newid ar eu daliad o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE; roedd ychydig yn fwy o weithredwyr ffermydd Bach eisoes wedi gwneud newidiadau o'i gymharu â gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (31% o'i gymharu â 27%). Roedd y rhai a oedd yn cael eu cymell yn bennaf gan ffactorau cymdeithasol yn fwy tebygol o fod eisoes wedi gwneud newidiadau ar eu daliad na'r rhai a oedd yn cael eu cymell gan ffactorau mynegiannol (42% o'i gymharu â 20%), ffactorau cynhenid (25%) a ffactorau cyfryngol (32%). Roedd "Selogion" yn fwy tebygol o fod eisoes wedi gwneud newidiadau na "phesimistiaid" (34% o'i gymharu â 19%). Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ôl math o fferm na p'un a oedd y fferm yn cael ei ystyried fel busnes yn bennaf.

Roedd mwy o ymatebwyr o'r farn y byddent yn gwneud newidiadau o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE yn y pum mlynedd nesaf nag a oedd wedi gwneud newidiadau eisoes, gyda'r mwyafrif yn disgwyl gwneud newidiadau. Roedd bron i hanner (45%) yn credu bod hyn yn "hynod debygol" a 12% yn "eithaf tebygol". Roedd ychydig llai na thraean (31%) heb benderfynu'r naill ffordd neu'r llall, gan adael 7% o'r farn ei bod yn "annhebygol iawn" y byddent yn gwneud newidiadau a 6% yn credu y byddai'n "eithaf annhebygol". Ychydig iawn o wahaniaeth a welwyd yn ôl band economaidd, ond roedd gweithredwyr ffermydd Bach ychydig yn fwy tebygol o beidio â chael barn gref un ffordd neu'r llall ar hyn o bryd.

Y prif beth yw'r nodi yw mai dechrau'r rhaglen ddarparu nwyddau cyhoeddus newydd yw'r unig newid yr oedd y mwyafrif (64%) o'r rhai a oedd yn disgwyl gwneud newidiadau'n nodi y byddant yn eu gwneud. Roedd graddau sicrwydd yr oedd ymatebwyr yn ei ddangos o ran y disgwyliad hwn hefyd yn llawer uwch nag mewn perthynas â newidiadau eraill. Yr unig newid arall y bwriedir iddo gael ei wneud gan fwy na thraean yr ymatebwyr (37%) a ddywedodd y byddent yn gwneud newidiadau oedd datblygu gweithgareddau arallgyfeirio newydd ar y fferm. Roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn ei ystyried yn llawer mwy tebygol y byddant yn datblygu gweithgareddau arallgyfeirio ar y fferm newydd na gweithredwyr ffermydd Bach.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

O ran newidiadau i aelwyd y fferm, y prif ganfyddiad oedd mai 11% yn unig o'r ymatebwyr a nododd eu bod eisoes wedi gwneud newidiadau yn eu haelwydydd o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE; gofynnwyd i ymatebwyr yn benodol i BEIDIO â chynnwys unrhyw newidiadau o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Gan edrych tua'r dyfodol a bwriadau, gofynnwyd i ymatebwyr ystyried pa mor debygol oedd hi y byddai newidiadau'n digwydd ar eu haelwydydd o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE dros y pum mlynedd nesaf. Roedd y darlun cyffredinol yn awgrymu lefelau cymedrol yn unig o addasiad. Y newid mwyaf tebygol a ddisgwyliwyd gan yr ymatebwyr oedd y byddai aelod o'r teulu'n cymryd yr awenau ar y daliad (10% yn "debygol iawn" ac yn "eithaf tebygol"). Roedd hyn yn cael ei ystyried ychydig yn fwy tebygol ar ffermydd Bach Iawn nag ar ffermydd Bach (13% o'i gymharu â 7%). Fodd bynnag, nid yw'n gwbl glir i ba raddau y gellir priodoli'r newid hwn i'r ffaith bod y DU wedi gadael yr UE.

Gellir gweld nifer o wahaniaethau bach o ran y camau gweithredu a gymerwyd eisoes mewn ymateb i Brexit neu i'r camau a ragwelir dros y pum mlynedd nesaf y gellir eu cysylltu gyda'r prif grŵp cymhelliant y mae gweithredwyr y fferm yn perthyn iddo, lefel dwyster yr ymatebion a nodir ganddynt, a'u hagwedd tuag at y fferm fel busnes. Fodd bynnag, mae'r patrymau'n gymhleth ac, er y byddai modd creu rhesymeg ar gyfer nifer i'r rhain, gyda rhai ohonynt yn gallu cael eu harchwilio gan ddefnyddio'r data helaeth a ddarperir yn ein harolwg, mae'n debyg nad oes unrhyw gysylltiadau syml a hynod bwysig rhwng y nodweddion cymhelliant a welwyd gennym a'r ymatebion gwirioneddol neu arfaethedig i'r amgylchedd newydd a ddaw yn sgil Brexit.

# 1 Cyflwyniad

Gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2020 gan ddechrau ar gyfnod pontio lle bu'r DU yn parhau i fod yn aelod *de facto* o Farchnad Sengl yr UE ac yn ddarostyngedig i bolisïau cyffredin yr UE, gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Daeth y cyfnod pontio hwn i ben ar 31 Rhagfyr 2020. O 1 Ionawr 2021 cychwynnodd y DU a'r UE ar berthynas newydd fel y'i diffinnir o dan Gytundeb Masnach a Chydweithrediad yr UE-DU a gafodd ei gytuno ar 24 Rhagfyr 2020. Hefyd ers1 Ionawr 2021 mae amaethyddiaeth yng Nghymru, sy'n gyfrifoldeb datganoledig yn y DU, wedi bod yn destun polisi amaethyddol cenedlaethol a ddyluniwyd ac a weithredir gan Lywodraeth Cymru; mae hyn wedi disodli'r PAC.

Mae Llywodraeth Cymru (LlC), ynghyd â rhanddeiliaid allanol, wedi archwilio'r dystiolaeth sydd ei hangen i helpu i fynd i'r afael â'r heriau y mae gadael yr UE wedi'u cyflwyno. Amlygodd y gwaith hwn nifer o fylchau tystiolaeth, gan gynnwys deall sut mae ffermwyr yn debygol o ymateb i'r ystod o heriau y mae'r diwydiant amaethyddol yn eu hwynebu. Ychydig sy'n hysbys am yr hyn sy'n cymell ffermwyr yng Nghymru; sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau a'u gweithredoedd tebygol yn wyneb ansicrwydd. Yn benodol, roedd bwlch gwybodaeth mewn perthynas â ffermydd a ddiffiniwyd fel "Bach Iawn" a "Bach" o safbwynt economaidd.

Er bod unedau Bach Iawn a Bach yn cyfrif am lai na 30% o drosiant busnes amaethyddol Cymru, maent yn cynnwys tua 21,000 (87%) o'r 24,500 o ffermydd yng Nghymru ac, er gwaethaf eu daliadau tir cyfartalog llai, ychydig dros hanner (57%) cyfanswm y tir sy'n cael ei ffermio yng Nghymru.

Felly lansiodd LlC alwad gyhoeddus am dendrau ym mis Ebrill 2020 i gynnal ymchwil i gymhellion ffermwyr sy'n rhedeg ffermydd sy'n dod o fewn y grwpiau maint economaidd hyn. Dyfarnwyd y contract i IHS Markit, ar y cyd â Wavehill. Y ddogfen hon yw ein hadroddiad terfynol.

Fel y nodir yn y manylebau tendro (wedi'u golygu ychydig), nod y gwaith ymchwil hwn yw:

- Rhoi dealltwriaeth o gymhellion unigol a phrosesau penderfynu o fewn yr aelwydydd ffermio hynny [ffermydd gweithredol] sy'n cael eu diffinio fel ffermydd Bach Iawn a Bach o safbwynt economaidd.
- Asesu'r effaith y bydd cymhelliant a phenderfyniadau unigol yn eu cael ar fwriadau ar gyfer gweithredu o ystyried y sefyllfaoedd posibl ar gyfer masnach a'r newidiadau arfaethedig i fecanweithiau cymorth fferm.
- Ymchwilio i ba raddau y mae'r aelwydydd ffermio hynny [sy'n gweithredu ffermydd Bach Iawn a Bach] [yn] gysylltiedig â'r gymuned leol a ffermydd mwy o faint ac yn eu cefnogi, a p'un a yw hynny'n gwahaniaethu o fusnesau a gweithgareddau eraill.

Amcanion yr ymchwil yw:

- Darparu mewnwelediad ar gyfer datblygu polisi defnydd tir yn y dyfodol o ran y ffactorau hynny sy'n debygol o ddylanwadu ar yr aelwydydd ffermio hynny [sy'n rhedeg ffermydd Bach Iawn a Bach] a sut y bydd hynny'n effeithio ar eu prosesau gwneud penderfyniadau. Dylai hyn gynnwys unrhyw arwydd o ymddygiadau tebygol a chamau gweithredu posibl.
- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth fwyaf diweddar ar drefniadau masnachu a ragwelir yn y dyfodol fel sylfaen, [i] asesu effaith bosibl gwahanol gytundebau masnach parhaus ar y rhagolygon economaidd ar gyfer ffermio.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 

- I gasglu gwybodaeth ychwanegol am ffermydd Bach Iawn megis ffigurau sy'n ymwneud â pherchnogaeth/deiliadaeth/olyniaeth fferm a hefyd defnyddio cwestiynau Model Segmentu Diwydiant Amaethyddol Cymru (WAISM) i asesu eu penderfyniadau.

Mae adran 2 yn amlinellu ein methodoleg ar gyfer y gwaith ymchwil hwn; yn y bôn, roedd hwn yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth i ddarparu sylfaen ddamcaniaethol, ac arolwg o ffermwyr sy’n dod o fewn y grwpiau maint economaidd o ddiddordeb. Amlinellir crynodeb o ganfyddiadau’r adolygiad llenyddiaeth yn Adran 3 (mae’r adolygiad llenyddiaeth llawn i’w weld fel Atodiad ar wahân). Mae adran 4 yn rhoi ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru yn eu cyd-destun. Mae adran 5 yn nodi nodweddion y ffermydd yn ein sampl tra bod adran 6 yn nodi nodweddion yr aelwydydd. Mae'r adrannau canlynol yn asesu ymgysylltiad yn y gymuned leol (adran7), agweddau at wneud penderfyniadau a dysgu (adran8). Mae teipoleg o gymhellion ffermwyr ar gyfer ffermio’n cael ei ddatblygu yn adran 9 ac mae hwn yn cael ei ddefnyddio i geisio deall ymatebion ffermwyr i’r DU yn gadael yr UE yn adran 10. Mae adran 11yn gosod ein harolwg yng nghyd-destun Model Segmentu Cymru. Yn olaf, mae adran 12 yn cyflwyno canfyddiadau allweddol ein hymchwil.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

# 2 Methodoleg

Roedd ein methodoleg ar gyfer yr ymchwil hon yn cynnwys (i) adolygiad llenyddiaeth; (ii) datblygu holiadur; (iii) gweinyddu arolwg; a, (iv) dadansoddiad disgrifiadol ac ystadegol o ganlyniadau'r arolwg.

## 2.1 Adolygiad llenyddiaeth

Roedd ein hadolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr yn ymdrin â llenyddiaeth y DU a gwledydd OECD ar y pynciau canlynol:

- Y materion diffiniol sy'n gysylltiedig â defnyddio ystadegau yn seiliedig ar aelwydydd amaethyddol/ffermio a phroblemau ymarferol y mae angen i benderfyniadau fynd i'r afael â hwy.
- Cymhelliant a phrosesau penderfynu a ddefnyddir gan ffermwyr ac aelwydydd ffermio, gan gyfeirio'n arbennig ar y rhai sy'n ffermio ffermydd Bach Iawn a Bach. Roedd hyn yn cynnwys llenyddiaeth ddamcaniaethol a'r hyn sy'n hysbys o astudiaethau empirig o ddeall ymddygiad ffermwyr. Roedd yr elfen hon hefyd yn tynnu ar y gwaith paratoi a wnaed yn fewnol gan Lywodraeth Cymru.
- Segmentu a theipolegau ymddygiad ffermwyr, yn enwedig yn y DU, a gwybodaeth am eu defnydd wrth ragweld ymatebion ymddygiadol.
- Rolau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol aelwydydd sy'n ffermio ffermydd Bach Iawn a Bach o fewn y diwydiant ffermio, y gadwyn gyflenwi a chymunedau gwledig.
- Ffynonellau incwm, gweithgaredd oddi ar y fferm a nodweddion eraill aelwydydd sy'n ffermio ffermydd Bach Iawn a Bach.
- Ymatebion disgwyliedig a gwirioneddol gan aelwydydd ffermio i newid polisi, yn enwedig i ddiwygiadau mewn polisïau amaethyddol Ewropeaidd.
- Adolygiad o'r defnydd o sefyllfaoedd wrth archwilio effaith debygol Brexit.

## 2.2 Datblygu holiadur

Datblygwyd holiadur drafft gan dîm yr astudiaeth gan ddefnyddio allbwn yr adolygiad llenyddiaeth (gweler Adran3). Fe wnaeth y broses ddrafftio hefyd elwa o allbwn darn bach o waith mewnol blaenorol a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru ar gymhellion ffermwyr. Oherwydd pwysigrwydd canolog yr arolwg i'r gwaith ymchwil hwn, ac o ystyried y sefyllfa esblygol i'r DU yn gadael yr UE a sut y gallai polisi amaethyddol domestig edrych, treuliwyd llawer o amser yn trafod cwestiynau arfaethedig yr arolwg gyda Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru.

Ar ôl cytuno ar y set o gwestiynau i'w defnyddio, treuliwyd mwy o amser yn mireinio geiriad cwestiynau i sicrhau bod ffermwyr yn eu deall. Elwodd y broses hon yn fawr ar gyfranogiad aelodau'r tîm ac aelodau'r Grŵp Llywio sydd hefyd yn ffermio yng Nghymru.

Ar ôl i'r Grŵp Llywio gytuno ar fersiwn Saesneg yr holiadur, cafodd ei gyfieithu i'r Gymraeg. Yna cafodd y fersiwn Gymraeg ei wirio'n ofalus i sicrhau ei fod yn ddealladwy gan aelod o'r tîm sy'n siarad Cymraeg ac yn ffermio.

Cynhaliwyd peilot gydag 11 cyfranogwr yn ystod yr wythnos yn dechrau 14 Rhagfyr 2020 i brofi'r holiadur. Roedd yr holl ymatebwyr yn hapus â hyd cyffredinol yr arolwg ac ni chafwyd ymateb negyddol i unrhyw un o'r cwestiynau. At ei gilydd, nid oedd unrhyw bryderon sylweddol ynghylch derbynioldeb yr arolwg, naill ai o ran

ffocws yr ymchwil, na chyfeiriad y cwestiynau. Gwnaed rhai mân addasiadau i'r holiadur yn dilyn yr ymarfer peilot cyn cwblhau'r holiadur i'w ddefnyddio yn yr arolwg llawn.


Roedd yr holiadur terfynol (gweler yr Atodiad ar wahân) yn cynnwys 63 cwestiwn yn archwilio ystod o bynciau. Roedd meysydd yr ymchwil yn cynnwys y canlynol, ymysg eraill: nodweddion y fferm, gwneud penderfyniadau a ffactorau cymell ar gyfer ymwneud â ffermio. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau a gymerwyd o Fodel Segmentu Fferm Llywodraeth Cymru sy'n archwilio agweddau a chredoau ymatebwyr tuag at ffermio yn gyffredinol (Lee-Woolf, *et al.,* 2015). Roedd yr holiadur hefyd yn cynnwys ystod o dechnegau a ddyluniwyd i drafod neu i waredu rhai tueddiadau penodol, megis dewis opsiynau ar hap i fynd i'r afael â thueddiadau posibl o ran trefn.

## 2.3 Arolwg o ffermwyr

Y bwriad oedd cael 400 o ymatebion gan aelwydydd ffermio a oedd yn dod o fewn y diffiniad o ffermydd Bach Iawn a Bach, fel y'u pennir yn ôl maint economaidd. Y dasg gyntaf oedd creu cyfres o gysylltiadau a fyddai'n gallu darparu sampl ar hap o ffermwyr a oedd yn dod o fewn y grwpiau maint economaidd hyn. Er y byddai wedi bod yn bosibl casglu cysylltiadau a allai fod wedi bod yn addas o ystod o setiau data gwahanol, roedd hi'n llawer mwy effeithlon i ddechrau gyda ffynonellau data mwy cynhwysfawr.

I'r perwyl hwn, cafodd y contractwr ganiatâd i ddefnyddio cronfa ddata Cyswllt Ffermio sy'n cynnwys yr holl ffermwyr sydd wedi ymgysylltu gyda Cyswllt Ffermio, sef y sefydliad sy'n darparu ystod eang o wasanaethau Trosglwyddo Gwybodaeth a gwasanaethau cynghori i ffermwyr yng Nghymru; gallai hyn fod wedi arwain at rywfaint o ogwydd tuag at ffermwyr sydd wedi ymgysylltu mwy. Fodd bynnag, oherwydd rhesymau'n ymwneud â chymhwystra i dderbyn cymorth gan raglen Cyswllt Ffermio, nid yw'r gronfa ddata yn gynrychioliadol o aelwydydd ffermio Bach Iawn (ffermydd gydag Allbwn Safonol is na €25,000, yn enwedig ar y pen isaf). Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, cafodd cronfa ddata cysylltiadau arolwg mis Mehefin Llywodraeth Cymru ei rannu gyda'r contractwyr i'w galluogi i'r samplu ar begwn isaf y sbectrwm maint economaidd i gael ei ehangu fel bod y sampl terfynol ar gyfer yr arolwg yn cydweddu'n agos gyda'r sector ffermio yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Mae Ffigwr1 yn dangos y cydberthynas rhwng ymatebwyr i'r arolwg a'r amcangyfrif poblogaeth ffermio o ddata cyfrifiad mis Mehefin. Mae hyn yn dangos y dargyfeiriad ar begwn isaf y sbectrwm maint economaidd yn glir; arweiniodd hyn at dangynrychiolaeth i raddau o ffermydd Bach Iawn yn ein sampl o'i gymharu â'r boblogaeth.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 




Ffigwr1: Cyfatebiaeth derfynol rhwng arolwg Mehefin a'n harolwg ni

Ffynhonnell: IHS Markit.

O fewn y fframwaith a ddarparwyd gan y ddwy gronfa ddata o gysylltiadau, roedd y dull samplu ar hap a ddefnyddiwyd yn golygu bod y sampl yn gynrychioladol o ran rhanbarth, math o fferm, ac ati, at ei gilydd.

Lansiwyd yr arolwg llawn ar 11 Ionawr 2021 a'i gwblhau ar 02 Mawrth 2021. Yn unol â'n bwriadau, cynhyrchwyd dros 400 (419) o ymatebion gorffenedig y gellir eu defnyddio yn dilyn cyswllt cychwynnol â 1,916 o unigolion gan gynhyrchu cyfradd ymateb o 21.9%. Roedd hyn yn cynnwys 1,249 o gysylltiadau a ddewisodd beidio ag ymateb, nac ateb galwadau, a 248 a oedd naill ai wedi optio allan neu nad oeddent yn bodloni'r meini prawf samplu. Mae'r gyfradd ymateb ychydig yn is nag ymchwil arall y mae Wavehill wedi'i wneud gyda phoblogaethau tebyg; gan fod yr arolwg gael ei gynnal dros y ffôn, mae'n annhebygol y byddai pandemig COVID-19 wedi bod yn ffactor. Efallai bod amser y flwyddyn wedi bod yn un ffactor, ymhlith ffactorau eraill, gan fod yr ymchwil wedi cael ei gynnal ar ddechrau 2021 wrth i rai ffermydd fod yn ŵyna. Fodd bynnag, roedd y sampl yn gynrychioliadol yn ddaearyddol ledled Cymru ac, fel y trafodwyd ym Mhennod 5, yn gynrychioliadol o'r sector yn fras.

## 2.4 Dadansoddiad o'r arolwg

Ar ôl cwblhau, gwiriwyd a dilyswyd y data a gasglwyd. Cafodd newidynnau unigol eu glanhau a chrëwyd newidynnau ffug er mwyn cefnogi dadansoddiad pellach. Er enghraifft, lle nodwyd maint y fferm mewn erwau ar gyfer y cwestiwn ynglŷn â maint y fferm, cafodd y rhif ei newid i hectarau er mwyn rhoi mesur safonol. Cafodd newidynnau categori i gwestiynau'n archwilio lluniadau agwedd hefyd eu trosi'n werthoedd rhifiadol i gefnogi dadansoddiad pellach. Cafodd data'r arolwg ei gyfateb gyda data Cyswllt Ffermio ac Arolwg Mehefin i ategu ac i ehangu ar y dadansoddiad.

Yna, defnyddiwyd data wedi'i ddilysu i greu dadansoddiad disgrifiadol cychwynnol yn amlinellu nifer a chanran yr ymatebion i gwestiynau penodol. Cafodd y dadansoddiad cychwynnol ei ddefnyddio wedyn i greu nifer o groes-dablau'n seiliedig ar nodweddion ymatebwyr yr oedd y tîm ymchwilio o'r farn y byddai'n darparu mewnwelediad defnyddiol wrth eu cymhwyso i bob cwestiwn. Yn ogystal, nodwyd achosion penodol lle'r oedd hi'n glir bod y gwahanol atebion a roddwyd i un cwestiwn yn hidlydd defnyddiol ar gyfer archwilio atebion i

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

gwestiynau eraill. Defnyddiwyd y croes dablau hyn i gynhyrchu set derfynol o ganlyniadau arolwg a oedd yn sail i'n dadansoddiad.

Yna archwiliwyd tueddiadau yn y data meintiol trwy gyfres o ddulliau ystadegol, gan gynnwys crynodebau disgrifiadol a phrofion cysylltiad lle bo hynny'n briodol. Wrth archwilio arwyddocâd ystadegol arsylwadau, cynhaliwyd profion Chi-sgwâr i archwilio'r perthnasoedd rhwng maint economaidd fferm a'r ffactorau amrywiol dan sylw. Penderfynwyd bod gwerth-p o lai na 0.05 yn ystadegol arwyddocaol. Oherwydd y niferoedd bach yn y samplau ar gyfer rhai o'r croes dablau, nid yw rhai o'r gwahaniaethau'n ystadegol arwyddocaol yn aml.

Defnyddiwyd diffiniad safonol wrth benderfynu a ddylid categoreiddio ymatebion o dan ffermydd Bach Iawn neu Ffermydd Bach. Gan dynnu ar ddata Arolwg Mehefin, sy'n darparu amcangyfrifon cadarn o Allbwn Safonol pob daliad, ystyriwyd ffermydd gydag allbwn llai na £25,000 yn Fach Iawn, ac ystyriwyd bod y rhai gydag allbwn rhwng £25,000 a £125,000 yn Fach. Crëwyd newidyn ffug er mwyn creu croes dablau ar gyfer achosion o dan y diffiniad hwn.

Mewn egwyddor, mae'r data'n caniatáu ar gyfer creu dadansoddiad cyfoethog a chynhwysfawr, ond dim ond y dadansoddiad mwyaf perthnasol yng nghyd-destun yr ymchwil hwn sy'n cael ei archwilio yma. Mae'r prif ddadgyfuno wedi bod i rannu'r data yn weithredwyr ffermydd Bach Iawn (n=265) a ffermydd Bach (n=154) ac mae hyn yn cael ei ddefnyddio trwy gydol y dadansoddiad lle y gwelwyd gwahaniaethau, nad oedd bob amser yn ystadegol arwyddocaol, rhwng y ddau grŵp.

# 3 Crynodeb o'r adolygiad llenyddiaeth

Pwrpas trosfwaol ein hadolygiad llenyddiaeth helaeth, sydd ar gael mewn Atodiad ar wahân, oedd helpu i wasanaethu nodau ac amcanion y prosiect ymchwil hwn (gweler Adran **1Error! Reference source not found.**). Y pwrpas penodol oedd darparu sylfaen ar gyfer datblygu'r set o gwestiynau i'w defnyddio yn arolwg y prosiect hwn o ffermydd Bach Iawn a Bach. Mae'r crynodeb isod yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r llenyddiaeth. Anogir y darllenydd i gyfeirio at yr adolygiad llawn am gyfeiriadau a manylion pellach.

Mae'r diwydiant amaeth yng Nghymru, fel ar draws y DU, yn cael ei gynnal yn bennaf gan aelwydydd fel busnesau anghorfforedig (cwmnïau cartref), a bydd hyn yn arbennig o wir ymhlith ffermydd Bach Iawn a Bach. Hyd yn oed ymysg busnesau mwy, lle mae cyfansoddiad cyfreithiol corfforaethol yn fwy cyffredin, mae'r cwmnïau teuluol hyn fel rheol yn gweithredu fel pe baent yn gwmnïau cartref anghorfforedig, gyda'u ffurf busnes corfforaethol am resymau trethiant yn bennaf, neu i rannu perchnogaeth ymhlith aelodau'r teulu. Felly, gellir disgwyl y byddai modd egluro ymddygiad ffermydd Bach Iawn a Bach yn well trwy ddefnyddio modelau'n seiliedig ar yr aelwyd yn hytrach na theori syml y cwmni. Mae deall ymddygiad yr aelwyd ffermio felly'n bwysig iawn ar gyfer creu a gweithredu polisi, rhywbeth sydd hefyd yn cael ei gydnabod yn yr UDA.

Mae astudiaethau o ymatebion ffermydd yn aml wedi mabwysiadu'r syniad o 'brif berson sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau', ond mae hyn i'w weld yn hen ffasiwn erbyn hyn. Mae ymchwil mwy diweddar yn dangos nad yw ffermwyr yng Nghymru fel arfer yn gwneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain, ac maent yn aml yn ystyried effaith eu penderfyniadau ar eu teuluoedd, hyd yn oed os nad yw aelodau'r teulu'n ymwneud yn uniongyrchol gyda'r broses o wneud penderfyniadau. Felly, mae'n bwysig ystyried sut mae'r fferm yn gweithio fel uned deuluol a phwysau a straen rhedeg menter o'r fath, lle mae sawl ffynhonnell gyflogaeth a gofynion cysylltiedig yn aml yn cael eu cyflawni. Mae hyn yr un mor debygol o fod yn berthnasol mewn busnesau bach teuluol mewn sectorau eraill, er y gallai cysylltiad hirdymor rhwng teuluoedd a daliadau tir penodol fod roi cyseinedd penodol i'r uned deuluol mewn amaethyddiaeth. Un o oblygiadau'r gwaith ymchwil presennol yw bod ***angen gofyn cwestiynau ynglŷn â natur yr aelwyd a sut mae gwahanol aelodau o'r aelwyd yn dylanwadu ar benderfyniadau*** yn yr arolwg o ffermydd Bach Iawn a Bach.

Mae nifer o'r prosiectau a welwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth yn defnyddio Theori Ymddygiad wedi'i Gynllunio (TPB) mewn gwaith ymchwil i egluro ymatebion ymddygiadol a chwilio am ffyrdd i ddylanwadu arnynt. Damcaniaeth seicolegol yw TPB sy'n tybio bod tri phenderfynydd yn dylanwadu ar ymddygiad unigolyn, sef yr hyn y maent yn ei gredu am y canlynol:

- canlyniadau tebygol ymddygiad penodol;
- normau cymdeithasol; a
- rheolaeth unigolyn dros ganlyniadau ymddygiad penodol.

Gyda'i gilydd, mae'r credoau hyn yn dylanwadu ar fwriad unigolyn i fabwysiadu'r ymddygiad hwnnw. Un o'r goblygiadau i'r gwaith ymchwil presennol hwn yw y ***dylai'r cwestiynau yn yr arolwg o ffermydd Bach Iawn a Bach drafod y credoau hyn***; mae'r adolygiad llenyddiaeth yn cynnwys enghreifftiau addas.

Mae dealltwriaeth eang o werthoedd ffermwyr a'r nodau a'r amcanion sy'n sylfaen i benderfyniadau'n hanfodol er mwyn egluro pam fod y diwydiant amaeth yn ymddwyn fel y mae mewn ymateb i gymhelliant economaidd a pholisi. Gellir nodi amryw o arddulliau neu ffyrdd o ffermio sy'n dangos bod cymhelliant, yn ogystal ag incwm, yn gallu bod yn bwysig wrth lywio ymddygiad. Mae cyflawni gweithgareddau ffermio'n rhoi llawer o foddhad (cynhenid), a gall olyniaeth deuluol fod yn bwysig lle mae olynwyr yn cael eu nodi. Un o'r goblygiadau ar gyfer

y gwaith ymchwil cyfredol yw ***bod angen i'r cwestiynau ar gyfer ffermydd Bach Iawn a Bach drafod cyfeiriadedd ac olyniaeth.***

Mae llenyddiaeth ar nodweddion ffermydd Bach Iawn a Bach, yn enwedig yng Nghymru, wedi dod i'r casgliad eu bod yn heterogenaidd iawn, o ran eu gwreiddiau ac o ran yr ystod bresennol o weithgareddau a ffrydiau incwm. Mae arolygon wedi canfod eu bod wedi amrywio o dyddynnod teuluol traddodiadol sy'n cynhyrchu bywoliaeth gymedrol i'w deiliaid, i ffermydd a oedd yn darparu incwm ymylol yn unig neu le cyfleus i fyw ar gyfer preswylwyr, lle nad yw'r incwm yn deillio o amaeth, i unedau a brynwyd gan ddefnyddio adnoddau allanol sy'n cael eu rhedeg at ddibenion mwynhau gweledigaeth neu athroniaeth benodol. Mae'n ymddangos bod rhywfaint o wrthdaro rhwng y bwriad cyffredinol bod y fferm fach yn gwneud elw ar un llaw, ac ar y llaw arall, realiti gorfod dibynnu ar ffrydiau incwm eraill. Roedd data sydd wedi dyddio erbyn hyn (o'r 1980au) yn awgrymu bod diffyg newid yn dueddol o fod yn nodweddiadol ar ffermydd bach iawn yng Nghymru, gyda nifer o ffermwyr wedi bod yno ers amser maith ac yn annhebygol o ystyried y fferm fel ffordd o symud ymlaen at rywbeth mwy. Un o'r goblygiadau ar gyfer y prosiect cyfredol yw y ***dylai cwestiynau'r arolwg allu casglu'r heterogenedd a welir ymysg ffermydd Bach Iawn a Bach o ran cefndiroedd eu ffermwyr ac amrywiaeth ffynonellau incwm.***

Mae tystiolaeth yn y llenyddiaeth o ran rolau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y ffermydd Bach Iawn a Bach yn gymysg, ac yn cuddio patrymau cymhleth. O ran cyflogaeth, roedd ffermydd bach yn defnyddio llai o lafur fesul fferm ar gyfartaledd, ond mwy o lafur fesul 100 hectar. Er bod ffermwyr heb os, ond nid yn unigryw, yn cyfrannu at gyfalaf cymdeithasol, nid oes tystiolaeth glir i nodi a oes unrhyw berthynas â maint y fferm dan amodau presennol. Mae'r dystiolaeth empirig ar y berthynas â'r amgylchedd yn gymhleth unwaith eto. Roedd ffermydd llai (<50 ha) yn fwy tebygol na ffermydd mwy (> 200 ha) o fod â dim stoc o ran cyfalaf cadwraeth (cynefinoedd, bioamrywiaeth, ac ati) (39% yn erbyn 23%), ond y ffermydd bach iawn oedd â'r crynodiad uchaf o barseli stoc cadwraeth uchel. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio yn ôl math o dirwedd, gan awgrymu bod ffactorau lleoliad a thirwedd yn bwysig wrth bennu gwerth cadwraeth, yn ogystal â maint y fferm. At ei gilydd, mae colli ffermydd bach yn gysylltiedig â llai o bobl ar y tir a llai o bobl i chwarae rolau ffurfiol neu anffurfiol mewn cymunedau, er y gallai'r cydgrynhoad hwn wella effeithlonrwydd ac incwm fferm ymysg y rhai sy'n dal i fod yn rhan o'r sector. Byddai'r goblygiadau amgylcheddol yn dibynnu i raddau helaeth ar yr hyn sy'n dod yn lle ffermydd bach, a byddai'r un mor beryglus i gymryd yn ganiataol bod pob fferm fawr yn niweidio'r amgylchedd ag y byddai i gymryd yn ganiataol bod pob fferm fach yn fuddiol i'r amgylchedd. Un o'r goblygiadau ar gyfer y prosiect hwn yw ***bod angen cynnwys cwestiynau o fewn yr arolwg o ffermydd Bach Iawn a Bach sy'n gofyn am rolau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu gweithredwyr***.

Mae amrywiaeth sylweddol yn yr ymatebion ymddygiadol i argyfyngau economaidd yn y gorffennol, a allai fod yn allweddol ar gyfer yr ymatebion a allai ddeillio o bwysau incwm yn gysylltiedig â'r DU yn gadael yr UE a symudiad oddi wrth daliadau uniongyrchol tuag at daliadau ar gyfer nwyddau cyhoeddus dan bolisi amaethyddol yng Nghymru, ac mae angen cynnwys ffactorau sy'n mynd y tu hwnt i'r model busnes syml o gwmni sy'n gwneud cymaint o elw â phosibl. Gellir ystyried camau gweithredu ffermwyr ac aelwydydd fel canlyniad cydadwaith rhwng awydd yr unigolyn i weithredu (sy'n deillio o gymdeithasoli a rhyngweithio), adnoddau materol yr aelwyd ffermio (maint y fferm, cyfalaf, sgiliau llafur, cyfalaf cymdeithasol, safle yng nghylch bywyd, deiliadaeth) a strwythurau allanol (prisiau cymharol, polisi, cyfleoedd y farchnad lafur, normau cymdeithasol a diwylliannol ac ati). Yn hynny o beth, mae'n bosibl y byddai amrywiaeth eang o ymatebion yn dod i'r amlwg, gan gynnwys rhai (megis cynyddu allbynnau) a allai fod yn wrthgyferbyniol. Bydd diffyg ymateb yn nodweddiadol o ymddygiad rhai, ond bydd hynny i'w weld yn llai cyffredin wrth i newidiadau mewn amgylchiadau ymddangos yn fwy parhaol. Mae teipolegau gwahanol wedi cael eu creu sy'n adlewyrchu gwahanol ymddygiadau. Mae yna fwlch hefyd rhwng yr ymateb a fwriadwyd a'r ymateb gwirioneddol. Un o'r goblygiadau ar gyfer y prosiect cyfredol yw y ***dylai'r cwestiynau a holir i weithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach roi ystyriaeth i'r ystod eang o ymatebion a welwyd mewn astudiaethau blaenorol a'r ystod eang o ffactorau y gwelwyd eu bod yn dylanwadu ar ymddygiad.***

Gellir ystyried arloesi fel un ymateb posibl i sbardun pwysau incwm, ond, ymhlith pethau eraill, byddai incwm is hefyd yn gwasgu'r adnoddau sydd eu hangen i ymgymryd â'r buddsoddiad sy'n aml yn gysylltiedig ag arloesi. Mae dadansoddiad o'r broses ymwybyddiaeth o gyfleoedd i arloesi a'r camau'n arwain at fabwysiadu'r arloesedd wedi'i hen sefydlu. Mae'n ymddangos bod ffermwyr i'w gweld yn dangos ymddygiad cymharol gyson dros amser (er enghraifft, fel arloeswr neu berson sy'n araf yn mabwysiadu arloesedd). Un o'r goblygiadau ar gyfer yr astudiaeth gyfredol y dylai cwestiynau ar gyfer ffermydd Bach Iawn a Bach gynnwys eu barn ynglŷn ag arloesi (a'r buddsoddiad cysylltiedig) fel strategaeth ymateb, a pha ddulliau o drosglwyddo gwybodaeth sy'n cael eu defnyddio fwyaf i dderbyn gwybodaeth.

Wrth ystyried ymatebion ymddygiadol i gynlluniau polisi, mae'n ymddangos bod tair prif elfen yn y broses newid, pob un â'i gyfres ei hun o ffactorau sy'n effeithio arnynt:

- sut mae ymyriadau polisi yn cael eu cyfleu i ffermwyr;
- parodrwydd ffermwyr i newid; a,
- chapasiti (neu allu) ffermwyr i newid.

Rhennir yr elfennau hyn â sut mae ffermwyr yn dod yn ymwybodol o agweddau arloesol, yn eu derbyn yn feddyliol fel pethau dymunol, ac yn eu mabwysiadu yn y pen draw (fel y trafodir uchod). Un o'r goblygiadau ar gyfer y prosiect ymchwil hwn yw ei bod yn ***debygol y gellir delio ag arloesedd ac ymatebion ymddygiadol wedi'u cynllunio i fentrau polisi gan ddefnyddio un set o gwestiynau wedi'u croes dablu yn erbyn eraill lle bo hynny'n briodol.***

Mae'r llenyddiaeth yn cynnwys enghreifftiau o ddefnyddio fframweithiau segmentu wrth ddatblygu modelau o ymddygiad ffermwyr. Daw segmentu'n bwysig wrth ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o bwy yw ffermwyr, beth maen nhw'n ei wneud, sut maen nhw'n meddwl ac yn teimlo, a sut maen nhw'n ymateb i bolisïau er mwyn helpu gwneuthurwyr polisi i gyfleu negeseuon a chreu atebion hirhoedlog. Gall segmentu helpu gyda:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth;
- teilwra (ac nid "un dull sy'n addas i bawb"); a
- chydnabod pam mae pobl yn ymddwyn yn wahanol.

Archwilir sawl enghraifft yn fanwl, ac mae bron pob un ohonynt yn defnyddio technegau ystadegol i gasglu atebion ynghyd i gwestiynau ar ymddygiad (gwirioneddol neu arfaethedig) mewn ymateb i amgylchiadau penodol, gan gynnwys newidiadau i fecanweithiau gweithredu polisi. Ar gyfer rhai o'r enghreifftiau hyn mae'r union gwestiynau a ddefnyddiwyd ar gael. Fe wnaeth pob dadansoddiad gynhyrchu ei gyfres ei hun o glystyrau, ac mae labeli disgrifiadol wedi cael eu gosod ar gyfer y rhan fwyaf o achosion (ac eithrio model segmentu agweddau Cymru lle mae labeli niwtral wedi cael eu dewis yn fwriadol). Un o'r goblygiadau ar gyfer y prosiect ymchwil cyfredol yw sut i elwa o'r astudiaethau blaenorol hyn o ran methodolegau, cwestiynau a holwyd i'r ffermwyr a'u haelwydydd? Mae'n ymddangos bod dadl dda ar gyfer ***mabwysiadu o leiaf naw cwestiwn o fodel segmentu agwedd Cymru*** (gweler yr holiadur mewn Atodiad ar wahân) o fewn yr holiadur a gyflwynwyd i'n sampl o ffermydd Bach Iawn a Bach i roi rhywfaint o gymaroldeb. Nid yw hwn yn atal rhag archwilio dadansoddiadau gwahanol.

Mae adran olaf yr adolygiad llenyddiaeth hwn yn ystyried mater penodol; defnyddio sefyllfaoedd i archwilio effaith tebygol y DU yn gadael yr UE (roedd defnyddio sefyllfaoedd yn elfen o'r fethodoleg ymchwil a nodwyd yn benodol gan Lywodraeth Cymru). I grynhoi, yn y blynyddoedd olaf cyn gadael, cafodd dros 30 astudiaeth *ex-*

*ante* arwyddocaol ar yr effaith posibl ar amaethyddiaeth y DU eu cynhyrchu gan ac ar ran amrywiaeth o sefydliadau gyda diddordebau gwahanol a oedd yn aml yn gorgyffwrdd. Yn bwysig yn eu plith roedd cynrychiolwyr buddiannau defnyddwyr; ffermwyr a garddwriaethwyr a'u hundebau; busnesau eraill yn y gadwyn gyflenwi; llywodraeth a gwleidyddion yn ymwneud nid yn unig â phob un o'r rhain ond hefyd gydag ystod eang o effeithiau eraill, megis safle masnach y DU, ei heconomi ehangach, darparu nwyddau cyhoeddus a newidiadau yng nghyfalaf cymdeithasol cymunedau gwledig.


Cyhoeddwyd yr astudiaethau hyn yn bennaf rhwng 2015 a 2019. Roedden nhw'n dangos amrywiaeth o ran dulliau ac yn cynhyrchu ystod o ganlyniadau. Yn y cyd-destun presennol, mae'n rhaid nodi bod pob un heblaw wyth wedi defnyddio sawl senario; roedd y rhain yn ddefnyddiol yn absenoldeb tystiolaeth gadarn ynglŷn ag effaith y pedwar prif ffactor (polisi amaethyddol cenedlaethol, trefniadau masnach rhwng y DU a'r UE, rheoliadau mudo gweithwyr a'r fframwaith rheoliadol ar ôl Brexit) mewn gwirionedd. Roedd y modd y cafodd y sefyllfaoedd hyn eu nodi, megis pa fath o ffactorau effaith a drafodwyd, manylion pob ffactor, a'r dyddiad yn y dyfodol lle byddai'r rhain yn gysylltiedig, yn dyngedfennol i'r canlyniadau. Yn hytrach na dyfalu'r sefyllfa wirioneddol a fyddai'n digwydd wrth i'r DU adael yr UE a'r PAC, lle nad oedd ganddynt unrhyw ganllaw dibynadwy, roedd nifer o'r astudiaethau'n anelu at ddarlunio sefyllfaoedd eithafol (ffiniau) a fyddai wedyn yn gallu cael eu defnyddio i baratoi'r diwydiant amaeth ar gyfer y canlyniadau gorau neu waethaf. Gydag amser, ac ansicrwydd yn lleihau (yn enwedig wrth i gynigion ar gyfer cymorth amaethyddol cenedlaethol gael eu hamlinellu mewn deddfwriaeth yn Lloegr ac mewn ymgynghoriadau yng Nghymru), ac wrth i Gytundeb Masnach a Chydweithrediad gael ei gyflawni rhwng y DU a'r UE (24 Rhagfyr, 2020), mae'r sefyllfaoedd wedi tueddu i symud oddi wrth y ffiniau a symud yn agosach at ddisgwyliadau, a bod yn llai o ran nifer. Mae canlyniadau o ran incwm fesul fferm yn cael eu hamlinellu fel y gwelir yn yr astudiaethau amlycaf. Un o'r goblygiadau i'r prosiect ymchwil cyfredol yw y d***ylid holi ffermwyr ynglŷn â'r camau y maen nhw eisoes wedi'u cymryd a'r rhai y maen nhw'n debygol o'u hystyried dros y pum mlynedd nesaf o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE a disodli'r PAC gyda pholisi amaethyddol domestig (a allai gynnwys lleihau cefnogaeth incwm uniongyrchol a chynyddu taliadau ar gyfer darparu nwyddau cyhoeddus), o ran eu busnes fferm ac o ran addasiadau eu haelwydydd.*** Gall yr addasiadau hyn fod ar sawl ffurf, hyd at a chan gynnwys penderfyniadau i adael y diwydiant, naill ai trwy brydlesu tir i ffermwyr eraill, neu'n fwy parhaol trwy ymddeol. Efallai y bydd haen o effaith hefyd yn deillio o bandemig COVID-19 2020-21.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 

# 4 Ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru: y cyd-destun

Mae ffermydd Bach yn rhan sylweddol o'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru a'r sector wledig, er bod y pwysigrwydd hwn yn amrywio yn ôl y dull mesur a ddewisir. Fodd bynnag, ar gyfer rhai mesuriadau cymdeithasol, megis nifer yr aelwydydd ffermio, ffermydd Bach Iawn sy'n dominyddu.

Roedd Arolwg Amaethyddol Cymru ym mis Mehefin 2019 yn amcangyfrif 24,807 o ffermydd. Roedd mwyafrif (14,658, 59%) o'r rhain yn cael eu hystyried yn Fach Iawn o ran maint economaidd; roedd 6,943 (28%) yn cael eu hystyried yn ffermydd Bach (Ffigwr2). Gyda'i gilydd, mae'r ffermydd Bach Iawn a Bach hyn yn cyfrif am bron i 9 o bob 10 fferm yng Nghymru, ac felly mae mwyafrif yr aelwydydd sy'n rhedeg ffermydd yn dod o dan y categorïau maint hyn. Mae'r ffaith hon yn eu gwneud yn bwysig iawn i faterion cymdeithasol a gwleidyddol. Fodd bynnag, gan fod y ffermydd hyn yn fach o safbwynt economaidd, maen nhw'n gyfrifol am gyfran cymharol fach o'r trosiant amcangyfrifedig yn deillio o ffermio yng Nghymru; mae ffermydd Bach Iawn yn cyfrannu €101 miliwn (5%) ac mae'r ffermydd Bach yn cyfrannu €415 miliwn (22%) at y cyfanswm o €1,906 miliwn. Fel cyd-destun, cyfrannodd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota 1% o gyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) Cymru yn 2019 fel sector (StatsCymru)





Ffigwr2: Nifer y ffermydd, trosiant busnes a thir sy'n cael ei ffermio - yn ôl maint economaidd y fferm (Cymru, 2019)

Ffynhonnell: Arolwg Amaethyddol Mehefin, 2019.

Mae ffermydd Bach yn cyfrif am dros draean (36%) o'r llafur a ddefnyddir ar holl ffermydd Cymru, gyda ffermydd Bach Iawn yn gyfrifol am 13% arall. Y Gofyniad Llafur Safonol (dirprwy ar gyfer nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE) sydd eu hangen ar y fferm yn hytrach na nifer y bobl sy'n gweithio arnynt mewn gwirionedd) ar ffermydd Bach yw 12,600 FTE a 4,000 FTE ar ffermydd Bach Iawn. Fel cyd-destun, cyflogwyd 41,400 o bobl yn y sector amaeth, coedwigaeth a physgota yng Nghymru yn 2018 (llawer ohonynt ddim yn llawn amser), tua 2.8% o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru (StatsCymru).


Er eu bod yn fach yn nhermau economaidd, mae'r ffermydd Bach Iawn a Bach hyn yn gyfrifol am 60% o'r tir sy'n cael ei ffermio yng Nghymru gyda'i gilydd; 266,000 hectar (15%) ar ffermydd Bach Iawn a 788,000 hectar (45%) ar ffermydd Bach (gweler Ffigwr2). Mae ffermydd Bach yn benodol yn gwneud cyfraniad sylweddol o ran categorïau penodol o ddefnydd tir ac i gyfanswm nifer y da byw. Fel y dangosir yn Ffigwr3, nid yw ffermydd Bach Iawn yn bwysig o ran cnydau, ond maen nhw'n cynnwys mwy nag un rhan o bump (23%) o'r ardaloedd coetir, adeiladau, pyllau, llwybrau ac ardaloedd ar fferm nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru (Ffigwr3). Mae ganddyn nhw hefyd 17% o laswelltir parhaol a 12% o dir pori garw. Mae ffermydd hefyd yn cyfrif am gyfran sylweddol o gyfanswm y coed, ac ati (45%), mwy na hanner (53%) y tir pori garw a 46% o borfa barhaol yng Nghymru. Mae cnydau yn ddefnydd tir llawer pwysicach ar ffermydd Bach nag ar ffermydd Bach Iawn, ac yn gyfrifol am chwarter o'r holl dir cnydau yng Nghymru (26%).




Ffigwr3: Cyfran o gyfanswm y defnydd tir yn ôl maint economaidd y fferm a chyfanswm arwynebedd y cnydau ar gyfer y cyd-destun (Cymru, 2019)

Ffynhonnell: IHS Markit yn seiliedig ar Arolwg Amaethyddol Mehefin, 2019.

O ran cyfraniad at gyfanswm niferoedd da byw yng Nghymru, mae ffermydd Bach yn bwysig iawn o ran niferoedd gwartheg bîff a defaid gyda 53% o'r gwartheg bîff ar ddaliadau o'r maint hwn, ynghyd â 49% o'r holl ddefaid. Nid yw buchod llaeth yn bwysig gyda llai na 3,500 yn cael eu cadw ar ffermydd Bach (Ffigwr 4). Mae ffermydd Bach Iawn yn llawer llai pwysig o ran y prif rywogaethau da byw, ond yn gyfrifol am bron i ddwy ran o dair (64%) o geffylau, 41% o eifr, 23% o ddefaid eraill (hyrddod a defaid blwydd oed neu'n hŷn nad ydynt yn magu) a 19% o foch; mae llai na 500 o wartheg llaeth yn cael eu cadw ar ffermydd Bach Iawn.




Ffigwr 4: Cyfran o gyfanswm niferoedd da byw yn ôl maint economaidd y fferm a chyfanswm y da byw yn eu cyd-destun (Cymru, 2019)

Nodiadau: mae ŵyn yn llai na blwydd oed; defaid eraill yn golygu hyrddod a defaid eraill nad ydynt yn magu sy'n flwydd oed neu'n hŷn; mae gwartheg eraill yn golygu gwartheg gwryw a gwartheg benyw nad ydynt wedi lloia; mae gwartheg bîff yn golygu gwartheg benyw o frîd bîff sydd wedi lloia; mae gwartheg llaeth yn golygu gwartheg benyw o frîd godro sydd wedi lloia; mae dofednod yn golygu adar sy'n cael eu cadw'n bennaf ar gyfer cig neu wyau, gan gynnwys tyrcwn, hwyaid, gwyddau ac eraill, ac eithrio adar sy'n cael eu magu i'w saethu.

Ffynhonnell: IHS Markit yn seiliedig ar Arolwg Amaethyddol Mehefin, 2019.

I grynhoi, mae ffermydd Bach Iawn a Bach yn bwysig yn y sector amaethyddol o ran pobl a thir ac maent o ddiddordeb i lunwyr polisi, yn enwedig yng nghyd-destun ailgyfeirio cefnogaeth tuag at ddarparu nwyddau cyhoeddus.  Ni ddylid chwaith anwybyddu pwysigrwydd ffermydd Bach i rai o'r categorïau defnydd tir a da byw.


Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

# 5 Nodweddion fferm

Mae'r adran hon yn rhoi disgrifiad o nodweddion strwythurol sampl yr arolwg.

## 5.1 Maint economaidd fferm

Roedd ein sampl yn cynnwys 265 (63%) o Ffermydd Bach Iawn a 154 (37%) o Ffermydd Bach. Ffermydd Bach Iawn yw'r rhai sydd ag Allbwn Safonol o dan €25,000; mae gan ffermydd Bach Allbwn Safonol rhwng €25,000 a €125,000. Mae hyn ychydig yn is na'r gymhareb o ffermydd Bach Iawn a Bach ar lefel y boblogaeth (14,500 o'i gymharu â 6,700) (Ffigwr5). Roedd hyn yn deillio o ddefnyddio cronfa ddata Cyswllt Ffermio yn y lle cyntaf sy'n cynnwys gogwydd hysbys tuag at ffermydd Bach o'i gymharu â ffermydd Bach Iawn. Cafodd yr arolwg ei ail-gyfeirio unwaith y daeth cronfa ddata arolwg mis Mehefin ar gael i fynd i'r afael â'r mater hwn cyn belled ag y bo modd yn ystod y cyfnod a oedd yn weddill yn yr arolwg.




Ffigwr5: Bandiau maint economaidd fferm yn arolwg mis Mehefin a'n harolwg ni

Ffynhonnell: IHS Markit.

## 5.2 Math o fferm

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn rhedeg ffermydd lle mai'r brif fenter yw defaid a/neu bîff, yn ôl eu hunan-ddatganiad. Mae dadansoddiad yn ôl math o fferm ar gael yn Ffigwr6. Nid yw data y gellir ei gymharu'n uniongyrchol yn cael ei gyflwyno naill ai yn Farming Facts and Figures, Wales 2020,[1] sy'n seiliedig ar arolwg mis Mehefin (nid yw ffermydd Bach Iawn yn cael eu cynnwys yn y dosbarthiad o ran math o fferm), nag o fewn


[1] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-07/farming-facts-and-figures-2020-658.pdf

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

yr Arolwg Busnes Fferm, nad yw'n cynnwys ffermydd gydag Allbwn Safonol llai na €25,000. Fodd bynnag, mae Farming Facts and Figures yn dangos bod 7,128 o ddaliadau gyda buches bîff (29% o gyfanswm 24,807 o ffermydd) a 14,135 gyda diadell ddefaid (57% o gyfanswm y ffermydd) yn 2019 (bydd rhai o'r daliadau hyn yn rhedeg y ddwy fenter) . Mewn cymhariaeth, roedd 36% o'r ymatebwyr i'n harolwg ni'n cadw menter bîff, a 58% yn cadw menter ddefaid, gan ddangos bod mynychder ffermydd bîff, defaid a bîff a defaid (yn ôl hunan-ddatganiad) yn ein harolwg yn fras yr hyn y byddai rhywun yn ei ddisgwyl.

Mae ffermydd llaeth yn cael eu tangynrychioli yn ein sampl (2% o'i gymharu gyda 6% yn y deipoleg yn seiliedig ar arolwg Mehefin 2019, er nad yw hyn yn cynnwys mathau ar gyfer ffermydd Bach Iawn) ac mae ffermydd cymysg yn cael eu gorgynrychioli (13% o'i gymharu â 2%). Yn y ddau achos, mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'n ffocws ar ffermydd Bach a Bach Iawn, er bod rhai ffermydd yn hunan-gategoreiddio fel "fferm gymysg", mae'n bosibl y byddai'n cael ei chategoreiddio'n ffurfiol i fath penodol arall.

Roedd ffermydd Bach Iawn yn llai tebygol o fod yn ffermydd bîff a defaid na ffermydd Bach (17% o'i gymharu â 32%); roedd hyn hefyd yn wir yn y sector llaeth, er nad oedd hynny'n ystadegol arwyddocaol (1.9% o'i gymharu â 3.3%).




Ffigwr6: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch math o brif fenter fferm orau? (n = 418)


Ffynhonnell: IHS Markit.

## 5.3 Maint ffisegol y fferm

Roedd maint y fferm yn amrywio o lai nag 1 hectar i 800 hectar gyda maint cyfartalog (cymedrig) o 53 hectar a chanolrif o 33 hectar, gan olygu bod y maint cyfartalog wedi'i wyro i fyny gan nifer fach o ffermydd ag arwynebedd tir sylweddol. Roedd ffermydd Bach yn 74 hectar ar gyfartaledd, gyda chanolrif o 56 hectar, ac roedd ffermydd Bach Iawn yn 40 hectar ar gyfartaledd, gyda chanolrif o 22 hectar (Ffigwr7). Mae'r gwahaniaeth mwy rhwng y cymedr a'r canolrif ar gyfer ffermydd Bach Iawn yn dangos mwy o achosion o ffermydd cymharol fawr. Gallai amrywiaeth o ffactorau egluro pam fod ffermydd i'w gweld yn achlysurol sy'n Fach Iawn o ran maint economaidd, ond yn fawr o ran ardal; mae'r rhain yn cynnwys ffermydd lle mae'r gweithredwyr yn y broses o adael y sector, cymhlethdodau gyda threfniadau deiliadaeth, a sefyllfaoedd lle mae'r system ffermio'n

gwneud defnydd eang iawn o’r tir, yn enwedig mewn Ardaloedd dan Anfantais Fawr.  Fodd bynnag, mae'r cysylltiad cyffredinol rhwng maint economaidd mwy a maint ffisegol mwy yn parhau i fod yn ddilys ar y cyfan.

Roedd maint cyfartalog ffermydd yn ôl math o fferm yn 51 hectar ar gyfer ffermydd bîff, 52 hectar ar gyfer ffermydd defaid ac 83 hectar ar gyfer ffermydd bîff a defaid (nid oedd digon o ymatebion yn y grwpiau math arall o fferm i ganiatáu dadansoddiad ystyrlon).  Yn ôl y disgwyl, ceir perthynas rhwng maint ffisegol ac economaidd gyda ffermydd Bach yn defnyddio mwy o arwynebedd tir ar gyfartaledd na ffermydd Bach Iawn (ac eithrio ffermydd llaeth, sy’n bosibl ei egluro mae’n debyg yn ôl graddfa dwyster).





Ffigwr7: Dosbarthiad maint economaidd fferm yn ôl ardal ffisegol (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

## 5.4 Perchnogaeth fferm

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn berchen ar eu fferm, neu’n berchen ar y rhan fwyaf o’u fferm eu hunain, gyda dim ond 8% un rhentu’n gyfan gwbl (Ffigwr 8).  Mae hyn yn debyg iawn i'r 7% ar gyfer ffermydd Bach Iawn a Bach a nodwyd yn arolwg Mehefin 2017; mae ffigur Cymru gyfan hefyd yn 7%.  Mae data arolwg mis Mehefin yn dangos amrywioldeb sylweddol o fewn y grŵp Bach Iawn a Bach gyda rhentu’r fferm gyfan yn fwy cyffredin ar ffermydd bach sy’n pori ar lawr gwlad (13%), ffermydd pori bychain a ffermydd llaeth bach (y ddau’n 10%).  Yn ein sampl ni, roedd bod yn berchen ar y fferm gyfan yn fwy perthnasol ar gyfer ffermydd Bach Iawn na ffermydd Bach (72% o’i gymharu â 53%, arwyddocaol, 82% a 49% yn arolwg mis Mehefin 2017, gyda ffermydd Bach yn fwy tebygol o rentu tir yn ogystal.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 





Ffigwr8: Beth yw trefniadau deiliadaeth eich tir? (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

## 5.5 Profiad ffermio blaenorol

Roedd gan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr brofiad blaenorol o weithio ar y fferm deuluol cyn iddynt ymgymryd â'u daliad cyfredol (66%) (Ffigwr 9). Roedd hyn yn llawer mwy cyffredin ar ffermydd Bach o'i gymharu â ffermydd Bach iawn (77% o'i gymharu â 59%, arwyddocaol). Dim ond 16% o'r ymatebwyr oedd heb unrhyw brofiad amaethyddol blaenorol. Unwaith eto, roedd hyn yn dra gwahanol yn ôl band maint economaidd fferm, gyda 21% o ymatebwyr o ffermydd Bach Iawn heb unrhyw brofiad blaenorol o gymharu ag 8% ar ffermydd Bach (arwyddocaol).




Ffigwr 9: A oedd gennych unrhyw brofiad blaenorol o weithio ar y tir cyn i chi ddechrau ar y daliad hwn? (n = 417)

Ffynhonnell: IHS Markit.


## 5.6 Llwybr i ffermio'r daliad presennol

Y llwybr mwyaf cyffredin a nodwyd ar gyfer ffermio eu daliad presennol oedd prynu’r tir (46%), gyda 31% ychwanegol wedi cymryd yr awenau ar y fferm deuluol; a 19% wedi etifeddu’r daliad (Ffigwr10). Er bod gwahaniaeth rhwng cymryd yr awenau ar y fferm deuluol a'i etifeddu (er enghraifft, gallai plentyn fod wedi cymryd yr awenau ar y fferm deuluol gan dalu rhent fel pensiwn ar gyfer y rhieni), efallai y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y grwpiau hyn fel y mae'r ymatebwr yn ei ddeall. Mae hefyd yn bosibl y gallai rhai o'r yymatebwyr sy'n dweud eu bod yn rhentu'r tir fod yn rhentu gan rieni; gallai rhai o'r ymatebwyr a brynodd eu fferm hefyd fod wedi'i brynu gan rieni. Cyfeiriodd bron i 7% o'r ymatebwyr at gyfuniadau o resymau, yn bennaf: (i) etifeddu tir ac i redeg y fferm deuluol; (ii) tir wedi'i etifeddu a phrynu tir; a (iii) prynu a rhentu tir. Y pwyntiau allweddol i'w nodi yw perchnogaeth eang y tir a phwysigrwydd cysylltiad teuluol.

Roedd ymatebwyr o ffermydd Bach yn fwy tebygol o fod wedi cymryd yr awenau ar y fferm deuluol (42% o’i gymharu â 24%) ac wedi etifeddu’r tir (22% o’i gymharu â 17%); roedd ymatebwyr o ffermydd Bach Iawn yn llawer mwy tebygol o fod wedi prynu'r tir (54% o’i gymharu â 32%, arwyddocaol).

Yn ddiddorol, mae'r rhai sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn fwy tebygol o fod wedi etifeddu eu fferm (27% o’i gymharu â 9%) tra bod y rhai nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o fod wedi prynu eu fferm (58% o’i gymharu â 35%); nid oedd gwahaniaeth o ran y rhai sy'n rhentu.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.





Ffigwr10: Sut daethoch chi i ffermio'r daliad hwn? (n = 419, roedd modd nodi mwy nag un ateb)

Ffynhonnell: IHS Markit.

## 5.7 Amser ar y daliad

Roedd ymatebwyr wedi bod yn ffermio eu daliad am gyfnod o 23 mlynedd ar gyfartaledd (cymedrig); dim ond ychydig yn llai oedd y canolrif, sef 20 mlynedd, a oedd yn cael ei dynnu i lawr ychydig gan nifer uchel yr ymatebwyr a oedd wedi bod yn ffermio eu daliad am ugain mlynedd neu lai (Ffigwr11). Y cyfnod hiraf o ddeiliadaeth oedd 80 mlynedd a'r byrraf yn flwyddyn yn unig. Nid oedd gwahaniaeth sylweddol yn ôl band maint economaidd fferm.





Ffigwr11: Ers pryd ydych chi wedi bod yn ffermio'r daliad hwn? (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

## 5.8 Ymgysylltu â chynlluniau amaeth amgylchedd

Roedd hanner y ffermydd yn ein sampl (50%) yn rhan o gynllun amaeth amgylchedd neu gadwraeth, neu wedi bod yn y gorffennol. Mae ffermydd Bach yn fwy tebygol o fod, yn rhan o gynllun amaeth amgylchedd neu gadwraeth, neu wedi bod yn y gorffennol, na ffermydd Bach Iawn (58% o'i gymharu â 46%, arwyddocaol). Mae Ffigwr12 yn dangos y cynlluniau y mae'r ffermydd yn rhan ohonynt ar hyn o bryd neu wedi bod yn rhan ohonynt (mae'n bosibl bod yn rhan o fwy nag un cynllun, fel yr oedd 11% o'r ymatebwyr). Roedd tua 37% o gyfanswm yr ymatebwyr wedi bod neu'n dal i fod yn rhan o gynllun Mynediad Glastir neu Glastir Uwch (y gofyniad lleiaf ar gyfer mynediad yw 3 hectar, ac mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn rheoli'r tir am oes y cytundeb, sy'n isafswm o bum mlynedd).




Ffigwr12: Ydych chi wedi cael mynediad i unrhyw un o'r cynlluniau canlynol? (n = 211, roedd modd nodi mwy nag un ateb)

Nodyn: Mae cynlluniau coetir yn cynnwys: Cynllun Creu Coetir Glastir / Gwaith Cyfalaf Rheoli Coetir Glastir / Cynllun Coetir Fferm / Cynllun Premiwm Coetir Fferm.

Ffynhonnell: IHS Markit.


# 6 Nodweddion yr aelwyd

## 6.1 Cyfansoddiad yr aelwyd

Mae Ffigwr13 yn rhoi dadansoddiad o gyfansoddiad aelwydydd yn ein harolwg yn ôl nifer yr oedolion, oedran yr oedolyn a fu’n ymateb, a phresenoldeb plant yn yr aelwyd. Roedd mwyafrif o’r aelwydydd yn cynnwys dau oedolyn (53%) gydag aelwydydd tri oedolyn yn cyfrif am 20% o'r sampl ac aelwydydd un oedolyn yn cyfrif am 13% arall. Roedd un o bob deg cartref yn cynnwys pedwar oedolyn, gyda bron i 5% o aelwydydd yn cynnwys o leiaf bum oedolyn. Roedd y cyfrannau hyn yn eithaf tebyg i ganfyddiadau arolwg 2010 o aelwydydd Cymru ar ffermydd o bob maint (WRO, 2010), er bod cyfran yr aelwydydd gyda dau berson ychydig yn is (39%) yn yr arolwg hwnnw, a’r aelwydydd un person hefyd yn is (4%). Roedd mwy o aelwydydd mwy o faint yn yr arolwg WRO (tua 15%), gan awgrymu bod ffermydd mwy yn dueddol o fod ag aelwydydd mwy’n gysylltiedig â nhw. Yn ein harolwg yn 2021 nid oedd gwahaniaeth clir rhwng ffermydd Bach Iawn a ffermydd Bach o ran cyfansoddiad yr aelwyd.

Er nad oedd gan 71% o ymatebwyr blant o dan 18 mlwydd oed yn byw yn yr aelwyd, roedd gan 10% un plentyn, 11% dau blentyn a 7% dri neu fwy o blant (nid yw’r ffigurau’n cynyddu oherwydd talgrynnu). Er nad yw’r ciplun hwn yn ein galluogi i ddeall dynameg aelwydydd yn llawn dros amser, mae’r data’n dangos bod nifer o’r oedolion hŷn mewn aelwydydd heddiw wedi bod yn blant pan gymerwyd yr awenau ar y daliad.

Gan ddod â’r ffactorau newidiol ynghyd, roedd aelwydydd ychydig dros un rhan o bump (22%) o’n sampl yn cynnwys dau oedolyn gyda’r ymatebwr rhwng 40 a 66 mlwydd oed heb unrhyw blant yn byw gartref. Roedd aelwydydd gyda dau oedolyn lle’r oedd yr ymatebwr rhwng 40 a 66 mlwydd oed ond heb blant yn byw gartref yn cyfrif am 11% o’n sampl, sef yr un gyfran o aelwydydd gyda thri oedolyn a dim plant yn byw gartref. Roedd oedrannau’r trydydd oedolyn yn amrywio o 18 i 92, felly maent yn debygol o gwmpasu achosion lle mae gan yr ymatebwr blant sydd wedi tyfu’n oedolion yn eu haelwydydd (roedd 54% o’r trydydd oedolyn yn 30 mlwydd oed neu’n iau), ac yn llai cyffredin, achosion lle mae rhieni oedrannus yn byw gyda’u plant (roedd 18% o’r trydydd oedolyn yn 75 mlwydd oed neu’n hŷn). Er nad yw’n bosibl bod yn sicr ynglŷn â’r berthynas o fewn yr aelwyd, mae’n debygol bod ymatebwyr mewn nifer o grwpiau eraill hefyd yn rhannu rhwng yr ymatebwr a’u plant sy’n oedolion (fwyaf cyffredin) a’r ymatebwr a’u rhiant neu rieni (neu riant neu rieni eu partner).




Ffigwr13: Cyfansoddiad yr aelwydydd yn ôl nifer yr oedolion, oedran yr oedolyn cyntaf a phresenoldeb plant yn yr aelwyd (n = 404)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Roedd yr oedran cyfartalog mewn aelwydydd gydag un oedolyn yn unig 63 (canolrif 64). Mewn aelwydydd gyda dau oedolyn, oedran cyfartalog (cymedrig a chanolrif) yr ymatebwr oedd 57 a'r ail oedolyn yn 54 (canolrif 55). (Daeth WRO (2010) i'r casgliad bod 56% o'r ymatebwyr dros 55 oed.) Mewn achosion lle'r oedd oedolion eraill yn bresennol yn yr aelwyd, yr oedrannau cyfartalog oedd 39 (trydydd oedolyn, canolrif 30) a 38 (pedwerydd oedolyn, canolrif 29). Mae canolrif oed y trydydd a'r pedwerydd oedolyn, ynghyd â nifer y plant sy'n bresennol, yn cefnogi'r dadansoddiad uchod gan ei fod yn ymddangos bod cartrefi aml-genhedlaeth yn nodweddiadol o rieni â phlant sydd eto i ddechrau teuluoedd eu hunain.

Roedd gan ychydig dros draean (37%) yr aelwydydd o leiaf un oedolyn sy'n 66 oed neu'n hŷn ac felly'n derbyn o leiaf un pensiwn y wladwriaeth.

Roedd yr ymatebwr yn fenywaidd yn 27% o'r aelwydydd, a gan fod yr arolygwyr yn gofyn a oeddent yn siarad gyda'r prif berson a oedd yn gwneud penderfyniadau, trwy oblygiad, roedd oddeutu traean o'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n fenywaidd; roedd hyn yn fwy tebygol o fod yn wir ar gyfer aelwydydd gyda ffermydd Bach Iawn na ffermydd Bach (31% o'i gymharu â 21%). (Yn arolwg WRO (2010) o aelwydydd fferm a oedd yn cadw ffermydd o bob maint, roedd cyfran debyg iawn (26%) yn fenywod.) Fodd bynnag, mae gwneud penderfyniadau'n aml yn fwy amwys nag y gallai ymholiadau ar y cam hwn ei ddatgelu; mae hyn yn cael ei asesu'n fanylach yn adran 8.1.

## 6.2 Cymwysterau amaethyddol ac an-amaethyddol

Canfu arolwg WRO (2010) o aelwydydd a oedd yn cadw ffermydd o bob maint yng Nghymru nad oedd gan ychydig o dan draean (32%) o'r ymatebwyr unrhyw gymwysterau addysgol; roedd 15% yn raddedigion gyda

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

gradd gyntaf neu uwch raddedig, ac roedd gan 15% gymhwyster proffesiynol neu ddiploma cenedlaethol.  Bu ein harolwg yn 2021 yn edrych yn fanylach ar hyn trwy adnabod cymwysterau ôl ysgol ar wahân (megis Diploma Cenedlaethol Uwch neu NVQ) ym maes amaethyddiaeth, gyda'r gweddill yn amhenodol neu'n ymwneud â phroffesiwn neu alwedigaeth arall.

O ystyried lefel graddfa fach gweithgareddau amaethyddol ar ffermydd Bach Iawn a Bach, mae'n debyg nad yw'n syndod bod y lefel o gymwysterau heb fod yn amaethyddol ymysg y grŵp hwn yn uwch na chymwysterau amaethyddol.  Roedd gan 44% o'r ymatebwyr gymwysterau mewn pynciau nad oeddent yn gysylltiedig â ffermio. Mae lefel y cymwysterau hyn wedi'u polareiddio i raddau, gyda 18% wedi cwblhau Safon Uwch a 13% wedi cwblhau gradd.  Roedd ymatebwyr ar ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o feddu ar gymhwyster nad yw'n amaethyddol na'r rhai ar ffermydd Bach (48% o'i gymharu â 38%, arwyddocaol).  Mae'n werth nodi'n benodol bod ymatebwyr o ffermydd Bach Iawn ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi cwblhau gradd na'r rhai o ffermydd Bach (16% o'i gymharu â 8%), er nad yw hyn yn ystadegol arwyddocaol.  Roedd cymwysterau heblaw ffermio'r un mor gyffredin i ail oedolion.  Mewn 9% o achosion, roedd yr ymatebwr a'r oedolyn cyntaf (priod/partner) yn raddedigion neu'n ôl-raddedigion, a hynny'n llawer mwy tebygol ar ffermydd Bach Iawn (31 ymatebwr o'i gymharu ag  8 ymatebwr).  Roedd gan bron i un rhan o bump o oedolion (17%) gymwysterau heblaw ffermio, fel yr oedd gan 6% o'r pedwerydd oedolyn.  Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl band maint economaidd fferm o ran cymwysterau heblaw ffermio.

Roedd gan gyfran ychydig yn is (ychydig dros chwarter, 26%) o ymatebwyr gymhwyster mewn maes yn ymwneud ag amaethyddiaeth; roedd gan 7% o ymatebwyr radd neu gymhwyster ar lefel uwch, ac roedd gan 11% o ymatebwyr Dystysgrif Genedlaethol Uwch neu Radd Sylfaen.  Roedd cymhwyster mewn pynciau sy'n gysylltiedig â ffermio yn fwy cyffredin ar gyfer ymatebwyr ar ffermydd Bach o'i gymharu â ffermydd Bach Iawn (32% o'i gymharu â 23%, arwyddocaol).  Roedd cymwysterau mewn pynciau sy'n gysylltiedig â ffermio yn llawer llai cyffredin i aelodau eraill yr aelwyd (5% ar gyfer ail oedolyn ac 1% ar gyfer trydydd oedolyn, er enghraifft).

## 6.3 Cyflogaeth gan aelodau o aelwyd y fferm

Cyfeiriodd ein hadolygiad llenyddiaeth at arolwg Arsyllfa Wledig Cymru o aelwydydd fferm yng Nghymru (WRO, 2010) a ganfu fod ffermydd teuluol yn dominyddu'n sylweddol o ran gweithrediad ffermydd yng Nghymru.  Roedd gan bron i hanner (46%) o'r ffermydd ddau aelod o'r teulu yn gweithio ar y fferm; roedd gan 24% un aelod o'r teulu'n gweithio ar y fferm; ac roedd gan 20% dri aelod o'r teulu'n gweithio ar y fferm.  Roedd gan gyfrannau llai o'r cyfanswm a arolygwyd rhwng pedwar a naw aelod o'r teulu'n gweithio ar y fferm.  Nid oedd mwyafrif helaeth y ffermydd yn cyflogi unrhyw lafur amser llawn heblaw am aelodau o'r teulu (90%) nac unrhyw weithwyr rhan-amser (87%) na llafur achlysurol (68%).  Fodd bynnag, nid yw gweithio ar y fferm o reidrwydd yn awgrymu bod ganddynt rôl wrth wneud penderfyniadau neu gyfrifoldeb o ran y mentrau eu hunain.

Mae'r darlun cyffredinol o'n harolwg o ffermydd Bach Iawn a Bach yn 2021 yn debyg yn yr ystyr bod aelodau o aelwyd y fferm yn bwysig i weithrediad y fferm.

Roedd oedolion a oedd yn aelodau o'r teulu ac eithrio'r ymatebwr (y tybir ei fod ef/hi'n gweithio ar y fferm i ryw raddau, fel perchennog o leiaf) wedi gweithio ar y fferm dros y 12 mis diwethaf mewn 89% o achosion.  Roedd hyn ychydig yn fwy tebygol o fod yn wir ar ffermydd Bach Iawn o'i gymharu â ffermydd Bach (91% o'i gymharu â 85%, arwyddocaol).  Yn nodweddiadol, darparwyd cymorth gan un (37%) neu ddau (21%) aelod arall o'r cartref.  Mae'n rhyfedd nodi ei bod hi'n fwy tebygol nad oes yr un aelod arall o'r teulu gweithio ar ffermydd Bach na ffermydd Bach Iawn, ond roedd hi'n fwy tebygol gweld un aelod o'r teulu'n gweithio ar ffermydd Bach Iawn nag ar ffermydd Bach.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

Fodd bynnag, efallai o fwy o ddiddordeb yw bod yr aelwydydd hyn yn gwneud llawer iawn o weithgareddau oddi ar y fferm. Canfu ein hadolygiad o lenyddiaeth fod mwy nag un gweithgaredd (cyfuno ffermio â rhyw fath o gyflogaeth arall oddi ar y fferm - OGA) yn gyffredin yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU (a ledled gwledydd yr OECD). Canfu arolwg WRO o aelwydydd fferm yng Nghymru (WRO, 2010) fod 41% yn derbyn incwm heblaw ffermio yn ogystal â ffermio, gyda 39% o ffermydd bach iawn yn ystyried incwm oddi ar y fferm fel y ffynhonnell incwm bwysicaf. Er nad oedd wedi'i gyfyngu i ffermydd bach yn unig, mae'n ymddangos bod Cyflogaeth Arall oddi ar y Fferm yn fwy arwyddocaol er mwyn cynnal safonau byw a chynaliadwyedd economaidd.

Mae canfyddiadau ein harolwg 2021 o weithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach yn unol â'r darlun cyffredinol, ond maent yn darparu elfen o fanylder nad oedd ar gael yn flaenorol. Rydym ni wedi rhannu gweithgareddau oddi ar y fferm i'r rhai lle mae'r unigolyn yn cael ei gyflogi oddi ar y fferm (hynny yw, mewn gweithgaredd dibynnol) a'r rhai sydd â statws hunangyflogedig (gweithgaredd annibynnol), gan fod y rhain yn wahanol o ran amodau gweithio, hyblygrwydd ac ati.

Dywedodd ychydig dros draean yr ymatebwyr (38%) eu bod nhw, neu oedolion eraill yn yr aelwyd, yn cael eu cyflogi oddi ar y fferm yn llawn amser (o leiaf 35 awr yr wythnos). Yn nodweddiadol, dim ond un aelod o'r aelwyd oedd yn cael ei gyflogi oddi ar y fferm yn llawn amser (26%), ond mewn 10% o achosion, roedd dau aelod o'r cartref yn cael eu cyflogi oddi ar y fferm yn llawn amser. Nododd tua 17% o'r ymatebwyr eu bod nhw, neu oedolion eraill yn yr aelwyd, yn gyflogedig oddi ar y fferm yn rhan-amser (llai na 35 awr yr wythnos); ym mhob achos bron, dim ond un aelod o'r cartref oedd hwn. Nid yw'r ddau grŵp hyn yn annibynnol ar ei gilydd. Gyda'i gilydd, roedd gan 49% o'r aelwydydd a ymatebodd oedolion a oedd yn cael eu cyflogi ar sail lawn amser, rhan amser neu'n llawn amser ac yn rhan amser oddi ar y fferm, ac roedd gan 6% o'r ffermydd oedolion yn y ddau gategori (yn nodweddiadol, un ym mhob un). Nid oedd gwahaniaeth yn ôl band maint economaidd fferm.

Roedd hunangyflogaeth oddi ar y fferm yn llai cyffredin, gyda 18% o ymatebwyr yn nodi eu bod nhw, neu oedolion eraill yn yr aelwyd, yn hunangyflogedig oddi ar y fferm yn llawn amser (o leiaf 35 awr yr wythnos). Unwaith eto, dim ond un aelod o'r aelwyd (13%) a ddisgrifiodd hyn amlaf, ond roedd hyn yn fwy tebygol o fod yn wir ar ffermydd Bach Iawn yn hytrach na ffermydd Bach (17% o'i gymharu â 8%, arwyddocaol). Nododd tua 18% o'r ymatebwyr eu bod nhw, neu oedolion eraill yn yr aelwyd, yn hunangyflogedig oddi ar y fferm yn rhan-amser (llai na 35 awr yr wythnos); ym mhob achos bron, dim ond un aelod o'r cartref oedd hwn. Er bod hyn yn fwy cyffredin ar ffermydd Bach o'i gymharu â ffermydd Bach Iawn (21% o'i gymharu â 15%), nid oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd gan 33% o'r aelwydydd a ymatebodd oedolion a oedd yn hunangyflogedig ar sail lawn amser, rhan amser neu'n llawn amser ac yn rhan amser oddi ar y fferm, ac roedd gan 3% o'r ffermydd oedolion yn y ddau gategori (yn nodweddiadol, un ym mhob un). Nid oedd gwahaniaeth yn ôl band maint economaidd fferm.


Trwy ddod â chyflogaeth a hunangyflogaeth amser llawn a rhan amser oddi ar y fferm gyda'i gilydd, gellir gweld mai cyfuno ffermio gyda rhyw fath o weithgaredd arall sy'n cynhyrchu incwm yw'r norm ar gyfer dwy ran o dair o aelwydydd gyda ffermydd Bach Iawn a Bach, a dim ond traean o'r aelwydydd (32%) a nododd nad ydynt yn cwblhau unrhyw weithgaredd cyflogedig arall oddi ar y fferm. Roedd gan draean o'r aelwydydd (31%) un aelod o'r aelwyd yn cyflawni rhyw fath o weithgaredd oddi ar y fferm, ac roedd ychydig o dan draean (30%) yn nodi bod dau aelod o'r aelwyd (mae gan 7% ohonynt fwy na dau aelod sy'n oedolion) yn cyflawni rhyw fath o weithgaredd oddi ar y fferm. Mae aelwydydd ffermio Bach Iawn ychydig yn fwy tebygol o fod â rhyw fath o weithgaredd incwm oddi ar y fferm (71% o'i gymharu â 64%, arwyddocaol).

## 6.4 Ymwneud â gweithgareddau heblaw am ffermio ar y daliad

Mae ein hadolygiad o lenyddiaeth yn nodi, yn nherminoleg gonfensiynol y DU fel y'i defnyddir gan Defra, bod arallgyfeirio fferm yn golygu gwaith an-amaethyddol o natur entrepreneuraidd, ar y fferm neu oddi arni, ond gan

ddefnyddio adnoddau fferm (Defra, 2018). Yn gysyniadol, mae'n gam bach i ffwrdd o aml-weithgaredd, a gellir dadlau bod y gwahaniaeth yn bennaf yn fater o ddiffiniad, terminoleg a systemau casglu data nag un ystyrlon o ran rheoli a chynhyrchu incwm, gan y bydd yr adnoddau a ddefnyddir i gyd yn cael eu rheoli gan aelwyd y fferm. Yr hyn sydd fwy amlwg yw bod arallgyfeirio, fel y'i diffinnir gan Defra, yn gorfod cael ei weld fel rhywbeth arferol. Yn 2016-17, bu 64% o fusnesau fferm (FBS yn Lloegr) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath (i fyny o 51% yn 2009/10), gan ennill £17,000 ar gyfartaledd (ymhlith y rhai a oedd yn gwneud y gweithgareddau hyn).

Roedd bron i hanner (47%) yr ymatebwyr yn ein harolwg o ffermwyr ar ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru yn 2021 yn rhedeg gweithgareddau eraill, nad ydynt yn ymwneud ag amaethyddiaeth, oddi ar eu daliad. Y mwyaf cyffredin yw rhyw fath o weithgaredd twristiaeth fel gwely a brecwast, llety fferm, gwersylla neu glampio (Ffigwr14, mae “arall” yn cynnwys ystod amrywiol o weithgareddau o brofi ceir rasio i ddangos adar ysglyfaethus). Nid oedd unrhyw wahaniaethau ystadegol yn ôl band maint economaidd fferm.




Ffigwr14: A oes unrhyw weithgareddau amaethyddol eraill yn cael eu rhedeg o'ch daliad? (n = 199, roedd modd nodi mwy nag un ateb)

Ffynhonnell: IHS Markit.

## 6.5 Cyllid aelwydydd fferm

Daeth ein hadolygiad llenyddiaeth i'r casgliad mai prin iawn yw'r data ariannol sydd ar gael ar lefel aelwyd (h.y. o'i gymharu â lefel y fferm, gan felly gynnwys incwm oddi ar y fferm), er bod tystiolaeth mai dyma'r uned ddadansoddol sylfaenol ar gyfer ymchwilio safonau byw, hyfywedd, buddsoddiad a hyd yn oed penderfyniadau'n ymwneud â defnydd tir mewn diwydiant sydd wedi'i ddominyddu gan fusnesau teuluol anghorfforedig. Er bod data incwm aelwydydd yn cael ei gasglu'n rheolaidd mewn rhai gwledydd mewn arolygon fferm (fel yr arolwg ARMS yn yr UDA), nid yw hyn yn rhan o gwmpas Rhwydwaith Data Cyfrifeg Fferm yr UE, ac nid yw'n rhan arferol o'r Arolwg Busnes Fferm yn y DU (cafodd y broses o gasglu incwm yr aelwyd ei gyflwyno ar gyfer blwyddyn 2004-05, ond daeth i ben yn Lloegr ar ôl blwyddyn 2014-15). Mae enghreifftiau prin o wybodaeth rannol ar gyfer Cymru i'w gweld yn Ansell, *et al.* (1991) ac WRO (2010), y ddau yn amlwg wedi dyddio a braidd

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

yn anghyflawn ar ôl ymchwilio’n bellach.  O ganlyniad, mae arolwg 2021 o’r aelwydydd sy’n gweithredu ffermydd Bach Iawn a Bach yn cynorthwyo i gau bwlch pwysig yn y wybodaeth.

Roedd pedair rhan o bump (80%) o'n hymatebwyr i'r arolwg 2021 yn gallu ac yn barod i ddweud ym mha fand y cwympodd incwm eu haelwyd (gwrthododd 16% a doedd 4% ddim yn gwybod). Mae hon yn gyfradd ymateb uwch na'r disgwyl o ystyried pryderon ynghylch sut mae ffermwyr yn ystyried materion preifatrwydd. Mae Ffigwr 15 yn dangos y bandiau incwm hyn ar gyfer y rhai a oedd yn gallu darparu'r wybodaeth hon.  Ychydig iawn o aelwydydd (5%) a oedd yn dod o fewn y band llai na £10,000 - mae hyn ychydig yn uwch na’r pensiwn gwladol blynyddol ar gyfer person sengl, sy’n £9,300 ar hyn o bryd neu’n £179.60 yr wythnos (roedd y 17% o aelwydydd ar ffermydd Bach Iawn gydag incwm gros yr aelwyd o dan y lefel hon fel y nodir yn arolwg WRO 2010, a’r 23% o aelwydydd fferm Bach, wedi’u dyddio’n ormodol i fod yn ystyrlon yn 2021).  Roedd gan fwy na phedwar rhan o bump (82%) incwm rhwng £10,000 a £69,000 yn yr aelwyd, ac roedd gan 13% incwm dros £70,000 (dim ond 3% i 5% o aelwydydd oedd ag incwm dros £78,000 yn adroddiad WRO 2010).

Er bod cyfrannau'r aelwydydd a oedd yn dod o fewn y gwahanol fandiau incwm yn debyg iawn ar y cyfan yn ôl band maint economaidd fferm, roedd ychydig yn fwy o aelwydydd ar ffermydd Bach Iawn yn dod o fewn y band incwm o £10,000- £29,999 (42% o’i gymharu â 35%), ac roedd y gwrthwyneb yn wir am y band incwm o £50,000- £69,999 (24% o’i gymharu â 17%).  Nid yw'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol oherwydd yn rhannol bod niferoedd o fewn pob band incwm yn gymharol isel.  Ar ôl pwyso a mesur, mae'n ymddangos y byddai incwm cyfartalog y grŵp Bach Iawn ychydig yn is na'r grŵp Bach, er nad yw'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn sylweddol.  Y casgliad pwysicaf yw nad yw maint economaidd fferm yn ganllaw dibynadwy ar gyfer lefel incwm yr aelwyd.





Ffigwr 15: Ym mha un o'r ystodau canlynol y mae cyfanswm yr incwm o holl ffynonellau'r ffermwr a'i briod yn cwympo (cyn i unrhyw drethi gael eu didynnu) (n = 336)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Roedd archwiliad o incwm aelwydydd o’i gymharu â'r iaith Gymraeg yn dangos bod gan aelwydydd lle’r oedd yr ymatebwr yn siaradwr Cymraeg rhugl incwm uwch na’r rhai lle nad oedd yr ymatebwr yn siarad Cymraeg. Mae Ffigwr 16 yn dangos er bod gan 46% o’r aelwydydd lle nad oedd yr ymatebwr yn siarad Cymraeg incwm o dros £30,000, roedd y gyfran yn 56% ar gyfer aelwydydd lle’r oedd yr ymatebwr yn siaradwr Cymraeg rhugl.  Nid

yw’n ymddangos bod hyn yn gysylltiedig â phresenoldeb incwm oddi ar y fferm yn y bôn, ond gallai adlewyrchu’r cyflogau uwch sydd ar gael ar gyfer swyddi sy’n gofyn am weithwyr dwyieithog.




Ffigwr 16: Ym mha un o'r ystodau canlynol y mae cyfanswm yr incwm o holl ffynonellau'r ffermwr a'i briod yn cwympo (cyn i unrhyw drethi gael eu didynnu) yn erbyn y nifer sy’n siarad Cymraeg (n = 336)

Ffynhonnell: IHS Markit.


Roedd arolwg WRO o aelwydydd fferm (WRO, 2010) yn graddio pum ffynhonnell incwm aelwydydd, o’r “farchnad” (a oedd yn cynnwys y gwarged o ffermio) ar 50% hyd at arallgyfeirio ar 7% a chynlluniau amaeth amgylchedd ar 2%. Ymhlith sampl WRO o ffermydd Bach Iawn, roedd swyddi oddi ar y fferm yn cynhyrchu 39% o incwm yr aelwyd ac arallgyfeirio (ar y fferm) yn cynhyrchu 15%, ac ar ffermydd Bach, roedd y cyfrannau’n llawer is (7% a 5% yn y drefn honno). Mae sut y mae pwysigrwydd yn cael ei asesu yn amlwg yn hanfodol. Ar gyfer ein harolwg 2021 o weithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach rydym wedi defnyddio dull mwy ysgafn.


Mae Ffigwr 17 yn dangos ein hasesiad o bwysigrwydd gwahanol ffrydiau incwm posibl i incwm yr aelwyd mewn trefn o’r uchaf i’r isaf o ran mynychder (o ran ystyr amlder y ffynonellau hyn). Y nodwedd allweddol arall yw pa mor bwysig yw pob un i incwm yr aelwyd pan fydd yn bresennol (gweler isod). Mae sawl pwynt allweddol trosfwaol i'w nodi:


- ***Mynychder ffynonellau incwm.*** Gwarged masnachu (gwerthiannau heb gostau cynhyrchu) o'r busnes fferm yw'r ffynhonnell incwm a nodir amlaf gyda 91% o aelwydydd yn dweud bod ganddynt y math hwn o incwm. Nid yw hyn yn syndod gan fod ffermio fel arfer yn cael ei wneud gyda’r bwriad o gynhyrchu gwarged (fel y nodir mewn man arall, roedd 73% o ymatebwyr yn datgan eu bod yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf). Y Cynllun Taliad Sylfaenol oedd yn ail ar y rhestr a nodwyd gan 76% o aelwydydd. Roedd cyflogau’n deillio o waith oddi ar y fferm neu o fusnesau eraill heblaw am amaethyddiaeth yn darparu ffynhonnell incwm ar gyfer 64% o aelwydydd, a thaliadau amgylcheddol yn darparu incwm ar gyfer 54% o aelwydydd. Roedd lleiafrif sylweddol o aelwydydd yn nodi incwm o bensiynau (46%), gweithgareddau gwarged ar y fferm nad ydynt yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd fel twristiaeth ac ynni adnewyddadwy (35%) ac enillion ar fuddsoddiadau (33%) (sy'n cynnwys rhenti o eiddo). Roedd tipyn llai o achosion o gontractio ar ffermydd eraill (19%) (yr oedd ffynonellau eraill yn y llenyddiaeth yn nodi’n


gyffredin ar y cyfan); gallai hyn fod oherwydd bod gweithredwyr ffermydd Bach a ffermydd Bach Iawn (yn benodol) yn llai tebygol o fod yn berchen ar offer a fyddai'n eu galluogi i gontractio ar ffermydd eraill. Roedd ffrydiau incwm eraill yn brin (2%).


- ***Pwysigrwydd gwahanol ffrydiau incwm.*** Roedd pwysigrwydd ffrydiau incwm unigol yn tueddu i ostwng ychydig gyda nifer yr achosion, hy mae'r ffynonellau incwm mwyaf cyffredin yn tueddu i gael eu hystyried yn hanfodol fel rheol. Roedd incwm o warged masnachu a'r Cynllun Taliad Sylfaenol yn tueddu i gael ei ystyried yn fwy "hanfodol" yn hytrach na "phwysig" o'i gymharu ag incwm o gynlluniau amgylcheddol a phensiynau, sydd wedi'i rannu'n fwy cyfartal rhwng "hanfodol" a "phwysig".
- ***Pwysigrwydd gwarged masnachu i rai.*** Er mai gwarged masnachu yw'r ffynhonnell incwm fwyaf cyffredin, mae'n cael ei ystyried yn "ddibwys" gan 6% o'r ymatebwyr. Mae hyn bron ddwywaith cyfran yr ymatebion "dibwys" ar gyfer ffrydiau incwm eraill. Gallai hyn fod oherwydd ei fod yn cyfrannu ychydig iawn tuag at incwm yr aelwyd, ond byddai modd ei egluro hefyd oherwydd bod gwarged masnachu'n gallu cael ei ystyried yn ffynhonnell incwm nad oes modd ei osgoi, a bod mwyafrif y gweddill yn cynrychioli dulliau mwy gweithredol o sicrhau incwm.
- ***Gwahaniaethau yn ôl band maint economaidd fferm.*** Roedd rhai gwahaniaethau yn amlwg, gan gynnwys mwy o ymatebwyr yn ystyried gwarged masnachu fel ffrwd incwm, Cynllun Taliad Sylfaenol a thaliadau cynlluniau amgylcheddol ar gyfer ffermydd Bach a chyflogau oddi ar y fferm a phensiynau ar gyfer ffermydd Bach Iawn (gweler isod yn ogystal).














Taliadau neu grantiau cynllun amgylcheddol, ar ôl costau
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Nid oes gen i'r math hwn o incwm
Dibwys
Ddim yn bwysig nag yn ddibwys
Pwysig
Hanfodol


Pensiynau
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Nid oes gen i'r math hwn o incwm
Dibwys
Ddim yn bwysig nag yn ddibwys
Pwysig
Hanfodol


Gwarged o weithgareddau ar y fferm nad ydynt yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd (e.e. twristiaeth)
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Nid oes gen i'r math hwn o incwm
Dibwys
Ddim yn bwysig nag yn ddibwys
Pwysig
Hanfodol


Enillion ar fuddsoddiadau (megis eiddo rhent neu ddifidendau)
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Nid oes gen i'r math hwn o incwm
Dibwys
Ddim yn bwysig nag yn ddibwys
Pwysig
Hanfodol


Contractio ar ffermydd eraill
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Nid oes gen i'r math hwn o incwm
Dibwys
Ddim yn bwysig nag yn ddibwys
Pwysig
Hanfodol




Ffigwr 17: Nodwch pa mor bwysig yw'r ffynonellau incwm posibl hyn i incwm eich cartref (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Yn benodol o ran pob ffynhonnell incwm:

- ***Gwarged masnachu.*** Er bod mwyafrif o ffermwyr yn disgrifio gwarged masnachu (gwerthiannau heb gostau cynhyrchu) fel rhywbeth hanfodol, roedd hyn yn sylweddol uwch ymhlith y grŵp ffermydd Bach nag ymhlith y grŵp ffermydd Bach Iawn, rhywbeth sy'n unol â'r disgwyliadau yn fras. Mewn cyferbyniad, roedd lleiafrif bach yn nodi nad oedd ganddynt y math hwn o incwm, ac mae'r cyfanswm yn uwch (ar 12%) ymysg gweithredwyr ffermydd Bach Iawn, gyda'r ganlyneb bod canfyddiad hyd yn oed ymysg y grŵp hwn bod canfyddiad o rywfaint o warged masnachu yn y mwyafrif helaeth o achosion. Gan ddod ag absenoldeb gwarged masnachu, a'r achosion lle mae'n cael ei nodi'n ddibwys at ei gilydd, roedd 20% o ffermydd Bach Iawn yn gweithredu mewn ffordd lle nad yw gwarged masnachu'n bwysig neu ei fod yn ddibwys. Mewn cyferbyniad, ymhlith ffermydd Bach, y ffigwr cyfatebol yw 6%, gan ddangos bod gwarged masnachu'n bwysicach ar gyfer incwm yr aelwyd, ac felly i'r arddull ffermio a ddangosir.

- ***Cynllun Taliad Sylfaenol.*** At ei gilydd, roedd mwy na thri chwarter (76%) yr ymatebwyr yn cydnabod eu bod yn derbyn y math hwn o incwm, ac roedd mwy na hanner (54%) yn datgan ei fod yn hanfodol i'r aelwyd. Fodd bynnag, gwelwyd gwahaniaethau sylweddol rhwng y grwpiau ffermydd Bach Iawn a ffermydd Bach. Roedd canran llawer uwch o weithredwyr ffermydd Bach yn nodi ei fod yn hanfodol (69%) o'i gymharu â'r grŵp ffermydd Bach Iawn (45%), sy'n unol â'r disgwyliadau. Rydym ni'n nodi er ei bod yn ymddangos nad oedd 100 o'r ymatebwyr yn derbyn y Cynllun Taliad Sylfaenol, dim ond 42 oedd yn is na'r trothwy cymhwysedd o bum hectar o dir cymwys; mae'n debygol bod rhai ymatebwyr yn gymwys ond nad ydynt yn hawlio, ac mae'n bosibl bod rhai wedi anwybyddu'r ffynhonnell incwm hon.

- ***Cyflogau o swyddi oddi ar y fferm a hunangyflogaeth.*** Roedd tua 68% o weithredwyr ffermydd Bach Iawn yn nodi incwm o'r Gweithgareddau Cyflogedig Eraill (OGA) a 57% o weithredwyr ffermydd Bach, gwahaniaeth sy'n unol i raddau â'r disgwyliadau sy'n dangos cynnydd dros amser (yn arolwg 2010 WRO o aelwydydd fferm, roedd 56% o'r aelwydydd ar ffermydd Bach Iawn yn nodi incwm "heblaw'r fferm" (a allai gynnwys incwm oddi ar y fferm heblaw am gyflog hefyd) a 30% o ffermydd Bach). Roedd hanner y ffermydd Bach Iawn (49%) yn nodi bod y ffrydiau incwm hyn yn hanfodol, fel yr oedd 29% o ffermydd Bach. Gan gyfyngu'r asesiad 'hanfodol' i'r rhai a oedd yn nodi Gweithgareddau Cyflogedig Eraill yn unig, mae'n awgrymu, ymysg y grŵp ffermydd Bach Iawn, i'r rhai sy'n cwblhau Gweithgareddau Cyflogedig Eraill, roedd tua 71% yn nodi ei fod yn hanfodol i'r aelwyd; roedd y ffigwr ymysg y grŵp ffermydd Bach yn 50%. Mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd â'r llenyddiaeth sy'n dangos bod incwm oddi ar y fferm yn bwysig ar gyfer lefel a sefydlogrwydd gwariant posibl (safon byw) ac i hyfywedd cyfuniad o'r fferm a'r aelwyd fel uned sefydliadol gynaliadwy. Felly, er mwyn deall sefyllfa aelwydydd sy'n gweithredu ffermydd Bach Iawn a Bach, mae angen cynnwys Gweithgareddau Cyflogedig Eraill.

- ***Taliadau cynllun amgylcheddol yn net o gostau.*** Roedd dwy ran o dair o'r ffermydd Bach (66%) a hanner (48%) o'r ffermydd Bach Iawn yn nodi'r math hwn o incwm. Y pwynt allweddol arall yw bod taliadau amgylcheddol yn cael eu hystyried yn hanfodol gan draean (36%) o'r ffermydd Bach ond gan lai na chwarter (23%) o'r ffermydd Bach Iawn.

- ***Pensiynau.*** Roedd hanner (50%) y gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn adrodd am bensiynau, ac ychydig yn llai (39%) ymysg gweithredwyr ffermydd Bach. Roedd pensiynau'n cael eu hystyried yn hanfodol i'r aelwyd ar gyfer 29% o'r ffermydd Bach Iawn, ac i 17% o'r ffermydd Bach. Gan gyfuno ystyriaeth i'r aelwydydd hynny sy'n derbyn pensiynau, gellir gweld ymhlith y grŵp ffermydd Bach Iawn, mewn dros hanner yr achosion gyda phensiynau (76/133 = 57%), mae'r pensiwn yn cael ei ddisgrifio fel elfen hanfodol ar gyfer yr aelwyd. Roedd y rhain ychydig yn llai hanfodol ymysg y grŵp ffermydd Bach ar gyfer y rhai a oedd â phensiynau (26/60 = 43%). Mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd sylweddol cynnwys incwm o bensiynau i ddeall gallu aelwydydd fferm i oroesi ac i aros yn hyfyw fel unedau sefydliadol.

- ***Gwarged o weithgareddau ar y fferm nad ydynt yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd.*** Er bod bron i hanner yr ymatebwyr yn nodi eu bod yn rhedeg gweithgareddau nad ydynt yn amaethyddol o'u daliad, dim ond traean a oedd yn nodi'r math hwn o incwm (nid oedd gwahaniaeth amlwg rhwng gweithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach), ac roedd tua hanner ohonynt (18% o'r cyfanswm) yn disgrifio'r ffynhonnell incwm hon fel rhywbeth hanfodol. Mae'n debyg y gellir egluro hyn trwy gyfuniad o beidio â derbyn incwm o weithgareddau megis llety yn ystod cyfnodau clo COVID-19, gweithgareddau megis contractio a allai gael eu gwneud heb daliad ffurfiol, a choetir lle mae'r incwm yn dod yn bennaf pan fo'r coed yn cael eu gwerthu.

- ***Enillion ar fuddsoddiadau (rhent ar eiddo neu ddifidendau).*** Dim ond traean (33%) a oedd yn nodi unrhyw incwm o fuddsoddiadau, heb fawr o wahaniaeth rhwng y grwpiau ffermydd Bach Iawn a Bach. At ei gilydd, roedd tua un rhan o bump (22%) yn nodi bod y ffynhonnell incwm hon yn hanfodol neu'n bwysig, er bod hwn yn fwyafrif sylweddol (67%) o'r rhai a oedd yn nodi'r ffynhonnell incwm hon.


- ***Contractio ar ffermydd eraill.*** Lleiafrif bach yn unig (19%) a oedd yn nodi eu bod yn contractio ar ffermydd eraill fel ffynhonnell incwm arall ar gyfer yr aelwyd (yn unol â chanfyddiad WRO (2010) o 21%), er bod hyn yn tueddu i fod yn bwysicach neu'n hanfodol ar ffermydd Bach yn hytrach na ffermydd Bach Iawn. Mae'r math hwn o gontractio yn awgrymu ffurfioldeb busnes a thaliad gwirioneddol. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhannu llafur (ac offer) yn anffurfiol ar draws ffermydd yn arfer hir sefydlog yng Nghymru ac wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu cyfalaf cymdeithasol yn y gymuned ffermio (gweler adroddiad Agra CEAS Consulting (2018) i Lywodraeth Cymru).

Cafodd y wybodaeth ansoddol a gasglwyd gan ymatebwyr ynglŷn â phwysigrwydd ffynonellau incwm ei throsi gan ein tîm ymchwil i greu sgôr rifol ar gyfer aelwydydd lle'r oedd pob ffynhonnell incwm yn bresennol ("hanfodol" = 5, "dibwys" = 1). Mae eithrio aelwydydd lle nad oedd y ffrydiau incwm hyn yn bresennol yn darparu persbectif gwahanol (Ffigwr 18).

Roedd taliadau o gynlluniau amgylcheddol ar frig ar y rhestr o ran pwysigrwydd ymhlith aelwydydd lle'r oedd y rhain yn ffynhonnell incwm, ac roedd contractio'n ail ar y rhestr. Gallai hyn ddatgelu'r cymhelliant ariannol i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Mae'n ddiddorol nodi bod enillion o ganlyniad i gyflogaeth a hunangyflogaeth oddi ar y fferm yn ail o'r gwaelod o ran pwysigrwydd, gan awgrymu nad yw swyddi oddi ar y fferm, ar gyfartaledd, yn cael eu hystyried ymysg y ffrydiau incwm pwysicaf ar gyfer yr aelwyd. Fodd bynnag, gallai hyn adlewyrchu'r canfyddiad bod y ffynhonnell incwm hon yn bresennol yn y cefndir, yn enwedig pan fo gweithgareddau cyflogedig eraill yn cael eu cyflawni am resymau heblaw am reidrwydd ariannol (fel mae'r

llenyddiaeth yn ymwneud ag aml-weithgaredd yn ei awgrymu sy'n gyffredin), yn hytrach na'n rhywbeth sy'n cael ei wneud er mwyn ychwanegu at incwm yr aelwyd, fel y gallai taliadau cynlluniau amgylcheddol neu gontractio fod.

Yn gyffredinol, nid oedd gwahaniaeth ystadegol o ran safle yn ôl band maint economaidd fferm.  Fodd bynnag, ac yn groes i'r reddf o bosibl, mae ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol yn ystadegol o osod mwy o bwysigrwydd ar warged masnachol na ffermydd Bach lle mae'r taliadau hyn ar gael (ond nid oedd 12% o ffermydd Bach Iawn yn nodi'r ffynhonnell incwm hon, gweler uchod), ac mae'r gwrthwyneb yn wir ar gyfer gwarged o ganlyniad i weithgareddau ar y fferm nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu bwyd (twristiaeth, ynni adnewyddadwy ac ati).




Ffigwr 18: Safle pwysigrwydd ffynonellau incwm posibl ymhlith yr aelwydydd hynny lle mae'r ffynonellau hyn yn bodoli

Ffynhonnell: IHS Markit.

## 6.6 Olyniaeth

O'r adolygiad llenyddiaeth, roedd yn amlwg bod olyniaeth o fewn y teulu yng Nghymru yn dylanwadu'n fawr ar wneud penderfyniadau ynglŷn â'r fferm fel busnes (WRO, 2011).  Roedd olyniaeth hefyd yn fater allweddol yn y trafodaethau am waith cadwraeth ar y fferm, ac fe'i cyflwynwyd fel y prif reswm i sicrhau hyfywedd y tir yn y dyfodol.  Daeth arolwg WRO o aelwydydd fferm (WRO, 2010), a oedd yn cynnwys ffermydd o bob maint, i'r casgliad fod gan 60% o'i sampl olynydd tebygol i'r fferm, a bod gan 47% gynlluniau olyniaeth teuluol.  Canfu'r arolwg a oedd ynghlwm wrth astudiaeth segmentu Cymru ymateb ychydig yn llai amlwg (Lee-Woolf, et al. 2014); roedd dros hanner yr ymatebwyr yn nodi bod ganddynt gynllun cadarn ar waith i drosglwyddo eu daliad i rywun arall a chytunodd bron i dri chwarter ei bod yn bwysig bod eu daliad yn parhau i gael ei reoli gan eu teulu, er bod arwyddion y gallai rhai ffermwyr fod wedi ei chael yn anodd adnabod rhywun addas i drosglwyddo awenau'r fferm iddo ymhlith y genhedlaeth nesaf.  Roedd traws-dablau'n dangos nad oedd y mater o olyniaeth yn dueddol o fod mor berthnasol i ymatebwyr a oedd yn cynrychioli daliadau 'bach iawn - amser hamdden', ac roedd y canfyddiad hwn yn cael ei adlewyrchu gan ganfyddiadau ymchwil ansoddol.  Dywedodd yr awduron fod hyn yn ôl pob tebyg yn adlewyrchu'r ffaith bod etifeddiaeth yn chwarae llai o rôl fel y modd y daeth y daliad i'w meddiant.

Mae canlyniadau ein harolwg 2021 o weithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach yn cyd-fynd gyda nifer o’r canfyddiadau hyn ac yn ychwanegu rhai dimensiynau pellach. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi meddwl am yr hyn y byddant yn ei wneud â'u fferm pan fyddant yn penderfynu rhoi'r gorau i ffermio. Roedd mwy na hanner (57%) wedi ystyried olyniaeth. Roedd hyn ychydig yn uwch ymhlith gweithredwyr ffermydd Bach (61% o’i gymharu â 55%, arwyddocaol). Roedd bron i hanner (47%) yr ymatebwyr yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno” bod ganddyn nhw gynllun cadarn i drosglwyddo eu daliad i rywun arall. Mewn cyferbyniad â'r rhai a oedd wedi ystyried olyniaeth, nid oedd gwahaniaeth yn ôl band maint economaidd fferm.

Ymhlith y rhai a oedd wedi ystyried olyniaeth, dywedodd bron i ddwy ran o dair (64%) fod olynydd parod wedi ei nodi (37% o'r holl ymatebwyr) ac roedd 13% yn nodi nad oedd olynydd wedi'i nodi hyd yn hyn (7% o'r holl ymatebwyr). Dywedodd ychydig yn llai na chwarter (23%) ei bod yn rhy gynnar i ddarpar olynydd fynegi bwriad difrifol (13% o'r holl ymatebwyr). Roedd mwy na thri chwarter (78%) y rhai a oedd wedi creu cynllun cadarn ar gyfer olyniaeth wedi adnabod olynydd parod; roedd 18% yn nodi ei bod hi’n rhy gynnar i ddarpar olynydd fynegi bwriad difrifol. Roedd y rhai a oedd yn ffermio ffermydd Bach Iawn ychydig yn fwy tebygol o fod wedi nodi olynydd (66% o’i gymharu â 62%, arwyddocaol), er bod ffermwyr ar ffermydd Bach ychydig yn fwy tebygol o ddweud ei bod yn rhy gynnar i fynegi bwriad gwirioneddol (27% o’i gymharu â 21%).

I'r mwyafrif o ymatebwyr (65% o'r rhai a oedd wedi ystyried olyniaeth ac wedi darparu ateb), roedd y gorwel ar gyfer cynllunio olyniaeth yn fwy na deng mlynedd; roedd chwarter arall (25%) yn disgwyl i olyniaeth ddigwydd 5-10 mlynedd i’r dyfodol. Dim ond 10% a nododd y byddai olyniaeth yn digwydd o fewn pum mlynedd. Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl band maint economaidd fferm. Yn ôl y disgwyl, roedd y rhai nad oedd wedi ystyried olyniaeth, ond a oedd wedi darparu ateb i’r cwestiwn hwn, yn nodi y byddai olyniaeth yn digwydd fwy na deng mlynedd i’r dyfodol.

Ymhlith y rhai a oedd wedi ystyried olyniaeth, roedd y mwyafrif (73%) yn bwriadu trosglwyddo'r fferm trwy rodd, gan adlewyrchu natur deuluol y diwydiant ffermio ar raddfa ffermydd Bach Iawn a Bach o leiaf, a 5% drwy werthu. Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl band maint economaidd fferm.

Ymhlith yr ymatebwyr nad oeddent wedi nodi olynydd, ansicrwydd oedd y brif nodwedd o ran yr hyn a fyddai’n digwydd i'r daliad (86%). Rhannwyd yr ymatebwyr eraill yn weddol gyfartal o ran yr hyn a fyddai'n digwydd i'w fferm, rhwng rhentu (gosod/prydlesu ar ryw ffurf) a gwerthu. Dylid cadw mewn cof bod rhai ffermydd yn cael eu gosod fel tenantiaeth, ac mewn rhai achosion, dylid ystyried yr ymateb “bydd yn cael ei osod” i olygu y bydd y denantiaeth yn dod i ben ac y bydd y landlord yn dod o hyd i denant newydd (yn hytrach na gwerthu gyda meddiant gwag). Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl band maint economaidd fferm.

Er syndod o bosibl, dim ond ychydig dros hanner (55%) yr ymatebwyr a oedd yn cytuno ei bod yn bwysig bod y daliad yn aros yn y teulu, ychydig yn llai nag a ganfuwyd yn yr arolwg segmentu cynharach a fu’n edrych ar ffermydd o ystod ehangach o feintiau. Roedd hyn, serch hynny, yn uwch ymhlith y rhai a oedd yn ffermio ffermydd Bach o’i gymharu â ffermydd Bach Iawn (63% o’i gymharu â 51%, arwyddocaol). Roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o beidio â chytuno nac anghytuno (29% o’i gymharu â 22%).

## 6.7 Defnydd o’r Iaith Gymraeg

Ddegawd yn ôl, dangosodd cyfrifiad poblogaeth 2011 yng Nghymru fod 43% o’r rhai a oedd yn cael eu cyflogi mewn amaethyddiaeth, a fyddai wedi cwmpasu ffermydd o bob maint, yn siaradwyr Cymraeg o’i gymharu â 19% ar gyfer y genedl gyfan. Canfu ein gwaith ymchwil blaenorol ar gyfraniad cymdeithasol ffermio fod ffermydd bach yn cael eu hystyried yn arwyddocaol fel trysorfa ar gyfer yr iaith Gymraeg (Agra CEAS Consulting, 2018). Nid oedd arolwg WRO (2013a) o aelwydydd gwledig, a fu’n edrych yn fanwl ar ddefnydd o’r Gymraeg a rhuglder ei siaradwyr, yn dadansoddi yn ôl galwedigaeth yr ymatebwr, ac nid oedd ei arolwg o aelwydydd ffermio (WRO. 2010) yn mynd i’r afael â’r mater iaith (heblaw am gynnig cyfle i ymatebwyr ateb yn y modd hwn). Fe

wnaeth ein harolwg yn 2021 archwilio'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (53%) yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, gyda gallu ieithyddol ychydig yn fwy cyffredin ymysg gweithredwyr ffermydd Bach (57% o'i gymharu â 51%, arwyddocaol). Roedd y gallu i siarad Cymraeg hefyd yn fwy cyffredin ymysg ymatebwyr iau (61% o'r rhai 40 mlwydd oed ac iau, 55% o'r rhai 41-65 a 46% o'r rhai 66 mlwydd oed a throsodd).

O'r rhai a oedd yn gallu siarad Cymraeg, roedd dwy ran o dair (67%) yn nodi eu bod yn rhugl ac 11% arall yn nodi eu bod yn gallu siarad cryn dipyn. Mae hyn yn golygu bod ychydig dros draean o gyfanswm y sampl yn rhugl yn y Gymraeg (36%). Roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o fod yn rhugl yn y Gymraeg na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (78% o'i gymharu â 60%, arwyddocaol).

Roedd bron i ddwy ran o dair (65%) o siaradwyr Cymraeg yn ei siarad bob dydd; roedd hyn yn fwy arferol ymhlith gweithredwyr ffermydd Bach (75% o'i gymharu â 58%). Roedd 29% arall yn siarad Cymraeg yn wythnosol neu ychydig yn llai aml, a hynny'n fwy cyffredin ymhlith gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (34% o'i gymharu â 22%). Roedd tua 6% o ymatebwyr a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn nodi nad oeddent byth yn gwneud hynny, ac roedd hyn yn digwydd yn amlach ymhlith gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (8% o'i gymharu â 3%).

Er bod 16% o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith ym mhobman, roedd y Gymraeg yn cael ei siarad o fewn yr aelwyd gan amlaf (47%), a hynny'n fwy ymhlith aelwydydd ffermio Bach nag aelwydydd ffermio Bach Iawn (52% o'i gymharu â 43%, arwyddocaol). Roedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gymuned gan 24% o siaradwyr Cymraeg, a'r tro hwn, roedd hynny'n fwy cyffredin ymysg ffermydd Bach Iawn (29% o'i gymharu â 17%). Roedd y Gymraeg yn cael ei siarad yn y gweithle/o fewn y busnes gan 8% o siaradwyr Cymraeg. Yn seiliedig ar batrymau defnydd o'r iaith, roedd ffermydd Bach Iawn yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg o fewn yr aelwyd, ond yn siarad Cymraeg yn y gymuned; gallai hynny fod oherwydd ei fod yn angenrheidiol gwneud hynny ar adegau.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

# 7 Ymgysylltu â'r gymuned leol

Roedd ein hadolygiad o lenyddiaeth yn ymdrin ag ymgysylltu â'r gymuned leol a chyfraniad cymdeithasol amaethyddiaeth. Daeth astudiaeth flaenorol ar ran Llywodraeth Cymru (Agra CEAS Consulting, 2018) i'r casgliad bod:

- Amaethyddiaeth, trwy gyfrwng aelwydydd ffermio, yn cyfrannu'n uniongyrchol i wahanol agweddau ar gyfalaf cymdeithasol, ac felly i weithrediad cymdeithas mewn ardaloedd gwledig a lles y preswylwyr yno. Y prif gyfraniadau yw: rhwydweithio cymdeithasol; cydlyniant cymunedol; capasiti a gwytnwch cymdeithasol; a diwylliant (gan gynnwys yr iaith Gymraeg). Yn ogystal, byddai creu swyddi ac incwm trwy amaethyddiaeth yn arwain at ddimensiwn cymdeithasol.
- Er y gallai'r ffocws fod ar yr hyn sy'n digwydd o fewn y gymuned ffermio (gan gynnwys manteision cydweithio mewn tasgau megis casglu defaid ynghyd), ceir hefyd effeithiau sy'n ymestyn yn ehangach i aelodau eraill o'r boblogaeth wledig. Teimlir bod y traddodiad o gefnogaeth rhwng aelwydydd ffermio yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r pentref yn gweithredu.
- Y teimlad yw bod y rhan y mae aelwydydd ffermio'n ei chwarae yn mynd ymhell y tu hwnt i'w pwysigrwydd rhifiadol presennol. Ymhlith y ffactorau sy'n cyfrannu at hyn mae'r ffaith eu bod yn berchen ar dir a pheiriannau y gellir eu defnyddio er budd y gymuned (yn ogystal â ffermio), eu bod yn breswylwyr parhaol, a'u safle o fewn sefydliadau lleol a llywodraeth y mae hyn yn aml yn arwain ato.
- Ceir rhywfaint o dystiolaeth fod rolau traddodiadol o fewn y gymuned wledig wedi newid, ac wedi lleihau'n gyffredinol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi yn y cyd-destun presennol sy'n canolbwyntio ar ffermydd Bach Iawn a Bach:

- Ni ddaeth darlun clir i'r amlwg o'r berthynas ganfyddedig rhwng mathau o ffermio na maint fferm a chyfraniadau cymdeithasol yng Nghymru.
- Tybiwyd weithiau bod cyfraniadau wedi'u canolbwyntio ymhlith ffermydd bach teuluol yn hytrach nag ymhlith busnesau fferm mawr, ond mae rhywfaint o amheuaeth am hyn. Canfu Lee-Woolf, *et al.* (2014) fod ymatebwyr a oedd yn cynrychioli daliadau 'bach iawn-amser hamdden' yn dueddol o anghytuno'n gryf bod siarad gyda ffermwyr eraill yn ffynhonnell bwysig ar gyfer gwybodaeth a chyngor, gan awgrymu diffyg rhwydweithio cymdeithasol. Ategir hyn gan adborth gan gyfranogwyr grwpiau ffocws a esboniodd nad oeddent wedi'u hintegreiddio cystal i rwydweithiau ffermio traddodiadol ag y gallent fod.
- Mae cadw ffermydd bach ar sail ran-amser, gyda'r priod a/neu'r prif ffermwr ynghyd â chyflawni swydd oddi ar y fferm, yn golygu nad oes ganddynt lawer o amser rhydd ar gyfer rhedeg sefydliadau yn y pentref. Mae'n bosibl y byddai gan ffermydd bychain sy'n ddewis bywyd preswyl yn bennaf ac yn cael eu cefnogi gan bensiynau neu incwm arall oddi ar y fferm fwy o gyfle i wneud gweithgareddau yn y gymuned, ac ni fydd ffyniant ffermio at y dyfodol yn effeithio llawer ar y gweithgareddau hynny.
- Mae rhyngweithio cymdeithasol ac integreiddio ffermwyr i rwydweithiau cymdeithasol yn ffactorau arwyddocaol ym mhenderfyniadau ffermwyr i sefydlu mentrau arallgyfeirio newydd.

Mae ein harolwg 2021 o ffermydd Bach Iawn a Bach wedi casglu data sy'n berthnasol i'r syniadau a gynhwysir yn y llenyddiaeth hon.


Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned ffermio, naill ai'n credu'n "gryf" (50%) neu'n "gymedrol" (40%). Roedd y teimlad yn gryfach ymhlith gweithredwyr ffermydd Bach nag ymhlith gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (59% o'i gymharu â 45% yn teimlo'n "gryf" a 35% o'i gymharu â 40% yn

teimlo'n "gymedrol" gan ychwanegu at 94% o'i gymharu â 88%, arwyddocaol). Mae'r teimlad hwn hefyd yn gryfach ymhlith siaradwyr Cymraeg (55% o'i gymharu â 44% a oedd yn teimlo'n "gryf"). Wrth drosi'r rhain i raddfa rifol, roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol yn ystadegol o ystyried eu hunain yn rhan o'r gymuned ffermio na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn.

Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo bod eu haelwyd yn rhan o'r gymuned wledig (95% yn "gryf" ac yn "gymedrol"). Er nad oes gwahaniaeth yn ôl band maint economaidd y fferm, roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn teimlo ychydig yn gryfach am hyn o gymharu â gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (62% o'i gymharu â 57%). Unwaith eto, roedd siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n gryfach am hyn (65% o'i gymharu â 52% yn teimlo'n "gryf").

Roedd mwyafrif yr aelwydydd fferm Bach a Bach Iawn yn cymryd rhan mewn sefydliadau cymdeithasol ac amaethyddol (86%). Roedd aelwydydd ffermydd Bach yn nodi cyfran uwch yn aelodau o "nifer" o sefydliadau o'r fath (38% o'i gymharu â 28%), gydag aelwydydd fferm Bach Iawn yn tueddu i nodi cymharol "ychydig" (58% o'i gymharu â 47%); er nad oedd yr arsylwad hwn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd siaradwyr Cymraeg yn nodi lefel uwch o ymgysylltiad (42% o'i gymharu â 20% "nifer").

Ffordd arall o asesu ymgysylltiad yn y gymuned ffermio leol yw ystyried pwysigrwydd siarad â ffermwyr eraill fel ffynhonnell wybodaeth a chyngor (Ffigwr 19). Roedd hanner yr ymatebwyr (50%) yn nodi bod hyn yn "bwysig iawn" gyda thraean arall (33%) yn nodi bod hyn "yn bwysig i raddau". Roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o ystyried hyn yn "bwysig iawn" na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (58% o'i gymharu â 45%, arwyddocaol). Mae'r canfyddiad hwn ychydig yn groes i ganfyddiad Lee-Woolf, *et al.* (2014) a ddyfynnwyd uchod. Roedd siaradwyr Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o ystyried hyn yn "bwysig iawn" (56% o'i gymharu â 43%).




Ffigwr 19: Pa mor bwysig yw siarad â ffermwyr eraill fel ffynhonnell wybodaeth a chyngor i chi yn bersonol? (n = 418)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Fel rhan o'n defnydd o gwestiynau o Fodel Segmentu Cymru, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod cydweithredu â ffermwyr eraill yn gwella sut yr oeddent yn rheoli eu ffermydd. Roedd bron i dri chwarter (72%) yn "cytuno'n gryf" neu'n "cytuno" ei fod yn gwneud hynny, gyda llai na 10% yn anghytuno.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

Roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn i "gytuno'n gryf", arwyddocaol. Roedd hyn yn unol â'r canfyddiad uchod bod gweithredwyr ffermydd Bach, ar gyfartaledd, yn fwy cysylltiedig â'r gymuned ffermio na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn. Roedd y rhai sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o deimlo'n gryf am hyn (21% o'i gymharu â 14% yn "cytuno'n gryf"). Roedd cryfder y teimlad hefyd yn lleihau gydag oedran, gyda 25% o ymatebwyr 40 ac iau yn dweud eu bod yn "cytuno'n gryf" o'i gymharu ag 16% o'r rhai dros 40 oed. Nid oedd lefel addysg yn dylanwadu'n sylweddol ar gryfder y teimladau am y mater hwn.

Roedd cwestiwn tebyg (hefyd yn rhan o Fodel Segmentu Cymru) yn gofyn i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno eu bod yn gwneud amser i gymdeithasu gyda ffermwyr eraill. Roedd mwy nag un rhan o bump (22%) yn "cytuno'n gryf" eu bod yn gwneud, tra bod 48% arall yn "cytuno" eu bod yn gwneud hynny. Unwaith eto, roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn i gytuno (75% o'i gymharu â 67% yn "cytuno'n gryf" ac yn "cytuno", yn arwyddocaol).

Mae dod â'r holl dystiolaeth hon ynghyd yn awgrymu bod ymgysylltiad o fewn y gymuned ffermio a'r gymuned ehangach yn uchel yn gyffredinol, ond bod gweithredwyr ffermydd Bach yn teimlo hyn yn fwy cryf, ac yn ymgysylltu mwy gyda'r gymuned leol na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn. Ar y cyfan, roedd y rhai a oedd yn siarad Cymraeg yn teimlo'n gryfach ynglŷn ag ymgysylltiad.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

# 8 Gwneud penderfyniadau a dysgu

## 8.1 Y broses benderfynu

Nododd ein hadolygiad o lenyddiaeth y pwysigrwydd yr oedd sawl ymchwilydd wedi'i gysylltu â thystiolaeth gynyddol ar y broses o wneud penderfyniadau mewn busnesau fferm teuluol. Yn benodol, mae Arsyllfa Wledig Cymru wedi cyhoeddi astudiaeth arbennig yn ymwneud â phenderfyniadau ffermwyr, gan ganolbwyntio ar eu defnydd o gynlluniau amaeth amgylchedd (WRU, 2011). Roedd tystiolaeth mewn sawl astudiaeth yn awgrymu bod cysyniad o gael un prif berson yn gwneud penderfyniadau, sy’n cael ei dybio’n gyffredin mewn astudiaethau empeiraidd mewn amaethyddiaeth, yn rhy syml, a bod aelodau eraill o’r teulu hefyd yn rhan o’r broses o wneud penderfyniadau (naill ai’n ffurfiol neu’n anffurfiol), yn enwedig ar ffermydd mawr. Fodd bynnag, canfu Lee-Woolf, et al., (2014), mewn astudiaeth yng Nghymru, er bod bron i dri chwarter yr ymatebwyr yn gwneud mwyafrif y penderfyniadau’n ymwneud â’u daliad ar y cyd ag eraill ar draws y sector gyfan, roedd ymatebwyr a oedd yn cynrychioli daliadau ‘bach iawn - amser hamdden’ yn tueddu i beidio â gofyn am wybodaeth a barn aelodau eraill o’r teulu.

Er mwyn taflu goleuni pellach ar y mater hwn, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr i'n harolwg o ffermydd Bach Iawn a Bach ynglŷn â sut yr oedd penderfyniadau’n cael eu gwneud ar eu daliad (Ffigwr 20). Mae'r rhain hefyd yn darparu ar gyfer ystod o fathau o benderfyniadau y gall y prosesau fod yn wahanol ar eu cyfer. Rydym ni wedi casglu’r penderfyniadau hyn ynghyd i greu tri phrif grŵp, gan fod ymatebion yn awgrymu bod tipyn yn gyffredin o ran sut mae penderfyniadau’n cael eu gwneud o fewn pob grŵp. Y grwpiau hyn yw: y rhai sy'n ymwneud â gweithrediad y fferm; y rhai sy'n ymwneud â buddsoddi mewn busnesau oddi ar y fferm; a’r rhai sy'n ymwneud â swyddi oddi ar y fferm. Y pwyntiau allweddol i'w nodi yw:


- Mae ***penderfyniadau sy'n ymwneud â gweithrediad y fferm*** yn cynnwys (i) penderfyniadau economaidd mawr sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r daliad yn cael ei redeg os yw amodau economaidd yn mynd yn anodd (e.e. rheoli costau, hwsmonaeth anifeiliaid, defnyddio cemegolion); (ii) penderfyniadau dirfodol sy'n effeithio ar allu'r daliad i fodoli os yw amodau economaidd yn mynd yn anodd (e.e. gwerthu neu brynu tir, arallgyfeirio, gwaredu llafur); a, (iii) penderfyniadau ynghylch mynediad i gynlluniau amaeth amgylchedd a'r opsiynau a ddewisir. Ym mhob achos, canfu ymatebwyr i'n harolwg 2021 o ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru mai'r prif berson sy’n gyfrifol am wneud penderfyniadau oedd yn gwneud y penderfyniadau hyn (33% i 38%), neu’r person hwnnw a’i briod/partner (31% i 34%); er gwaethaf gofyn i gael cyfweld â’r prif berson a oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau, mae’n ymddangos mai priod/partner y cyfwelai fyddai hwn ar adegau, felly mewn gwirionedd, mae un person unigol yn gwneud penderfyniadau’n digwydd yn amlach na gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda phriod neu bartner. Roedd aelodau eraill yr aelwyd yn cymryd llawer llai o ran.

- Mae’n ymddangos bod ***penderfyniadau’n ymwneud â buddsoddiadau mewn busnesau oddi ar y fferm*** yn cael eu gwneud ar y cyd ychydig yn amlach, ac ychydig yn llai aml gan y prif berson sy’n gwneud penderfyniadau’n unig, ond mae archwiliad mwy manwl yn dangos nad yw hyn yn wir mewn gwirionedd os mae’r penderfyniadau a wneir gan y priod/partner a’r unigolion eu hunain yn cael eu crynhoi gyda’i gilydd. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod yr unigolion sy'n gwneud y penderfyniadau hyn yn aelodau eraill o'r aelwyd, er enghraifft yn fab neu’n ferch sy'n cychwyn busnes contractio.

- Mae ***penderfyniadau’n ymwneud â chyflogaeth neu hunangyflogaeth oddi ar y fferm*** gan aelodau o’r aelwyd fel arfer yn cael eu gwneud gan y prif berson sy’n gwneud penderfyniadau (21%), ar y cyd gyda phriod/partner (32%) neu gan unigolyn arall (23%).

- Roedd y ***gwahaniaethau yn ôl band maint economaidd y fferm*** fel arfer yn fach, ond ceir patrwm clir yn yr ystyr bod penderfyniadau'n tueddu i gael eu gwneud yn fwy cyffredin ar y cyd â phriod/partner ar

ddaliadau Bach Iawn nag ar ddaliadau Bach; roedd hyn yn berthnasol ym mhob achos, ond roedd yn llai amlwg o ran penderfyniadau'n ymwneud â chyflogaeth oddi ar y fferm neu hunangyflogaeth. Roedd aelodau eraill o'r aelwyd hefyd ychydig yn fwy tebygol o fod yn rhan o benderfyniad yn ymwneud â gweithrediad y fferm ar ddaliadau Bach; gallai hyn fod yn swyddogaeth wrth raddfa gan fod cyfranogiad aelodau eraill o'r teulu fel arfer yn fwy arferol ar y daliadau cymharol fwy hyn.




Ffigwr 20: Pwy sy'n gwneud penderfyniadau? (n = 419)


Ffynhonnell: IHS Markit.

Y goblygiad yw, er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau ar faterion yn ymwneud â'r fferm neu fuddsoddiadau oddi ar y fferm, y dylai llunwyr polisi ganolbwyntio ar y ffermwr a'r priod, gan y gallai targedu'r cyntaf yn unig golli cyfle sylweddol. Fodd bynnag, ac nid yw'n syndod efallai, pan fydd penderfyniad ar gyflogaeth oddi ar y fferm neu hunangyflogaeth yn y cwestiwn, mae'r teulu'n pennu'r rhain yn ehangach, gan adlewyrchu mai'r priod neu aelod arall o'r teulu a fyddai'n gweithio oddi ar y fferm yn ymarferol.

## 8.2 Dysgu a sgiliau

Fel rhan o'n helfennau sy'n ymgorffori Model Segmentu Cymru, gofynnwyd cwestiynau yn ein harolwg yn 2021 o weithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru i ba raddau yr oedd ymatebwyr bob amser yn mynd ati i ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd y gellir eu defnyddio ar eu daliad. Roedd ychydig dros draean (35%) yr ymatebwyr yn "cytuno'n gryf" eu bod bob amser yn mynd ati i ddysgu sgiliau newydd ac roedd 49% yn "cytuno". Roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn ychydig yn fwy tebygol o "gytuno'n gryf", ond nid oedd yr arsylwad hwn yn ystadegol arwyddocaol.

Roedd ffermwyr iau yn fwy tebygol o gytuno eu bod bob amser yn mynd ati i ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd y gallant eu defnyddio ar eu daliad na ffermwyr hŷn (Ffigwr 21).




Ffigwr 21: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: - Rwyf bob amser yn mynd ati i ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd y gallaf eu defnyddio ar fy naliad? (n = 415)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd i ba raddau yr oedden nhw'n barod i dderbyn cyngor ynglŷn â rheoli'r amgylchedd ar eu daliad; unwaith eto, roedd y mwyafrif helaeth naill ai'n "cytuno'n gryf" (27%) neu'n "cytuno" (47%), gyda ffermwyr ar ffermydd Bach Iawn unwaith eto ychydig yn fwy tebygol o "gytuno'n gryf", arwyddocaol. Roedd yr un patrwm yn amlwg o ran oedran, er ei fod yn llai amlwg.

Roedd ymatebwyr yn agored i dechnoleg newydd gyda dwy ran o dair (66%) yn "cytuno'n gryf" neu'n "cytuno" eu bod yn awyddus i fabwysiadu a defnyddio technoleg newydd ar eu daliad wrth iddi ddod ar gael. Nid oedd gwahaniaeth yn hyn o beth yn ôl band maint economaidd fferm. Roedd y patrwm o ran oedran yn debyg i'r patrwm a ddangosir yn Ffigwr 21.

Gofynnwyd i ymatebwyr faint o ddiddordeb a oedd ganddynt mewn chwilio am wybodaeth a chyngor ynglŷn â ffermio ar y we. Er bod mwyafrif (63%) yr ymatebwyr yn dweud bod ganddynt ddiddordeb i ryw raddau, roedd yr ymateb hwn ychydig yn fwy cyffredin ymysg ffermwyr ar ffermydd Bach Iawn (65% o'i gymharu â 60%). Roedd tua 15% o ymatebwyr yn nodi nad oedd ganddynt ddiddordeb chwilio am wybodaeth na chyngor ar y we, canfyddiad a welwyd yn fwy cyffredin ymysg ffermwyr ar ffermydd Bach (19% o'i gymharu â 12%, ddim yn

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

arwyddocaol yn ystadegol). Yn ôl y disgwyl, roedd diddordeb mewn chwilio am wybodaeth ar y we yn lleihau gydag oedran.

I grynhoi, roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach yn nodi eu bod bob amser yn dysgu, ac yn hapus i dderbyn cyngor ynglŷn â rheoli'r amgylchedd naturiol, eu bod yn agored i ddefnyddio technoleg newydd ac yn dod o hyd i wybodaeth a chyngor ar y we. Fodd bynnag, roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn ychydig yn fwy tebygol o deimlo'n gryf am y materion hyn na ffermwyr ffermydd Bach. Roedd gan ffermwyr iau fwy o ddiddordeb mewn dysgu a derbyn cyngor na ffermwyr hŷn.


# 9 Rhesymau dros ffermio

Cyn archwilio rhesymau penodol dros ffermio, mae'n ddefnyddiol ystyried i ba raddau y mae ymatebwyr yn ystyried eu fferm fel busnes a phwysigrwydd canfyddedig yr amgylchedd.

## 9.1 Y fferm fel busnes

Daeth ein hadolygiad o lenyddiaeth ar ffermydd Bach Iawn a Bach i'r casgliad bod cymysgedd cymhleth o agweddau, bwriadau a realiti yn bodoli, yn enwedig yng ngwledydd cyfansoddol y DU, o ran ystyried y fferm fel busnes masnachol. Mae'n bosibl y byddai crewyr teipolegau ystyried unedau penodol yn anfasnachol yn yr ystyr nad ydyn nhw, neu na allan nhw byth oherwydd materion megis maint, allu cynhyrchu gwarged a allai ddarparu bywoliaeth ar gyfer yr aelwydydd sy'n gofalu amdanynt. Ar y llaw arall, roedd ffermwyr yn aml yn datgan eu bod yn anelu at redeg eu ffermydd mewn modd tebyg i fusnes, sy'n awgrymu ufuddhau i normau masnach trwy ystyried perthnasoedd ymylol ac anelu at warged dros gostau, hyd yn oed os mai anaml y cyflawnir hyn mewn gwirionedd. Mae astudiaethau yn y DU wedi canfod gwrthwynebiad amlwg ymhlith rhai ffermwyr i'r syniad eu bod yn ffermio fel 'hobi', er bod y label hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml mewn ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar ochr isaf y sbectrwm maint ffermydd ar gyfer amgylchiadau lle mai prif ffynhonnell eu bywoliaeth yw incwm oddi ar y fferm, a phan fo ffermydd i'w gweld yn bennaf fel lle preswyl sy'n darparu ffordd o fyw. Mynegir cymhlethdod y gymysgedd yn dda mewn astudiaeth ddiweddar o ffermydd anfasnachol yn yr Alban (Sutherland *et al*, 2019).

Yn ein harolwg yn 2021 o ffermwyr ar ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru, roedd bron i dri chwarter yr holl ymatebwyr yn ystyried eu ffermydd fel busnes yn bennaf (73%); mae hyn yn gyfwerth â 81% o gyfanswm yr Allbwn Safonol a gyfrannwyd gan ymatebwyr. Roedd hyn yn llawer mwy tebygol ymhlith ffermwyr ar ffermydd Bach na ffermwyr ar ffermydd Bach Iawn (83% o'i gymharu â 67%, arwyddocaol). Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod eu daliad yn fwy o fusnes na dewis ffordd o fyw, roedd oddeutu traean yn cytuno, traean yn anghytuno a thraean ddim yn cytuno nag yn anghytuno (Ffigwr 22). Unwaith eto, roedd ffermwyr ar ffermydd Bach yn fwy tebygol o gytuno bod eu fferm yn fwy o fusnes nag yn ddewis o ffordd o fyw.





Ffigwr 22: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: - Rwy'n ystyried bod fy [fferm/tyddyn/fferm hobi] yn fwy o fusnes na dewis ffordd o fyw? (n = 416)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Wrth ddod â'r ddau gwestiwn yma ynghyd i asesu cydlyniad, gellir gweld bod 44% o ymatebwyr sy'n ystyried eu ffermydd fel busnes yn bennaf hefyd yn cytuno ei fod yn fwy o fusnes nag yn ddewis ffordd o fyw.  Yn unol â hyn, roedd dwy ran o dair (67%) o'r ymatebwyr nad oeddent yn gweld eu fferm fel busnes yn anghytuno ei fod yn fwy o fusnes na dewis ffordd o fyw.  Fel y gwelir yn Ffigwr23, roedd isafrif sylweddol o ymatebwyr i'w gweld yn ystyried eu ffermydd fel busnes ac fel dewis ffordd o fyw, p'un a oeddent hefyd yn ystyried y fferm fel busnes yn bennaf ai peidio.

Roedd ffermwyr ar ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol na ffermwyr ar ffermydd Bach i anghytuno bod eu daliad yn fwy o fusnes na dewis ffordd o fyw, gan eu bod wedi nodi eu bod yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf na'r (22% o'i gymharu â 16%), er nad yw hyn yn ystadegol arwyddocaol.




Ffigwr23: Rwy'n ystyried fy fferm fel busnes yn bennaf yn erbyn o'i gymharu ag I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: - Rwy'n ystyried bod fy [fferm/tyddyn/fferm hobi] yn fwy o fusnes na dewis ffordd o fyw? (n = 415)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Mae un o gwestiynau Model Segmentu Cymru (a gafodd ei gynnwys gennym o fewn ein harolwg yn 2021) yn gofyn i ba raddau y mae ffermwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod sicrhau ansawdd bywyd da yn bwysicach iddyn nhw na sicrhau'r incwm uchaf posibl o'r daliad. Roedd mwy na thri chwarter (77%) naill ai'n "cytuno'n gryf" neu'n "cytuno" â'r datganiad hwn, a dim ond 3% oedd naill ai'n "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf". Mae hyn yn cadarnhau'r canfyddiad uchod, sef er bod y fferm yn cael ei ystyried yn fusnes, nid yw mwyafrif y ffermwyr o fewn y grŵp economaidd ffermydd Bach neu Fach Iawn i'w gweld yn blaenoriaethu incwm dros ansawdd bywyd. Roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o "gytuno'n gryf" na gweithredwyr ffermydd Bach (37% o'i gymharu â 29%, arwyddocaol).

Er bod y rhai sy'n ystyried eu ffermydd fel busnes yn bennaf yn llai tebygol o gytuno bod sicrhau ansawdd bywyd da'n bwysicach na sicrhau'r incwm gorau posibl o'r daliad (73% o'i gymharu â 88%), y prif beth i nodi yw bod bron i dri chwarter o'r ymatebwyr, hyd yn oed ymysg y grŵp hwn, yn credu bod ffordd o fyw'n bwysicach na sicrhau'r incwm gorau posibl.


Mae'r dadansoddiad hwn o gymhellion busnes a ffordd o fyw yn bwysig iawn oherwydd ei fod yn gosod llinell sylfaen ar gyfer deall cyd-destun atebion eraill yr ymatebwyr. Mae hyn yn unol â'r llenyddiaeth, sy'n awgrymu bod y cyfeiriadedd tuag at ddull tebyg i fusnes a'r bwriad i wneud gwarged, hyd yn oed os nad yw hyn yn cael ei gynyddu i'r eithaf neu hyd yn oed yn cael ei droi'n realiti. Nid oedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach yn barod i ddatgan eu bod yn ffermio fel hobi, hyd yn oed os byddai hynny'n asesiad mwy gwrthrychol. Fodd bynnag, ar ôl archwilio ymhellach, roeddent yn barod i gyfaddef bod dewis ffordd o fyw yn bwysig, ac yn bwysicach na sicrhau'r incwm gorau posibl o'r daliad, hyd yn oed pan fo'r fferm yn cael ei ystyried fel busnes yn bennaf.

## 9.2 Pwysigrwydd yr amgylchedd

Canfu ein hadolygiad o lenyddiaeth, er mai'r canfyddiad cyffredin yw bod deiliaid ffermydd bach yn fwy tueddol o ffermio mewn modd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, roedd tystiolaeth empeiraidd yn dangos patrwm mwy

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

cymhleth, gan adlewyrchu'r math o dirwedd ymysg pethau eraill.  Roedd mwy na thri chwarter yr ymatebwyr (79%) i'n harolwg yn 2021 o ddeiliaid ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru o'r farn bod croesawu cadwraeth amgylcheddol yn bwysig iawn ar gyfer dyfodol eu haelwyd ffermio, ac roedd hyn ychydig yn fwy gwir yn achos ffermydd Bach Iawn (80% o'i gymharu â 75%), er nad yw hyn yn ystadegol arwyddocaol (Ffigwr24).  Dim ond cyfran fach iawn a oedd yn ystyried nad yw cadwraeth amgylcheddol yn bwysig o gwbl, ychydig yn fwy felly ar ffermydd Bach.




Ffigwr24: Pa mor bwysig yn eich barn chi yw croesawu cadwraeth amgylcheddol i ddyfodol eich aelwyd ffermio? (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Roedd ein harolwg yn gofyn cwestiwn yn ymwneud â'r amgylchedd a dynnwyd o Fodel Segmentu Cymru; gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oedden nhw'n cytuno y dylai pob daliad anelu at fod mor gynaliadwy'n amgylcheddol â phosibl.  Roedd dwy ran o bump (40%) o'n hymatebwyr yn "cytuno'n gryf" a 48% yn "cytuno"; dim ond 2% oedd yn "anghytuno".  Roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn teimlo ychydig yn gryfach ynglŷn â'r mater hwn na gweithredwyr ffermydd Bach.

## 9.3 Teipoleg y rhesymau dros ffermio

Roedd ein hadolygiad llenyddiaeth yn egluro bod Gasson (1973) yn nodi pedwar math o bethau sy'n cymell ffermwyr, gyda gwerthoedd a nodau cysylltiedig.  Roedd gan ffermwyr unigol wahanol gyfuniadau o'r teimladau hyn.  Datblygodd awduron diweddarach y deipoleg hon ac fe wnaethom ni fireinio ychydig cyn gofyn cyfres o gwestiynau i ymatebwyr ynglŷn â'u rhesymau dros ffermio (a allai fod yn wahanol i'r rhai a arweiniodd atyn nhw'n dod i mewn i'r diwydiant, yn aml iawn flynyddoedd yn ôl, ac yn aml heb fod yn ddewis mewn gwirionedd, megis cael eich geni i deulu ffermio).  Roedd y cwestiynau a ofynnwyd (gweler isod) yn caniatáu inni ddeall pwysigrwydd absoliwt a chymharol y grwpiau gwahanol o ffactorau cymhelliant, ond a oedd weithiau'n gorgyffwrdd ac yn cyd-atgyfnerthu:

- ***Cyfryngol*** - gwneud incwm boddhaol; diogelu'r incwm ar gyfer y dyfodol; ehangu'r busnes; darparu amodau gwaith braf.


- ***Cymdeithasol*** - ennill cydnabyddiaeth a bri; bod yn rhan o’r gymuned ffermio; parhau â'r traddodiad teuluol; gweithio gydag aelodau eraill o'r teulu; cynnal perthnasoedd da gyda gweithwyr.
- ***Mynegiannol*** - teimlo balchder o fod yn berchen ar rywbeth; hunan-barch am wneud gwaith gwerth chweil; ymarfer galluoedd a thueddfrydau arbennig; cyfle i fod yn greadigol ac yn wreiddiol; cwrdd â her, cyflawni nod, datblygu cymeriad personol.
- ***Cynhenid*** - mwynhad o gyflawni tasgau gwaith; hoffter o fywyd iachus yn ffermio yn yr awyr agored; gweithgaredd pwrpasol, gwerth gwaith caled; annibyniaeth - rhyddid rhag goruchwyliaeth ac i drefnu amser; rheolaeth mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae ein hadolygiadau llenyddiaeth yn esbonio bod Gasson (1973), gan ddefnyddio sampl o ffermydd yn Lloegr a oedd yn cynnwys ffermydd o bob maint, wedi canfod, ar y cyfan, mai'r cymhellion cynhenid a mynegiannol oedd y mwyaf cyffredin - mwynhau’r broses o ffermio a’r annibyniaeth gysylltiedig, a’r heriau mae’n ei gyflwyno. Roedd cymhellion cyfryngol a chymdeithasol yn llai pwysig. Yn berthnasol yn y cyd-destun presennol, roedd ffermwyr ar raddfa fach yn rhoi pwyslais arbennig ar agweddau cynhenid, megis yr annibyniaeth yr oeddent yn ei mwynhau, tra bod ffermwyr mwy, er eu bod yn dal i fod â chymhelliant cynhenid yn y bôn, yn rhoi pwys cymharol fwy ar agweddau masnachol ffermio. Fodd bynnag, nid oedd y patrwm yn syml. Cafodd rhai gwerthoedd cymdeithasol eu graddio'n uwch gan ffermwyr bach, fel gweithio'n agos at y cartref a'r teulu. Roedd yn ymddangos bod gan ffermwyr bach uwchlaw lefelau incwm penodol ddiddordeb mewn sicrhau boddhad yn hytrach nag incwm ariannol, er y gallai fod elfen o gylcholdeb yn y meddyliau hyn; mae’n bosibl y gallai graddau isel ar gyfer incwm uchel gan ffermwyr bach fod yn adlewyrchiad o’r anallu i gynhyrchu llawer o incwm o amaethyddiaeth oherwydd cyfyngiadau maint, gan arwain at lefelau mor anghymesur.

<u>**Ffactorau cynhenid mewn ffermio**</u>

Dadansoddir ffactorau cynhenid yn ôl cwestiwn penodol yn Ffigwr 25. Y pwynt cyntaf i'w nodi yw bod yr holl ffactorau cymhelliant hyn yn sgorio'n uchel o'u cymharu â'r rhai yn y grwpiau cymdeithasol, mynegiannol a chyfryngol. Y rheswm cynhenid mwyaf cyffredin a nodwyd fel rheswm dros benderfynu ffermio oedd dewis bywyd iachus yn yr awyr agored, a nodwyd yn ffactor “pwysig iawn” gan fwy na thri chwarter (77%) o’r ymatebwyr. Roedd y rhai a oedd yn ffermio ffermydd Bach Iawn ychydig yn fwy tebygol o nodi bod y ffactor hwn yn “bwysig iawn” na’r rhai a oedd yn ffermio ffermydd Bach (78% o’i gymharu â 74%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd mwynhad o weithio ar dasgau ffermio’n cael ei nodi’n ffactor cymhelliant “pwysig iawn” gan 72% o’r ymatebwyr, heb unrhyw wahaniaeth o ran band maint economaidd y ffermydd. Roedd annibyniaeth a gallu rheoli’r sefyllfa’n cael ei nodi’n ffactor cymhelliant “pwysig iawn” gan ddwy ran o dair (66%) o’r ymatebwyr, gyda’r rhai a oedd yn ffermio ffermydd Bach yn fwy tebygol o ystyried y ffactor hwn yn “bwysig iawn” na’r rhai a oedd yn ffermio ffermydd Bach (70% o’i gymharu â 64%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Yn olaf, roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn nodi bod y mwynhad a ddaw wrth gadw neu wella’r amgylchedd yn ffactor cymhelliant “pwysig iawn”; nodwyd hynny ychydig yn amlach gan weithredwyr ffermydd Bach Iawn (58% o’i gymharu â 50%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Er nad oedd yr un o’r ffactorau cymhelliant cynhenid yn cael eu hystyried yn ddibwys, mae’n amlwg bod gweithredwyr ffermydd Bach ddwywaith yn fwy tebygol na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn o ystyried bod mwynhau tasgau ffermio yn “ddibwys”, er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.





Ffigwr 25: Pwysigrwydd ffactorau cynhenid yn y rheswm i ffermio (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ynglŷn â phwysigrwydd y gwahanol ffactorau cymhelliant cynhenid a nodwyd gan ymatebwyr eu trosi'n sgôr rifol gan y tîm ymchwil ("pwysig iawn" = 5, "dibwys" = 1). Mae hyn yn cadarnhau trefn y ffactorau hyn o ran pwysigrwydd cymharol. Nid oedd yr un o'r gwahaniaethau yn ôl band maint economaidd fferm yn ystadegol arwyddocaol.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 





Ffigwr 26: Sgorio ffactorau cynhenid penodol yn y rhesymau dros ffermio (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

## Ffactorau cymdeithasol mewn ffermio


Mae ffactorau cymdeithasol yn cael eu rhannu yn ôl cwestiwn penodol yn Ffigwr27. Roedd dwy ran o bump (42%) o'r ymatebwyr yn dweud ei bod hi'n "bwysig iawn" bod yn rhan o gymuned ffermio; roedd hyn yn llawer pwysicach i weithredwyr ffermydd Bach o'i gymharu â gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (50% o'i gymharu â 38%, arwyddocaol). Nid oedd gwahaniaeth mawr rhwng y grwpiau o safbwynt bod yn rhan o'r gymuned wledig ehangach; roedd 41% o'r ymatebwyr yn nodi bod hyn yn "bwysig iawn". Mae'n ymddangos bod hyn yn awgrymu, er bod y ddau grŵp yn ystyried eu hunain yn rhan o'r gymuned wledig, roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o ystyried eu hunain yn rhan o'r gymuned ffermio, neu o leiaf i ystyried ei bod hi'n bwysig eu bod yn rhan o'r gymuned hon. Er bod 38% o ymatebwyr yn dweud ei bod yn "bwysig iawn" parhau â thraddodiad teuluol, roedd hyn yn bwysicach o lawer i weithredwyr ffermydd Bach na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (48% o'i gymharu â 32%, arwyddocaol). Roedd y gwahaniaeth yma rhwng y grwpiau hefyd yn amlwg o ran pwysigrwydd gweithio gydag aelodau eraill o'r teulu; roedd hyn yn ffactor cymhelliant "pwysig iawn" i draean (33%) o'r holl ymatebwyr, ond i 39% o weithredwyr ffermydd Bach o'i gymharu â 29% o weithredwyr ffermydd Bach Iawn (arwyddocaol). Dim ond 17% o'r ymatebwyr a ddywedodd ei fod yn "bwysig iawn" i ennill cydnabyddiaeth a bri fel ffermwr (22% o weithredwyr ffermydd Bach o'i gymharu â 14% o weithredwyr ffermydd Bach Iawn, ddim yn ystadegol arwyddocaol). Roedd y mwyafrif (64%, n = 70) a nododd fod ennill cydnabyddiaeth a bri fel ffermwr yn "bwysig iawn" hefyd yn nodi ei bod hi'n bwysig iawn bod yn rhan o'r gymuned ffermio. Roedd hyn yn llawer mwy tebygol o fod yn wir ar gyfer gweithredwyr ffermydd Bach nag ar gyfer gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (76%, n = 33 o'i gymharu â 54%, n = 37, arwyddocaol). Fel y gellid disgwyl, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (57%, n = 154) a oedd yn credu ei bod hi'n "bwysig iawn" i barhau gyda thraddodiad teuluol yn nodi ei bod hi'n "bwysig iawn" i weithio gydag aelodau eraill o'r teulu, waeth beth fo maint economaidd y fferm.




Ffigwr27: Pwysigrwydd ffactorau cymdeithasol yn y rheswm i ffermio (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Wrth drosi'r rhain yn sgôr rifol, roedd perthyn i'r gymuned wledig ehangach i'w weld yn bwysicach na pherthyn i'r gymuned ffermio, lle'r oedd barn wedi'i bolareiddio ymhellach (Ffigwr 28). Mae'n ystadegol arwyddocaol bod gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael eu cymell trwy fod yn perthyn i gymuned ffermio na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn. Mae hefyd yn ystadegol arwyddocaol bod gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn i ddweud eu bod yn cael eu cymell gan yr awydd i barhau â thraddodiad teuluol ac i weithio gydag aelodau eraill o'r teulu.





Ffigwr 28: Sgorio ffactorau cymdeithasol penodol yn y rhesymau dros ffermio (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

## Ffactorau mynegiannol mewn ffermio

Mae ffactorau mynegiadol yn cael eu rhannu yn ôl cwestiwn penodol yn Ffigwr 29. Y cymhelliant mynegiannol y cyfeirir ato fwyaf aml fel ffactor "pwysig iawn" yw teimlo balchder wrth reoli'r amgylchedd (46%); dim ond un ymatebwr a nododd fod hyn yn "ddibwys". Yn gyffredinol, roedd y ffactorau cymhelliant mynegiannol eraill yn cael eu crybwyll yn llai aml fel rhai "pwysig iawn", ond yn nodweddiadol roeddent yn cael eu crybwyll yn amlach fel rhai "pwysig iawn" neu'n "gymharol bwysig" gan weithredwyr ffermydd Bach yn hytrach na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn. Mae'n arbennig o nodedig bod gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn o ddweud bod ennill hunan-barch am wneud gwaith da yn "bwysig iawn" (42% o'i gymharu â 32%, arwyddocaol); mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn cael ei amlygu os bydd "pwysig iawn" a "chymharol bwysig" yn cael eu hystyried gyda'i gilydd (83% o'i gymharu â 67%).







Ffigwr 29: Pwysigrwydd ffactorau mynegiadol yn y rheswm i ffermio (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Yr unig wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ddau grŵp wrth eu trosi i sgôr rhifol oedd bod gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o gael eu cymell trwy ennill hunan-barch am wneud gwaith da (Ffigwr 30).

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.




Ffigwr 30: Sgorio ffactorau mynegiadol penodol yn y rhesymau dros ffermio (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.


## Ffactorau cyfryngol mewn ffermio


Mae ffactorau cyfryngol yn cael eu rhannu yn ôl cwestiwn penodol yn Ffigwr 31. Er bod ffermio fel ffordd o gynhyrchu incwm ar gyfer bywoliaeth yn cael ei nodi'n "bwysig iawn" gan amlaf ar draws y sampl gyfan, ceir gwahaniaeth mawr rhwng y ddau grŵp maint economaidd. Roedd hanner y gweithredwyr ffermydd Bach (49%) yn nodi bod cynhyrchu incwm yn gymhelliant "pwysig iawn" o'i gymharu â 35% o weithredwyr ffermydd Bach Iawn (arwyddocaol). Gan ddod ag ymatebion "pwysig iawn" a "chymharol bwysig" at ei gilydd, rydym ni'n cael ffigyrau o 78% a 56% ar gyfer gweithredwyr ffermydd Bach a Bach Iawn yn y drefn honno.


Roedd gweithredwyr ffermydd Bach hefyd yn fwy tebygol na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn i ddweud bod ffermio fel modd o adeiladu busnes yn "bwysig iawn" (42% o'i gymharu â 27%, arwyddocaol) a bod ffermio fel ffordd o sicrhau cyfoeth ac asedau ar gyfer y dyfodol yn "bwysig iawn" (37% o'i gymharu â 24%, arwyddocaol).


Mewn cyferbyniad, roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o nodi bod ffermio fel ffordd o ddarparu cartref ac amodau byw deniadol yn ffactor cymhelliant "pwysig iawn" (39% o'i gymharu â 35%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol.


Yn olaf, dim ond 8% o ymatebwyr a ddywedodd bod lleihau eu baich treth yn ffactor cymhelliant "pwysig iawn". Dyma'r ymateb cadarnhaol lleiaf o bell ffordd ar gyfer unrhyw un o'r ffactorau cymhelliant posibl, er wrth gwrs nid yw'n atal ffermwyr rhag elwa o drefniadau treth ffafriol. Mae hefyd yn bosibl y gallai ymatebwyr fod wedi bod yn amharod i ddyfynnu hyn fel ffactor cymhelliant oherwydd gogwydd dymunoldeb cymdeithasol.



Fel ffordd o sicrhau incwm fel bywoliaeth
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Pwysig iawn
Cymharol bwysig
Pwysig iawn
Ychydig yn bwysig
Dibwys


Fel ffordd o ddarparu cartref ac amodau byw deniadol
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Pwysig iawn
Cymharol bwysig
Pwysig iawn
Ychydig yn bwysig
Dibwys


Fel ffordd o ddarparu amodau gwaith deniadol
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Pwysig iawn
Cymharol bwysig
Pwysig iawn
Ychydig yn bwysig
Dibwys


Fel ffordd o adeiladu busnes
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Pwysig iawn
Cymharol bwysig
Pwysig iawn
Ychydig yn bwysig
Dibwys


Fel ffordd o sicrhau cyfoeth ac asedau ar gyfer y dyfodol
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Pwysig iawn
Cymharol bwysig
Pwysig iawn
Ychydig yn bwysig
Dibwys





Ffigwr 31: Pwysigrwydd ffactorau cyfryngol yn y rheswm i ffermio (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Mae Ffigwr 32 yn dangos y ffactorau cyfryngol wedi'u trosi'n sgôr rhifol. Ar y mesur hwn, mae darparu amodau gwaith, cartref ac amodau byw deniadol yn cael eu hystyried yn ffactorau cymhelliant pwysicach na chynhyrchu incwm. Ynghyd â Ffigwr 31, mae hyn yn amlygu'r polareiddio o fewn ymatebion yn ymwneud â chynhyrchu incwm; er ei fod yn bwysig iawn i rai, roedd yn cael ei ystyried yn "ddibwys" gan ddigon o bobl i leihau ei sgôr yn gyffredinol; nid oedd llawer o ymatebwyr yn ystyried amodau byw a gweithio'n ffactorau "dibwys". Fodd bynnag, gwelwyd gwahaniaeth amlwg yn ôl grŵp maint economaidd, gyda gweithredwyr ffermydd Bach yn ystadegol yn llawer mwy tebygol na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn i ystyried bod cynhyrchu incwm, adeiladu busnes a sicrhau cyfoeth ac asedau ar gyfer y dyfodol i fod yn ffactorau cymhelliant pwysig. Mae'n bosibl iawn fod hyn yn adlewyrchu mwy o dueddiad ymysg y grŵp yma i ystyried y fferm fel menter aml-genhedlaeth.

Er y gellid meddwl y byddai gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol fod yn chwilio am gartref ac amodau byw deniadol, o ystyried bod disgwyl iddynt brynu tir yn amlach nag etifeddu daliad teuluol, nid oes unrhyw wahaniaeth ystadegol mewn gwirionedd rhwng y grwpiau o ran y ffactor cymhelliant hwn. Mewn gwirionedd, roedd gweithredwyr ffermydd Bach a oedd wedi prynu tir yn gosod mwy o bwysigrwydd ar gartref ac amodau byw na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn a oedd wedi prynu tir.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.




Ffigwr 32: Sgorio ffactorau cyfryngol penodol yn y rhesymau dros ffermio (n = 419)


Ffynhonnell: IHS Markit.

## Trosolwg o'r prif ffactorau cymhelliant

Yn dilyn yr ymatebion uchod i'r cwestiwn unigol sy'n berthnasol i bob un o'r cymhellion a nodir uchod, gellir casglu'r rhain at ei gilydd i greu trosolwg o'r prif grwpiau o gymhellion ar gyfer ffermio. Mae hyn yn ffordd ddefnyddiol o gymharu â gwaith cynharach. Mae canlyniadau ein harolwg o ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru'n unol â'r rhai a nodir yn Gasson o ran dominyddiaeth cymhelliant cynhenid, ond drwy edrych ar y rhan hon o sbectrwm maint ffermydd yn unig, nid oes modd i ni lunio cymhariaeth gyda chymhellion a nodir gan weithredwyr ffermydd mwy.

Yn y lle cyntaf, rydym ni'n edrych ar faint o bwys a roddir i gwestiynau unigol gan ymatebwyr ac yn cyfartalu eu hatebion ar draws pob cwestiwn yn y grŵp. Mae Ffigwr 33 yn dangos bod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i'n harolwg yn 2021 yn nodi ffactorau ***cynhenid*** fel y rhesymau pwysicaf dros ffermio, gyda 67% ar gyfartaledd yn nodi bod y rhesymau hyn yn "bwysig iawn". Y grŵp nesaf o resymau a nodwyd fwyaf cyffredin oedd rhesymau ***cymdeithasol***, gyda 34% o ymatebwyr yn nodi bod y rhain yn rhan "bwysig iawn" o'r rheswm pam eu bod yn ffermio. Roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o nodi'r math hwn o ffactor na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (40% o'i gymharu â 31%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd tua 30% o ymatebwyr yn honni bod ffactorau ***mynegiannol*** yn "bwysig iawn" iddyn nhw; roedd hyn ychydig yn fwy tebygol ar gyfer gweithredwyr ffermydd Bach nag i weithredwyr ffermydd Bach Iawn (33% o'i gymharu â 28%, arwyddocaol). Wrth ystyried "pwysig iawn" a "chymharol bwysig" gyda'i gilydd, byddai ffactorau mynegiannol fel grŵp yn bwysicach na ffactorau cymdeithasol. Mae hyn yn awgrymu bod y ddau grŵp yn bwysig, ond bod teimladau cryfach ynglŷn â ffactorau cymdeithasol i rai. Yn olaf, roedd 30% o'r ymatebwyr yn nodi rhesymau cyfryngol dros ffermio; eto, roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o nodi'r ffactorau hyn na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (34% o'i gymharu â 28%, arwyddocaol). Rhesymau cyfryngol yw'r rhai sydd wedi'u polareiddio fwyaf, gyda'r cyfrannau uchaf o ymatebwyr yn nodi bod y rhain yn ddibwys (10%); roedd 8% o ymatebwyr yn teimlo bod rhesymau cymdeithasol yn ddibwys. Mewn cyferbyniad, dim ond 2% o ymatebwyr oedd yn honni bod ffactorau cynhenid a mynegiannol yn ddibwys.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 




Ffigwr 33: Grŵp o gymhellion dros ddewis ffermio (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Mewn ail gam, cafodd y wybodaeth a gasglwyd ar bwysigrwydd y gwahanol ffactorau a ddefnyddiwyd i grwpio rhesymau dros ddewis ffermio ei throsi'n sgôr rhifol ar gyfer pob ymatebwr ("pwysig iawn" = 5, "dibwys" = 1); ein rhagdybiaeth yw bod pob disgrifiad ansoddol yn gytbell yn rhifiadol. Mae hyn yn ein galluogi i roi sgorau cyfartalog yn eu trefn fel y gwelir yn Ffigwr 33, sy'n cadarnhau mai rhesymau cynhenid a oedd yn cael eu hystyried bwysicaf, ond rhesymau mynegiannol yn hytrach na chymdeithasol oedd yr ail grŵp pwysicaf o ganlyniad i'r gyfran uchel o ymatebwyr a oedd yn ystyried y rhain yn "gymharol bwysig" a'r gyfran gymharol uchel o ymatebwyr sy'n nodi bod y rhain yn "ddibwys". Canfuwyd bod yr holl arsylwadau yn ystadegol arwyddocaol ar wahân i'r newidyn cyfansawdd cymdeithasol, lle'r oedd ansicrwydd yn y data ar ei gyfer.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.




Ffigwr 34: Safle pwysigrwydd y rhesymau dros ddewis ffermio

Ffynhonnell: IHS Markit.

Mae Tabl 1 yn gosod pob ffactor cymhelliant mewn trefn yn ôl ei sgôr rhifol (“pwysig iawn” = 5, “dibwys” = 1) yn ôl grŵp maint economaidd y fferm. Ceir cod lliw ar gyfer pob ffactor cymhelliant, fel y gwelir isod: Cymhellion cynhenid; Cymhellion mynegiannol; Cymhellion cymdeithasol; a, Chymhellion cyfryngol.

Yn drydydd, fel datblygiad o’r fethodoleg, dangosir mynegai gwyriad o’r sampl gyfan ar gyfer pob ffactor cymhelliant i nodi a yw’r sgôr yn ôl maint economaidd y fferm yn uwch neu’n is na’r sgôr ar gyfer y sampl gyfan (a osodir ar 1,000). Dangosir y mynegai hwn hefyd yn Nhabl 1. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cymharu yn ôl trefn gymharol, h.y. y gwahaniaeth rhwng y ffactorau cymhelliant ***o fewn*** grŵp maint economaidd y fferm, a chymhariaeth ***rhwng*** grŵp maint economaidd y fferm o fewn pob ffactor cymhelliant. Yn y modd hwn, mae Tabl 1 yn dwyn ynghyd y dadansoddiad uchod, ond hefyd yn ychwanegu haen ychwanegol o fewnwelediad.

Y pwynt cyffredinol cyntaf i'w nodi yw bod y tabl hwn yn tynnu sylw at y ffaith nad oes fawr o wahaniaeth yn y sgôr rhwng gweithredwyr ffermydd Bach Iawn a gweithredwyr ffermydd Bach. Yr ail bwynt cyffredinol yw bod gweithredwyr ffermydd Bach yn gyffredinol yn rhoi sgôr uwch ar gyfer ffactorau cymhelliant penodol; y sgôr cyfartalog ar gyfer pob ffactor cymhelliant yw 3.90 ar gyfer ffermydd Bach Iawn, 4.04 ar gyfer ffermydd Bach, a 3.95 ar gyfer y ddau grŵp gyda’i gilydd. Mae hyn yn golygu bod angen bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau rhwng grwpiau a ffactorau cymhelliant penodol ar yr un pryd.

Mae’n amlwg mai’r grŵp o ffactorau cymhelliant cynhenid oedd bwysicaf ar gyfer ffermydd Bach Iawn a Bach, ac mae gwahaniaeth amlwg rhwng pwysigrwydd y grŵp yma o ffactorau a’r tri grŵp arall. O edrych arnynt gyda’i gilydd, mae ffactorau cymhelliant mynegiannol a chymdeithasol yn bwysicach na ffactorau cyfryngol, sy’n cyfrannu pedwar o’r chwe ffactor isaf ar gyfer y sampl gyfan. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau’n dechrau dod i’r amlwg rhwng gweithredwyr ffermydd Bach Iawn a gweithredwyr ffermydd Bach. Er enghraifft, roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o gael eu cymell gan fwynhad o reoli’r amgylchedd yn hytrach na balchder ynddo; roedd y ffactorau cymhelliant hyn yn cael eu gwrthdroi ar gyfer gweithredwyr ffermydd Bach. Mae hyn yn awgrymu ychydig mwy o bwyslais ar ganfyddiad allanol ar ran gweithredwyr ffermydd Bach.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 

Mae'n ymddangos bod gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn gwahaniaethu rhwng ffactorau cymhelliant cyfryngol penodol yn fwy na gweithredwyr ffermydd Bach gydag amodau gweithio deniadol a chartref ac amodau byw deniadol yn bwysicach na ffactorau cyfryngol eraill ar gyfer y grŵp hwn.

Er bod ffactorau cymhelliant yn ymwneud â pherthyn yn cael eu sgorio'n debyg gan weithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach, roedd yr ymdeimlad o deulu'n gryfach ymysg gweithredwyr ffermydd Bach a oedd yn teimlo'n gryfach bod parhau â thraddodiad teuluol a gweithio gydag aelodau eraill o'r teulu'n yn bwysig o'i gymharu â gweithredwyr ffermydd Bach Iawn.

Roedd ffactorau cymhelliant cyfryngol yn dueddol o fod yn bwysicach i weithredwyr ffermydd Bach o'i gymharu â ffermydd Bach Iawn; roedd hyn yn arbennig o wir o ran cynhyrchu incwm, adeiladu busnes a sicrhau cyfoeth ac asedau ar gyfer y dyfodol.  Mae'n bosibl bod hyn yn cyd-fynd â'r pwyslais cryfach ar barhau â'r traddodiad teuluol ar draws y cenedlaethau.

Roedd ffermwyr yn y ddau grŵp yn ystyried ennill cydnabyddiaeth a bri fel ffermwr a lleihau'r baich treth fel y ffactorau cymhelliant lleiaf pwysig.

Yn olaf, yr unig achosion lle'r oedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn sgorio ffactorau cymhelliant unigol yn uwch na gweithredwyr ffermydd Bach oedd (yn nhrefn y gwahaniaeth o'r sampl yn ei chyfanrwydd): (i) mwynhad o weithgareddau sy'n gwarchod neu'n gwella'r amgylchedd (ii) ffafriaeth dros fyw bywyd iachus yn yr awyr agored; a (iii) mwynhad o waith ffermio.  Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd penodol y ffactorau cymhelliant hyn fel gwahaniaeth rhwng gweithredwyr ffermydd o fewn y ddau fand maint economaidd hyn.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

Tabl 1: Cymhariaeth o gymhellion dros ddewis ffermio yn ôl maint economaidd y fferm (n=419)

| **Ffermydd Bach Iawn (mynegai gwyriad o gyfanswm y sampl = 1,000)** | | **Ffermydd Bach (mynegai gwyriad o gyfanswm y sampl = 1,000)** | |
|---|---|---|---|
| Dewis am fywyd iach yn yr awyr agored | 1008 | Dewis am fywyd iach yn yr awyr agored | 986 |
| Mwynhau tasgau gwaith fferm (e.e. magu defaid) | 1002 | Mwynhau tasgau gwaith fferm (e.e. magu defaid) | 996 |
| Annibyniaeth a bod â rheolaeth ar y sefyllfa. | 995 | Annibyniaeth a bod â rheolaeth ar y sefyllfa. | 1009 |
| Mwynhad o weithgareddau sy'n gwarchod neu'n gwella'r amgylchedd | 1012 | Teimlo balchder wrth reoli'r amgylchedd | 1017 |
| Teimlo balchder wrth reoli'r amgylchedd | 990 | Mwynhad o weithgareddau sy'n gwarchod neu'n gwella'r amgylchedd | 979 |
| Perthyn i'r gymuned wledig ehangach | 997 | Ennill hunan-barch am wneud swydd werth chweil | 1046 |
| Perthyn i'r gymuned ffermio | 980 | Perthyn i'r gymuned ffermio | 1034 |
| Fel ffordd o ddarparu amodau gwaith deniadol | 992 | I barhau â thraddodiad teuluol | 1052 |
| Fel ffordd o ddarparu tai deniadol ac amodau byw | 998 | Perthyn i'r gymuned wledig ehangach | 1006 |
| Cwblhau her, cyflawni amcan, twf personol a chymeriad | 991 | Fel ffordd i gynhyrchu incwm ar gyfer byw | 1084 |
| Ennill hunan-barch am wneud swydd werth chweil | 973 | Gweithio gydag aelodau eraill o'r teulu | 1040 |
| I barhau â thraddodiad teuluol | 965 | Fel ffordd o ddarparu amodau gwaith deniadol | 1014 |
| Gweithio gydag aelodau eraill o'r teulu | 976 | Cwblhau her, cyflawni amcan, twf personol a chymeriad | 1015 |
| Cyfle i fod yn greadigol a gwreiddiol | 992 | Fel ffordd o adeiladu busnes | 1070 |
| Fel ffordd o adeiladu busnes | 960 | Fel ffordd o ddarparu tai deniadol ac amodau byw | 1004 |
| Fel ffordd i gynhyrchu incwm ar gyfer byw | 952 | Cyfle i fod yn greadigol a gwreiddiol | 1014 |
| Mynegi galluoedd a thueddfrydau personol arbennig | 994 | Fel ffordd o sicrhau cyfoeth ac asedau ar gyfer y dyfodol | 1068 |
| Fel ffordd o sicrhau cyfoeth ac asedau ar gyfer y dyfodol | 960 | Mynegi galluoedd a thueddfrydau personol arbennig | 1011 |
| Ennill cydnabyddiaeth a bri fel ffermwr | 992 | Ennill cydnabyddiaeth a bri fel ffermwr | 1012 |
| Fel ffordd o leihau fy maich treth | 987 | Fel ffordd o leihau fy maich treth | 1023 |

Ffynhonnell: IHS Markit.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

## 10 Ymatebion i'r DU yn gadael yr UE

Roedd angen i'r astudiaeth hon o ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru asesu effaith cymhelliant a phenderfyniadau unigol ar fwriadau ar gyfer gweithredu o ystyried y sefyllfaoedd posibl ar gyfer masnach a'r newidiadau arfaethedig i fecanweithiau cymorth fferm. Bu ein hadolygiad o lenyddiaeth yn edrych ar oddeutu 40 astudiaeth, gyda nifer o'r rhain yn defnyddio gwahanol sefyllfaoedd, ac roedd nifer ohonynt yn benodol i Gymru. Roedd y cyfnod rhwng canlyniad y Refferendwm yn 2016 a'r DU yn gadael yr UE hyd at ddechrau 2021, pan ddechreuodd trefniadau masnach newydd rhwng y DU a'r UE gael eu gweithredu, yn ogystal â pholisi amaethyddol cenedlaethol a ddisodlodd y PAC yng Nghymru, yn gyfnod ansicr iawn ar gyfer gweithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach. Casglodd ein harolwg, a gynhaliwyd ar ddechrau 2021 (ar ôl diwedd y cyfnod pontio ymadael a thua dechrau'r trefniadau masnachu newydd a'r polisi amaethyddol domestig newydd) wybodaeth ynglŷn â disgwyliadau incwm, ac effaith newidiadau arfaethedig yn yr amgylchiadau economaidd a rheoliadol yn ystod y cyfnod ansicr hwn (hynny yw, penderfyniadau a oedd eisoes wedi cael eu gwneud) a'r newidiadau a fwriedir nawr bod darlun mwy clir (er nad yw wedi'i ddiffinio'n llawn) yn dod i'r amlwg (penderfyniadau arfaethedig, gydag ystod o debygolrwyddau'n bosibl). Nodwyd gwahaniaeth rhwng yr effaith ar y fferm a ffermio ar un llaw, ac ar y llaw arall, yr effaith ar aelwyd y ffermwr. Gellir disgwyl i'r newidiadau hyn adlewyrchu cymhellion y rhaid sy'n cadw ffermydd sy'n dod o fewn y dosbarthiadau hyn o ran maint economaidd.

Er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae ein gwybodaeth ynglŷn â chymhelliant yn berthnasol i ymatebion gan ffermwyr i'r DU yn gadael yr UE, cynhaliwyd dau fath ychwanegol o ddadansoddiad.

(a) Dosbarthu'r gweithredwyr fferm yn ôl eu prif ffactorau cymhelliant

Cafodd ymatebwyr eu grwpio yn ôl eu prif ffactorau cymhelliant. Cafodd ymatebwyr eu dyrannu i'r grŵp lle'r oedd eu sgorau unigol ar eu uchaf o'u cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y sampl gyfan. Arweiniodd hyn at y dadansoddiad canlynol: cynhenid (n = 89), cyfryngol (n = 130), cymdeithasol (n = 121) a mynegiannol (n = 79). Mewn llawer o achosion ni ddatgelodd y broses ddadgyfuno wahaniaethau yn yr atebion i gwestiynau penodol yn ymwneud â newidiadau sy'n gysylltiedig â'r DU yn gadael yr UE. Fodd bynnag, lle canfuwyd gwahaniaethau rhwng grwpiau wedi'u dadgyfuno, gwnaed sylwadau ar y rhain.

Mae'n ddiddorol nodi mai oedran cyfartalog yr ymatebwyr a oedd wedi categoreiddio'n "gyfryngol" oedd 52.9, ac roedd y rhai a gafodd eu categoreiddio'n "gynhenid" yn 57.6 mlwydd oed ar gyfartaledd (roedd y rhai a gafodd eu categoreiddio'n "fynegiadol" a "chymdeithasol" yn 55.7 a 55.4 ar gyfartaledd yn y drefn honno). Mae hyn yn cyd-fynd â'r disgwyliad y byddai ffermwyr iau'n debygol o gael eu cymell yn fwy gan ennill incwm ac adeiladu busnes, a bo'r ffermwyr hŷn yn dueddol o gael eu cymell yn fwy gan fwynhau'r tasgau.

(b) Dosbarthiad gweithredwyr ffermydd yn ôl dwyster y ffactorau cymhelliant

Roedd proses ddaduno arall yn canolbwyntio ar p'un ai oedd unigolion yn gyffredinol yn fwy tebygol neu'n llai tebygol o roi sgôr uchel ar gyfer y ffactorau cymhelliant (wedi'u grwpio gyda'i gilydd). Cafodd un grŵp ("selogion", n=87) ei ddiffinio wrth iddynt roi sgôr uwch na'r cyfartaledd ym mhob un o'r pedwar ffactor cymhelliant gyda'i gilydd, a grŵp arall ("pesimistiaid") wrth iddynt roi sgôr is na'r cyfartaledd yn y grwpiau hyn. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn y naill grŵp na'r llall ("dim un", n = 268). Cafwyd rhywfaint o berthynas gyda maint economaidd y fferm, gyda chyfran uwch o'r "pesimistiaid" yn gweithredu ffermydd Bach Iawn o'i gymharu â'r sampl gyfan (69% o'i gymharu â 63%) a chyfran is o ymatebwyr yn "selogion" (59% o'i gymharu â 63%) yn unol â sgoriau cymhelliant is y grŵp yma yn gyffredinol (gweler uchod). Unwaith eto, nid oedd y broses ddadgyfuno bob amser yn datgelu gwahaniaeth yn yr atebion i gwestiynau penodol, ond sonnir amdanynt lle bo'r rhain yn cynnig gwybodaeth bellach.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

## 10.1 Cymryd rhan mewn trafodaethau am fecanweithiau cymorth fferm ar ôl gadael yr UE

Fel rhagarweiniad i gwestiynau ar gamau gweithredu gwirioneddol neu a ragwelwyd, gofynnwyd i ymatebwyr yn y lle cyntaf a oeddent yn teimlo eu bod wedi ymgysylltu'n ddigonol mewn trafodaethau ynglŷn â mecanweithiau cymorth fferm yn y dyfodol ar ôl i'r DU adael yr UE. Dim ond chwarter oedd yn teimlo eu bod wedi ymgysylltu'n ddigonol (25%), gyda 57% yn teimlo nad oeddent wedi gwneud hynny; roedd 18% yn ansicr. Roedd gweithredwyr ffermydd Bach ychydig yn fwy pendant o ran eu barn naill ffordd neu'r llall (arwyddocaol).


Roedd ffurf y cwestiwn yn awgrymu goddefgarwch ar ran yr ymatebwr, h.y. bod ymgysylltiad yn rhywbeth sy'n digwydd i rywun. Gofynnwyd i ymatebwyr a fyddent yn hapus i ni gysylltu gyda nhw eto ymhen chwe mis i weld a oedd eu barn wedi newid; roedd ychydig o dan ddwy ran o dair (62.5%) yn fodlon. Mae hyn yn dangos rhywfaint o barodrwydd i ymgysylltu'n weithredol, sy'n ymddangos ychydig yn uwch na'r hyn a awgrymir uchod.

## 10.2 Effaith ddisgwyliedig gadael yr UE ar incwm o weithgareddau amaethyddol

Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (57%) yn teimlo y byddai incwm sy'n deillio o gyfuniad o weithgareddau amaethyddol, taliadau sylfaenol a Glastir yn lleihau o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE, ac roedd hyn yn farn fwy cyffredin ymysg gweithredwyr ffermydd Bach (68% o'i gymau â 51%). Cynhaliwyd yr arolwg ar ôl i'r trefniadau masnachu a chydweithio newydd rhwng y DU a'r UE gael eu cyhoeddi, ac er nad oedd manylion y polisi amaethyddol cenedlaethol ar gyfer Cymru wedi cael eu nodi'n glir, roedd hi'n amlwg y byddai symudiad oddi wrth daliadau uniongyrchol tuag at daliadau ar gyfer nwyddau cyhoeddus. Mae hyn yn debygol o esbonio pam yr oedd gweithredwyr ffermydd Bach, sy'n fwy tebygol o dderbyn taliadau sylfaenol BPS na ffermydd Bach Iawn ac i ystyried y taliadau hyn yn ffynhonnell incwm hanfodol, yn fwy tebygol o ddisgwyl gweld lleihad yn eu hincwm o amaethyddiaeth. Dim ond 9% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo y byddai eu hincwm o'r ffynonellau hyn yn cynyddu.

Roedd y rhai a oedd yn cael eu cymell yn bennaf gan ffactorau cyfryngol yn fwy tebygol o ddisgwyl gweld lleihad yn eu hincwm (65%), ac roedd y grŵp cynhenid yn fwy tebygol o ddisgwyl i'w hincwm aros yn ddigon tebyg (40% o'i gymharu â 34%), yr un gyfran â gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn unol â'r disgwyl o ystyried y gorgyffwrdd sylweddol rhwng y grwpiau hyn. Roedd "selogion" yn fwy tebygol o ddisgwyl i'w hincwm gynyddu (12%).

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 




Ffigwr 35: Sut ydych chi'n meddwl y bydd y DU yn gadael yr UE yn effeithio ar gyfanswm eich incwm o weithgareddau amaethyddol, taliadau sylfaenol a Glastir? (n=416)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Roedd ffermwyr defaid ar ffermydd Bach Iawn a Bach yn fwy tebygol o ddisgwyl i incwm amaethyddol leihau o ganlyniad i adael yr UE (65% o'i gymharu â 57%), ac nid oedd ffermwyr bîff yn disgwyl unrhyw wahaniaeth; roedd gan weithredwyr ffermydd bîff a defaid ddisgwyliadau rhwng yr ymatebion hyn, gan awgrymu bod disgwyl y bydd incwm amaethyddol yn y sector defaid yn benodol yn lleihau.

Roedd gwahaniaeth amlwg yn yr ymatebion i'r cwestiwn yma gan ddibynnu a yw'r ymatebwr yn ystyried y fferm fel busnes yn bennaf. Roedd tua 65% o'r grŵp hwn yn disgwyl i'r incwm amaethyddol leihau o'i gymharu â 35% yn unig o'r rhai nad ydynt yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf.

Roedd ymatebwyr nad oeddent yn credu bod cadwraeth amgylcheddol yn bwysig iawn o gwbl i ddyfodol eu haelwydydd ffermio yn fwy tebygol o ddisgwyl gweld lleihad yn yr incwm o amaethyddiaeth (38% o'i gymharu â 57%), a allai adlewyrchu'r disgwyliad na fyddent yn cael mynediad at gynlluniau amaeth amgylcheddol. Fodd bynnag, y grŵp yma oedd y mwyaf tebygol o ddisgwyl gweld cynnydd yn eu hincwm o amaethyddiaeth (13% o'i gymharu â 9%).

## 10.3 Newidiadau ar y daliad o ganlyniad i adael yr UE

**Newidiadau a wnaed eisoes**

Roedd llai na thraean (31%) o'r ymatebwyr eisoes wedi gwneud newidiadau ar eu daliad o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE; roedd rhywfaint yn fwy o ffermydd Bach eisoes wedi gwneud newidiadau o'i gymharu â ffermydd Bach Iawn (31% o'i gymharu â 27%, arwyddocaol).

Roedd y rhai a oedd yn cael eu cymell yn bennaf gan ffactorau cymdeithasol yn fwy tebygol o fod eisoes wedi gwneud newidiadau ar eu daliad na'r rhai a oedd yn cael eu cymell gan ffactorau mynegiannol (42% o'i gymharu â 20%), ffactorau cynhenid (25%) a ffactorau cyfryngol (32%). Roedd "selogion" yn fwy tebygol o fod eisoes wedi gwneud newidiadau na "phesimistiaid" (34% o'i gymharu â 19%). Fodd bynnag, nid oedd yr arsylwadau

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 

hyn yn ystadegol arwyddocaol.  Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ôl math o fferm na p'un a oedd y fferm yn cael ei ystyried fel busnes yn bennaf.

Mewn achosion lle'r oedd newidiadau eisoes wedi cael eu gwneud, roedd 40% o'r ymatebwyr wedi ymuno â chynllun amaeth amgylcheddol megis Glastir (Ffigwr36).  Roedd newidiadau eraill yn cael eu gwneud yn llawer llai aml.  Roedd ychydig o dan un rhan o bump (18%) wedi ehangu gweithgareddau arallgyfeirio presennol ar y fferm, ac roedd 11% wedi dechrau gweithgareddau arallgyfeirio newydd.  Roedd ymdrechion i leihau costau wedi cael eu gwneud yn amlach nag ymdrechion i gynyddu cynhyrchiant.  Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion "eraill" yn cynnwys lleihau niferoedd da byw.


Roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol na gweithredwyr ffermydd Bach i fod wedi ymuno â chynllun amaeth amgylcheddol (43% o'i gymharu â 36%, ddim yn ystadegol arwyddocaol) neu o fod wedi newid cyfuniad y mentrau (11% o'i gymharu â 5%); roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o fod wedi lleihau faint o dir yr oedden nhw'n ei ffermio (12% o'i gymharu â 3%).

Roedd y rhai a oedd yn cael eu cymell yn bennaf gan ffactorau mynegiannol neu gymdeithasol yn fwy tebygol o fod wedi ymuno â chynllun amaeth amgylchedd (56% a 55%) na'r rhai a oedd yn cael eu cymell gan ffactorau cyfryngol neu gynhenid (36% a 32%).  Yr ymatebwyr o'r grŵp cynhenid oedd y lleiaf tebygol o fod wedi ehangu ar fenter arallgyfeirio presennol ar y fferm (9% o'i gymharu â 18% ar gyfer y sampl yn ei chyfanrwydd).  Roedd "selogion" yn fwy tebygol o fod wedi ymuno â chynllun amaeth-amgylchedd na "phesimistiaid" (47% o'i gymharu â 33%) ac yn fwy tebygol o fod wedi ehangu'r gweithgareddau arallgyfeirio presennol ar y fferm (17% o'i gymharu â 8%).

Roedd ffermwyr bîff a defaid yn fwy tebygol o fod wedi ymuno â chynllun amaeth amgylchedd na ffermwyr bîff neu ddefaid yn unig (54% o'i gymharu â 47% a 35%).  Roeddent hefyd yn fwy tebygol na ffermwyr bîff neu ffermwyr defaid yn unig o fod wedi ehangu'r gweithgareddau arallgyfeirio presennol ar y fferm (24% o'i gymharu â 20% a 13%).  Roedd y rhai nad ydynt yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf yn llawer mwy tebygol na'r rhai sydd yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf wedi ymuno â chynllun amaeth amgylchedd (62% o'i gymharu â 32%).

Dim ond 16% o'r newidiadau a wnaed a oedd wedi cael eu heffeithio gan COVID-19.  Er enghraifft, roedd gweithgareddau arallgyfeirio newydd i gynnig llety ar y fferm wedi cael eu heffeithio gan y cyfyngiadau clo; dros dro mewn rhai achosion, ac yn barhaol mewn achosion eraill.  Roedd un o effeithiau allweddol eraill COVID-19 yn ymwneud â thrafferthion wrth werthu da byw.  Nododd un ymatebwr nad oedd wedi gallu cael cyngor ar y fferm mewn perthynas ag ymuno â Glastir.

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.




Ffigwr36: A ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau ar eich daliad eisoes o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE? (dy rhai a oedd wedi gwneud newid yn unig, n = 131)

Ffynhonnell: IHS Markit.

**Newidiadau disgwyliedig yn y dyfodol**

Roedd mwy o ymatebwyr o'r farn y byddent yn gwneud newidiadau o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE yn y pum mlynedd nesaf nag a oedd wedi gwneud newidiadau eisoes, gyda'r mwyafrif yn disgwyl gwneud newidiadau. Roedd bron i hanner (45%) yn credu bod hyn yn "hynod debygol" a 12% yn "eithaf tebygol". Roedd ychydig llai na thraean (31%) heb benderfynu'r naill ffordd neu'r llall, gan adael 7% o'r farn ei bod yn "annhebygol iawn" y byddent yn gwneud newidiadau a 6% yn credu y byddai'n "eithaf annhebygol". Ychydig iawn o wahaniaeth a welwyd yn ôl maint band economaidd, ond roedd gweithredwyr ffermydd Bach ychydig yn fwy tebygol o beidio â chael barn gref un ffordd neu'r llall ar hyn o bryd (ddim yn ystadegol arwyddocaol).


Mae Ffigwr37 yn dangos y mathau o newid sy'n cael eu hystyried gan ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn "hynod" neu'n "eithaf tebygol" o wneud newidiadau. Cyflwynir y rhain yn nhrefn amlder neu debygolrwydd, o'r uchaf i'r isaf.


Y prif beth yw'r nodi yw mai dechrau'r rhaglen ddarparu nwyddau cyhoeddus newydd yw'r unig newid yr oedd y mwyafrif (64%) o'r rhai a oedd yn disgwyl gwneud newidiadau'n nodi y byddant yn eu gwneud. Roedd graddau sicrwydd yr oedd ymatebwyr yn ei ddangos o ran y disgwyliad hwn hefyd yn llawer uwch nag mewn perthynas ag unrhyw newid arall. Mae hwn yn ganfyddiad rhagweladwy o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi amlygu'n gwbl glir y bydd cymorth amaethyddol yn symud tuag at ddarparu nwyddau cyhoeddus nawr bod y DU wedi gadael yr UE. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiad a adroddwyd mewn man arall bod 79% o ymatebwyr yn ystyried bod croesawu cadwraeth amgylcheddol yn hynod o bwysig neu'n bwysig iawn i ddyfodol eu haelwydydd ffermio (er mai dim ond 39% o ymatebwyr a nododd bod croesawu cadwraeth amgylcheddol yn hynod o bwysig neu'n bwysig iawn A'U bod yn debygol iawn neu'n eithaf tebygol o ddechrau'r rhaglen ddarparu nwyddau cyhoeddus newydd). Roedd gweithredwyr ffermydd Bach o'r farn ei bod yn fwy sicr y byddant yn dechrau'r rhaglen ddarparu nwyddau cyhoeddus newydd (30% o'i gymharu â 20%).


Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.


Yr unig newid arall y disgwylir iddo gael ei wneud gan fwy na thraean yr ymatebwyr (37%) a ddywedodd y byddent yn gwneud newidiadau oedd datblygu gweithgareddau arallgyfeirio newydd ar y fferm.  Roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn ei ystyried yn llawer mwy tebygol y byddant yn datblygu gweithgareddau arallgyfeirio newydd ar y fferm na gweithredwyr ffermydd Bach.


O’r newidiadau disgwyliedig eraill, roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o leihau’r defnydd o fewnbynnau a brynir i mewn megis bwyd anifeiliaid neu wrtaith na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (27% o’i gymharu â 21%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol.   Roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn fwy sicr ynglŷn â’u annhebygolrwydd i newid y cyfuniad o fentrau, ond gallai hyn adlewyrchu llai o gyfle neu lai o gapasiti i weithredu; roedd gweithredwyr ffermydd Bach i’w gweld yn fwy agored i ystyried y posibilrwydd o newid y cyfuniad o fentrau.  Roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o ehangu eu hallbwn o weithrediadau amaethyddol presennol na gweithredwyr ffermydd Bach (20% o’i gymharu â 14%), efallai oherwydd eu bod yn gweithredu'n llai dwys ar hyn o bryd ac felly'n gwybod bod hyn yn bosibl.  Ar y llaw arall, roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o gynyddu faint o dir yr oedden nhw’n ei ffermio na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (15% o’i gymharu â 11%).   Mae'n ymddangos bod y rhai a oedd yn ffermio ffermydd Bach yn fwy tebygol o ystyried y posibilrwydd o leihau faint o lafur a brynir i mewn, lle nad oedd ffermydd Bach Iawn am wneud hynny, o bosibl gan nad oes unrhyw lafur ychwanegol i’w golli (gweler y rhaniad rhwng “hynod o annhebygol” a “chymharol annhebygol”).  Roedd gweithredwyr ffermydd Bach hefyd yn fwy tebygol o leihau faint o dir yr oedden nhw’n ei ffermio trwy werthu neu osod tir (15% o’i gymharu â 6%); mae hyn yn debygol o fod yn ymwneud â deiliadaeth gyda ffermydd Bach yn fwy tebygol o fod yn rhentu tir sy’n haws i’w waredu ac yn llai parhaol na gwerthu’r tir (gweler adran 5.4).  Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r gwahaniaethau hyn yn ôl band maint economaidd fferm yn ystadegol arwyddocaol wrth eu trosi i raddfa rifol.





Cynyddu arallgyfeirio presennol ar y fferm (e.e. twristiaeth, gosod eiddo)
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Tebygol iawn
Cymharol debygol
Ddim yn debygol nag yn annhebygol
Cymharol annhebygol
Annhebygol iawn


Lleihau'r defnydd o fewnbynnau amrywiol a brynir i mewn (megis bwyd anifeiliaid neu wrtaith)
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Tebygol iawn
Cymharol debygol
Ddim yn debygol nag yn annhebygol
Cymharol annhebygol
Annhebygol iawn


Newid fy math o ffermio (newid mentrau neu'r cydbwysedd rhyngddynt)
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Tebygol iawn
Cymharol debygol
Ddim yn debygol nag yn annhebygol
Cymharol annhebygol
Annhebygol iawn


Lleihau costau sefydlog eraill (e.e. peiriannau)
Cyfanswm
Bach Iawn
Bach
0%
10%
20%
30%
40%
50%
60%
70%
80%
90%
100%
Tebygol iawn
Cymharol debygol
Ddim yn debygol nag yn annhebygol
Cymharol annhebygol
Annhebygol iawn



Ffigwr37: Ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n gwneud unrhyw newidiadau ar eich daliad o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE yn y pum mlynedd nesaf? (n = 226)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Mae dadansoddiad o'r rhai hynny a oedd yn "hynod o debygol" ac yn "eithaf tebygol" o wneud newid yn ystod y pum mlynedd nesaf yn ôl y grŵp o ffactorau cymhelliant cynradd yn broblemus oherwydd niferoedd bach, ond

mae'n awgrymu bod y rhai a oedd yn cael eu cymell gan ffactorau mynegiannol yn bennaf yn fwy tebygol ("hynod o debygol" a "chymharol debygol", 18%) o ddweud y byddant yn ymuno â chynllun amaeth amgylchedd nag unrhyw un o'r grwpiau eraill ("cynhenid" 14%, "cymdeithasol" 13%, "cyfryngol" 11%). Fodd bynnag, roedd y grŵp hwn hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn "annhebygol iawn" o ymuno â chynllun amaeth amgylchedd gan ddangos polareiddio o ran ymatebion; nid yw hyn oherwydd bod y grŵp hwn eisoes mewn cynllun amaeth amgylchedd. Mae'r un polareiddio'n amlwg yn y grŵp mynegiannol o ran y bwriad i ehangu'r gweithgareddau arallgyfeirio presennol ar y fferm. Roedd y grŵp cyfryngol yn fwy tebygol ("tebygol iawn" a "chymharol debygol", 16%) o ddweud y byddant yn dechrau gweithgareddau arallgyfeirio ar y fferm na grwpiau eraill (mynegiadol 9%, cynhenid a chymdeithasol 0%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol.

Roedd "selogion" yn fwy tebygol na "phesimistiaid" o ymuno â chynllun amaeth amgylchedd (53% "tebygol iawn" a "chymharol debygol" o'i gymharu â 42%); roeddent hefyd yn fwy tebygol o ddweud y byddant yn dechrau gweithgareddau arallgyfeirio newydd ar y fferm (29% o'i gymharu â 20%).

Roedd y rhai nad ydynt yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf yn fwy tebygol o ddisgwyl ymuno â chynllun amaeth amgylchedd na'r rhai sy'n ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf ("tebygol iawn" a "chymharol debygol", 24% o'i gymharu â 6%).

## 10.4 Newidiadau yn yr aelwyd o ganlyniad i adael yr UE

**Newidiadau a wnaed eisoes yn yr aelwyd**

Y prif ganfyddiad oedd mai 11% yn unig o'r ymatebwyr a nododd eu bod eisoes wedi gwneud newidiadau yn eu haelwydydd o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE; gofynnwyd i ymatebwyr yn benodol i BEIDIO â chynnwys unrhyw newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19. Roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn o nodi eu bod eisoes wedi gwneud newidiadau (15% o'i gymharu â 8%, arwyddocaol), felly hefyd y rhai a ysgogwyd yn bennaf gan ffactorau cyfryngol a chymdeithasol (15% a 14%) o'i gymharu â'r rhai a ysgogwyd gan ffactorau mynegiannol a chynhenid (5% a 4%). Roedd "selogion" yn fwy tebygol na "phesimistiaid" o fod wedi gwneud newidiadau eisoes (18% o'i gymharu â 3%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol.

Roedd gweithredwyr ffermydd bîff a defaid yn fwy tebygol o fod wedi gwneud newidiadau yn yr aelwyd eisoes o'i gymharu â naill ai ffermwyr defaid neu ffermwyr cig eidion (24% o'i gymharu â 9% a 5%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd y rhai a oedd yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf yn llai tebygol na'r rhai nad ydynt yn ystyried y fferm fel busnes i fod wedi gwneud newidiadau i'r aelwyd (8% o'i gymharu â19%).

O'r rhai a oedd yn dweud eu bod wedi gwneud newidiadau, roedd 31% golygu y byddai'r ffermwr yn derbyn neu'n ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm, 45% yn golygu y byddai'r priod yn derbyn neu'n ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm, a 29% yn golygu y byddai aelod arall o'r aelwyd yn derbyn neu'n ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm; roedd oddeutu traean o'r achosion yn golygu rhyw fath o gyfuniad o aelodau o'r aelwyd ffermio'n derbyn cyflogaeth oddi ar y fferm. Mewn 27% o achosion, roedd naill ai'r ffermwr, ei briod neu aelod arall o'r aelwyd wedi derbyn neu ehangu cyflogaeth neu hunangyflogaeth oddi ar y fferm mewn busnes yr oedden nhw'n berchen arno'n gyfan gwbl neu'n rhannol. Cafwyd achosion hefyd lle bu cyfuniad o aelodau'r aelwyd yn derbyn cyflogaeth a hunangyflogaeth oddi ar y fferm. Yr unig wahaniaeth sylweddol yn ôl band maint economaidd fferm oedd bod aelodau o aelwydydd ffermydd Bach ychydig yn fwy tebygol nag aelodau o aelwydydd ffermydd Bach Iawn o fod wedi derbyn gwaith hunangyflogedig neu wedi ymwneud mwy gyda hunangyflogaeth oddi ar y fferm (ddim yn ystadegol arwyddocaol).

Roedd nifer yr ymatebwyr a oedd eisoes wedi gwneud newidiadau i'w haelwydydd yn rhy fach i ganiatáu dadansoddiad yn ôl grŵp o ffactorau ysgogol ag unrhyw hyder. Er hynny, mae'n bosibl cymharu "selogion" yn

erbyn y sampl yn ei chyfanrwydd (ond nid yn erbyn “pesimistiaid” yn benodol). Mae hyn yn dangos bod “selogion” yn llai tebygol na'r sampl gyfan o fod wedi derbyn neu ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm (19% o’i gymharu â 31%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol; maent hefyd yn llai tebygol na'r sampl gyfan o adrodd bod aelod arall o'r aelwyd (heblaw eu hunain neu eu priod) wedi derbyn neu ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm (25% o’i gymharu â 29%, nid oedd gwahaniaeth yn nifer yr achosion o briod yn cymryd gwaith oddi ar y fferm). Fodd bynnag, roedd “selogion” ychydig yn fwy tebygol na'r sampl gyfan i adrodd bod rhywun ar yr aelwyd wedi derbyn neu ehangu hunangyflogaeth oddi ar y fferm mewn busnes y mae ganddo fuddiant ariannol ynddo (31% o’i gymharu â 27%).

Nid oedd yn bosibl gwneud dadansoddiad llawn yn ôl math o fferm, ond roedd ffermwyr defaid yn fwy tebygol na'r sampl gyfan i adrodd bod yr ymatebwr wedi derbyn neu ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm (46%o’i gymharu â 31%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol; roeddent yn llai tebygol na'r sampl gyfan o adrodd bod rhywun ar yr aelwyd wedi derbyn neu ehangu hunangyflogaeth oddi ar y fferm mewn busnes y mae ganddo fuddiant ariannol ynddo (15% o’i gymharu â 27%). Gall gwahaniaethau daearyddol (megis pellter oddi wrth gyfleoedd cyflogaeth neu hunangyflogaeth) chwarae rhan wrth esbonio’r gwahaniaethau hyn.

Roedd ymatebwyr nad ydynt yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf yn fwy tebygol na’r rhai sy’n ystyried eu fferm fel busnes i nodi bod eu priod wedi derbyn neu ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm (52% o’i gymharu â33%); roedd y grŵp hwn hefyd yn fwy tebygol o nodi bod aelod arall o’r aelwyd wedi derbyn neu ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm (33% o’i gymharu â 25%). Mewn cyferbyniad, roedd y rhai sy'n ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf yn fwy tebygol o ddweud bod aelod o'r aelwyd wedi derbyn ehangu hunangyflogaeth oddi ar y fferm (33% o’i gymharu â 19%).


**<u>Newidiadau disgwyliedig yn yr aelwyd yn y dyfodol</u>**


Gan edrych tua’r dyfodol a bwriadau, gofynnwyd i ymatebwyr ystyried pa mor debygol oedd hi y byddai newidiadau’n digwydd ar eu haelwydydd dros y pum mlynedd nesaf o ganlyniad i’r DU yn gadael yr UE. Noder nad oes modd cymharu’r cwestiwn hwn yn uniongyrchol gyda’r cwestiwn ynglŷn â newidiadau ar ddaliadau lle gofynnwyd i ymatebwyr a fyddent yn dewis gwneud dim, a oedd yn caniatáu ffocws ar y rhai lle bwriadwyd cyflwyno newid yn unig. Fel cyd-destun, roedd disgwyliad o newidiadau i'r aelwyd yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE yn sylweddol is na'r disgwyliad o newidiadau i'r daliad.


Mae Ffigwr38 yn dangos y math o newidiadau posibl, a gyflwynir o ran amlder o’r mwyaf tebygol i’r lleiaf tebygol. Y newid disgwyliedig mwyaf tebygol a nodir yw y bydd aelod o’r teulu’n cymryd yr awenau ar y daliad (10% “tebygol iawn” a “chymharol debygol”). Roedd hyn yn cael ei ystyried ychydig yn fwy tebygol ar ffermydd Bach Iawn nag ar ffermydd Bach (13% o’i gymharu â 7%), er nad yw hyn yn ystadegol arwyddocaol. Fodd bynnag, mae yna resymau i drin y canfyddiad hwn yn ofalus. Er bod y cwestiwn wedi gofyn yn benodol i ymatebwyr am y newidiadau disgwyliedig o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE, mae'n bosibl bod y cyswllt achosol hwn wedi'i anwybyddu neu ei israddio, felly roedd yr hyn a adroddwyd yn cynnwys yr hyn a oedd yn debygol o ddigwydd beth bynnag, wedi'i yrru gan brosesau arferol o drosglwyddo drwy’r cenedlaethau ac olyniaeth. Ar ben hynny, mae'n anodd gweld rhesymeg glir rhwng ymadawiad y DU a newid yn y gyfradd feddiannu gan aelodau'r teulu. Gan droi at y newidiadau disgwyliedig eraill, nododd wyth y cant o'r ymatebwyr ddisgwyliad y byddai'r ffermwr yn derbyn neu'n ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm. Roedd yr un gyfran yn disgwyl i'r priod neu aelod arall o'r teulu gymryd cyflogaeth oddi ar y fferm; roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o ddisgwyl i aelod arall o'r aelwyd gymryd neu ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (11% o’i gymharu â 6%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd tua 7% o'r ymatebwyr yn disgwyl naill ai i'r ffermwr, priod neu aelod arall o'r cartref dderbyn neu ehangu hunangyflogaeth oddi ar y fferm mewn busnes y maent yn berchen arno yn gyfan gwbl neu'n rhannol; roedd hwn yn ymateb mwy cyffredin gan weithredwyr ffermydd Bach (10% o’i gymharu â 5%). Yn olaf, dim ond 5% o'r


ymatebwyr a oedd yn disgwyl i'r aelwyd adael y diwydiant ffermio o fewn pum mlynedd o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE; nid oedd unrhyw weithredwyr ffermydd Bach yn credu bod y canlyniad hwn yn “debygol iawn”.

Mae’n bosibl nad oedd y rhai a oedd wedi ateb “ddim yn debygol nac yn annhebygol” wedi ystyried y cwestiwn am newidiadau posibl yr un mor ddwys â’r rhai a atebodd mewn ffordd wahanol.





Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 




Ffigwr38: Ydych chi'n meddwl y bydd unrhyw newidiadau yn eich aelwyd o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE dros y pum mlynedd nesaf? (n = 419)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Roedd y rhai a oedd yn cael eu cymell gan ffactorau cymdeithasol a chyfryngol yn fwy tebygol o ddweud eu bod nhw'n disgwyl i'w priod chwilio am waith oddi ar y fferm neu ehangu ar waith oddi ar y fferm dros y pum mlynedd nesaf o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE na'r rhai a oedd yn cael eu cymell yn bennaf gan ffactorau cynhenid a mynegiannol (12% a 9% "yn debygol iawn" a "chymharol debygol" o'i gymharu â 3% a 1%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd y rhai a oedd yn cael eu cymell yn bennaf gan ffactorau cyfryngol yn fwyaf tebygol o adrodd y byddai aelod arall o'r aelwyd yn chwilio am waith neu'n ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm (12% o'i gymharu â 7% cymdeithasol, 6% mynegiannol a 2% cynhenid). Roedd y grŵp cynhenid yn fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn gadael ffermio (10% o'i gymharu â 6% cyfryngol, 4% mynegiannol a 2% cymdeithasol). (Roedd tua 15% o'r grŵp cyfryngol yn dweud y byddai aelod o'r teulu yn cymryd yr awenau ar y daliad o'i gymharu â 10% yn y grŵp cynhenid, 8% yn y grŵp mynegiannol a 7% yn y grŵp cymdeithasol.)

Roedd "selogion" yn fwy tebygol na "phesimistiaid" o ddweud y byddai eu priod neu aelod arall o'r aelwyd yn derbyn neu'n ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm (13% yn "debygol iawn" a "chymharol debygol" o'i gymharu â 3% a 7% o'i gymharu â 2% yn y drefn honno); roedd y grŵp hwn hefyd ychydig yn fwy tebygol o ddweud y byddai aelod o'r aelwyd yn derbyn neu'n ehangu hunangyflogaeth oddi ar y fferm mewn busnes y mae budd ariannol ynddo (9% o'i gymharu â 6%). Roedd "pesimistiaid" yn fwy tebygol o ddweud y byddai'r aelwyd yn gadael y diwydiant ffermio (6% o'i gymharu â 1%). Yn olaf, roedd "selogion" yn llawer mwy tebygol na "phesimistiaid" o ddisgwyl i aelod o'r teulu gymryd yr awenau (21% o'i gymharu â 6%).

Roedd gweithredwyr ffermydd bîff a defaid a defaid yn unig yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn derbyn neu'n ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm na ffermwyr bîff (13% a 12% yn "debygol iawn" a "chymharol debygol" o'i gymharu â 4%), er nad oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd gweithredwyr ffermydd bîff a defaid yn fwy tebygol na ffermydd defaid neu bîff yn unig o ddweud y byddai eu priod yn derbyn neu'n ehangu cyflogaeth oddi

ar y fferm (17% o'i gymharu â 7% a 5%); roeddent hefyd yn fwy tebygol o ddweud y byddai aelodau eraill o'r cartref yn derbyn neu'n ehangu cyflogaeth oddi ar y fferm na ffermwyr bîff neu ddefaid (14% o'i gymharu â 7% a 6%). Roedd ffermwyr bîff a ffermwyr defaid yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn gadael ffermio na ffermwyr bîff a defaid (9% a 7% yn "debygol iawn" a "chymharol debygol" o'i gymharu â 3%). Yn olaf, ffermwyr defaid oedd fwyaf tebygol o ddweud y byddai aelod o'r cartref yn cymryd yr awenau ar y daliad (14%) na naill ai ffermwyr bîff a defaid (12%) neu ffermwyr bîff yn unig (7%).

Roedd y gwahaniaethau o ran a yw'r fferm yn cael ei ystyried fel busnes yn bennaf yn ymylol, gyda'r rhai a oedd yn ystyried y fferm fel busnes yn bennaf ychydig yn fwy tebygol o ddisgwyl i'r ymatebwr dderbyn neu ehangu ar gyflogaeth oddi ar y fferm, a'r rhai nad oedd yn ystyried y fferm fel busnes yn bennaf ychydig yn fwy tebygol o ddisgwyl i'r priod chwilio am waith oddi ar y fferm. Roedd y rhai a oedd yn ystyried y fferm fel busnes yn bennaf yn llawer mwy tebygol o ddisgwyl i aelod o'r aelwyd gymryd yr awenau ar y fferm (12% yn "debygol iawn" a "chymharol debygol" o'i gymharu â 6%); gall hyn adlewyrchu gallu'r fferm i gynhyrchu incwm digonol iddi ymddangos yn ddeniadol i olynydd.

## 10.5 Crynodeb o'r ymatebion i'r DU yn gadael yr UE

I grynhoi, mewn perthynas â Brexit, ceir tystiolaeth o ymatebion ar y daliad, yn y gorffennol neu'n fwy cyffredin, ymatebion a ddisgwylir yn y pum mlynedd nesaf, o ran, er enghraifft, manteisio ar gynlluniau sy'n darparu cymhellion i greu nwyddau cyhoeddus ac arallgyfeirio ar y fferm. Roedd newidiadau i'r aelwyd, gan gynnwys ehangu gweithgareddau cyflogedig oddi ar y fferm gan aelodau o aelwyd y fferm, yn llai tebygol o fod eisoes wedi digwydd, ac yn cael eu hystyried yn llai tebygol o ddigwydd dros y pum mlynedd nesaf.

Gellir gweld nifer o wahaniaethau bach o ran y camau gweithredu a gymerwyd eisoes mewn ymateb i Brexit neu i'r camau a ragwelir dros y pum mlynedd nesaf y gellir eu cysylltu gyda'r prif grŵp cymhelliant y mae gweithredwyr y fferm yn perthyn iddo, lefel dwyster yr ymatebion a nodir ganddynt, a'u hagwedd tuag at y fferm fel busnes. Fodd bynnag, mae'r patrymau'n gymhleth ac, er y byddai modd creu rhesymeg ar gyfer nifer o'r rhain, gyda rhai ohonynt yn gallu cael eu harchwilio gan ddefnyddio'r data helaeth a ddarperir yn ein harolwg o ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru yn 2021, mae'n debyg nad oes unrhyw gysylltiadau syml a hynod bwysig rhwng y nodweddion cymhelliant a welwyd gennym a'r ymatebion gwirioneddol neu arfaethedig i'r amgylchedd newydd a ddaw yn sgil Brexit.

# 11 Model segmentu Cymru

Daeth ein hadolygiad llenyddiaeth ar draws sawl enghraifft o deipolegau ffermwr yn seiliedig ar ddadansoddiad o ymatebion i gwestiynau arolwg am eu hymddygiad neu ymatebion i signalau polisi. Roedd sawl un yn berthnasol i'n hastudiaeth o weithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru. Er enghraifft, defnyddiodd Shucksmith a Herriman (2002) ddata a gasglwyd o sampl o 300 o ffermydd yn ardal Grampians yn yr Alban dros gyfnod eang i sefydlu teipoleg i'w defnyddio wrth ragfynegi ymddygiad fferm dargyfeiriol. Yn Lloegr, bu Rehman, *et al.* (2008) yn gofyn i ffermwyr sgorio cyfres o 19 cwestiwn am yr hyn yr oedden nhw'n ceisio ei gyflawni fel ffermwr yng nghyd-destun asesu ymateb ffermwyr i ddiwygio'r PAC. Roedd y cwestiynau'n trafod materion yn ymwneud â'r busnes fferm, ffordd o fyw, teulu a gyrfa bersonol. Hefyd yn Lloegr, roedd dull Defra o segmentu (Defra/Pike, 2008) yn cynnwys dau arolwg ac ymarfer dadansoddi. Defnyddiodd y cyntaf arolwg post (n = 683) mewn perthynas ag agweddau a bwriadau tuag at y Taliad Sengl. Tynnwyd ffactorau o 25 amcan a 28 datganiad gwerth a'u dadansoddi gan ddefnyddio model clystyru a Dadansoddiad Prif Gydran. Defnyddiodd ail ddarn o waith, a oedd yn llai cysylltiedig â'r newid polisi penodol ac wedi'i anelu'n fwy at segmentu, arolwg ffôn o 750 o ffermwyr gyda detholiad o 17 o gwestiynau gwrthrychol a gwerth yr oedd gwaith ymchwil blaenorol wedi'u nodi fel rhagfynegwyr arwyddocaol a'r mwyaf dylanwadol wrth rannu ymatebwyr i segmentau.

Defnyddiwyd dull segmentu arbennig o ddiddorol yn yr Alban, gyda'r ffocws ar ffermydd a oedd, yn ôl eu datganiad eu hunain, yn ffermydd anfasnachol (NCF) (Sutherland, *et al.*, 2019). Mae'r rhain yn dueddol o fod yn ffermydd Bach Iawn a Bach, ond mae elfen o ddull anfasnachol o ffermio i'w weld ar draws y sbectrwm maint, gan gynnwys ar ystadau mawr iawn. Er nad yw'r dadansoddiad yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ymddygiad, cymhellion a nodau, gall y deipoleg sy'n deillio o hyn awgrymu'r hyn sy'n gyrru'r ymddygiad hwnnw. Yn ogystal ag oedran disgwyliedig, addysg, statws fel perchennog neu reolwr, roedd y cwestiynau demograffig yn gofyn i ymatebwyr hunan-ddatgan (fel ffermwr llawn amser, rhan amser, ffermwr hobi, person busnes neu reolwr), a p'un a oedd y fferm wedi cael ei hetifeddu ai peidio. Roedd yr holiadur yn mynd i'r afael ag ystod o ddatganiadau agwedd a chategorïau hunaniaeth, cyfeiriadedd elw, rhagolygon economaidd canfyddedig, ffermio a gweithgareddau ar y tir (e.e. cynhyrchu nwyddau, arallgyfeirio fferm yn ôl math o weithgaredd, mynediad at wybodaeth).

Yng Nghymru mae dull eithaf gwahanol o segmentu wedi'i nodi gan Lee-Woolf, *et al.* (2014). Y nod oedd datblygu model segmentu o ddaliadau ffermydd Cymru, yn seiliedig ar agweddau, gwerthoedd a chredoau'r rhai sy'n eu rheoli, a fyddai'n galluogi'r llywodraeth i bennu effaith diwygio'r PAC [yn well] ar wahanol fathau o ddaliadau fferm, ac i dargedu mesurau cyfathrebu a pholisïau yn fwy effeithiol. Arweiniodd y ffocws ar agwedd a nodweddion ymddygiadol y ffermwr at segmentu (dadansoddiad clwstwr) yn seiliedig ar yr atebion i naw cwestiwn a oedd yn ymdrin â'r themâu a nodwyd ac a dynnwyd o'r rhestr gyflawn. Roedd nifer o'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r ffordd yr oedd ffermwyr yn ystyried cydweithio gyda ffermwyr eraill a chymdeithasu gyda nhw, ynghyd â ffynonellau eraill o gyngor a gwybodaeth a ystyriwyd. Cafodd y cwestiynau hyn eu cynnwys yn ein harolwg 2021 o ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru ac maent yn galluogi ein hymatebwyr i gael eu categoreiddio ar yr un sail â'r gwaith gan Lee-Woolf, *et al*. (2014). Dylid nodi na gyflwynodd Lee-Woolf, *et al.* unrhyw ddadansoddiad yn ôl maint y fferm. Un o nodweddion model Cymru oedd bod y segmentau a nodwyd ar sail ystadegol wedi cael eu cadw heb label yn fwriadol o ran yr arddull ffermio yr oedden nhw'n eu cynrychioli, gan eu nodi fel grwpiau C, Y, M, R, ac U; mewn cyferbyniad, defnyddiwch labeli mwy disgrifiadol yn Lloegr gan Defra/Pike (2008) (gan gynnwys Ceidwaid, Ffordd o Fyw, Pragmatyddion a Busnesau Teuluol Modern), ac mae modelau segmentu eraill yn y DU yn gyffredinol yn defnyddio labeli o'r math hwn, sy'n gwneud y broses o ddehongli ychydig yn symlach.

Mae'r grwpiau segmentu yng Nghymru'n cael eu crynhoi fel a ganlyn:


- C: Yn tueddu i fod yn iau ac yn tueddu i fod wedi bod yn gweithio mewn swydd arall oddi ar y fferm dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Y: Tueddu i adlewyrchu'r sampl gyffredinol o ran eu nodweddion demograffig.
- M: Yn tueddu i fod yn hŷn ac yn tueddu i reoli ffermydd llai, y maen nhw'n eu disgrifio fel 'tyddyn' yn hytrach na 'fferm'.
- R: Tueddu i gynrychioli daliadau mwy, yn ogystal â daliadau gyda thir pori mewn Ardaloedd Llai Ffafriol (LFA). Maent yn annhebygol o fod wedi bod yn gweithio mewn swydd arall oddi ar y fferm yn ddiweddar, nac o feddu ar gymwysterau addysg uwch nad ydynt yn gysylltiedig â ffermio.
- U: Tueddu i gynrychioli daliadau 'llaeth' a daliadau mwy. Maent hefyd yn tueddu i fod yn iau na'r sampl gyffredinol ac maent yn debygol o feddu ar gymwysterau addysg uwch sy'n gysylltiedig â ffermio.

Defnyddiwyd dau ddull ar gyfer ein dadansoddiad o arolwg 2021. Y cyntaf oedd archwilio cyfansoddiad ein sampl o ran y pum segment ym model Cymru. Yr ail oedd archwilio sut yr oedd y segmentau 'swyddogol' hyn yn cymharu gyda phatrymau a welir mewn mannau eraill yn ein data.

Defnyddiwyd ymatebion i set gwestiynau Model Segmentu Cymru i osod ymatebwyr i'n harolwg 2021 mewn segmentau. Roedd yn bosibl neilltuo 379 o ymatebwyr (90% o'r cyfanswm) i segmentau ar sail cyflawnrwydd yr ymatebion. Gellir gweld cyfatebiaeth rhwng ein sampl a model segmentu Cymru yn Ffigwr39.

O ystyried mai dim ond ffermydd yn y grwpiau maint economaidd Bach Iawn a Bach oedd ein sampl, roedd yn syndod gweld ein bod wedi dod ar draws cyfrannau tebyg o ffermwyr yn segmentau Y, R ac U i'r ymchwil segmentu gwreiddiol, a chynrychiolaeth ychydig yn fwy o segment C, ond roedd segment M wedi'i dangynrychioli. Mae'r diffyg dadansoddiad sy'n gysylltiedig â maint fferm yn yr adroddiad segmentu gwreiddiol yn arbennig o anffodus. Ni ellir cynnig unrhyw esboniad syml pam y dylai ffermydd Bach Iawn a Bach (sy'n cael eu rhedeg yn bennaf fel mân ffynonellau incwm aelwyd) fod â phroffil i segmentau sy'n adlewyrchu'r sector cyfan mor agos. Mae hyn yn debygol o fod yn rhannol gysylltiedig â'r maes arsylwi yn ein harolwg lle nad oedd cynrychiolaeth ddigonol o ffermydd Bach Iawn o ganlyniad i ddibynnu'n ar gronfa ddata Cyswllt Ffermio ar y dechrau (gweler adran 2.3 a Ffigur 6). Mae hefyd yn bosibl bod ein methodoleg arolygu'n cynnwys gogwydd dewis cynhenid tuag at aelodau segment C ac yn erbyn aelodau o segment M (eu parodrwydd i gymryd rhan o bosibl), neu nad oedd yr arolwg gwreiddiol ynddo'i hun yn ddigon cytbwys. Er nad oes digon o wybodaeth am y sampl wreiddiol ar gael i brofi'r rhagdybiaeth hon, nodir bod gwaith arall hefyd wedi dod ar draws tangynrychiolaeth aelodau o glwstwr M o'i gymharu â'r gwaith segmentu gwreiddiol.

Yn gyffredinol, nid oedd llawer o wahaniaeth yn aelodaeth segmentau penodol yn ôl band maint economaidd fferm. Y prif eithriad oedd segment M sy'n cynnwys mwy o weithredwyr ffermydd Bach Iawn, sy'n unol â'r disgwyl o ystyried diffiniad y segment hwn.




Ffigwr39: Cyfatebiaeth rhwng ein harolwg a Model Segmentu Cymru (n = 379)

Ffynhonnell: IHS Markit.

Yn gyffredinol, ni ddangosodd dadansoddi ein harolwg gan ddefnyddio model segmentu Cymru unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ôl segment, h.y. roedd yn anghyffredin i ddod o hyd i achosion lle'r oedd ymatebwyr mewn gwahanol segmentau WSM yn darparu atebion gwahanol (gweler yr Atodiad ar wahân). Lle darparwyd gwahanol atebion, roedd y rhain yn aml yn rhagweladwy (yn ôl y disgwyl) lle'r oedd cwestiynau'n gysylltiedig â'r rhai a ddefnyddiwyd i ganfod y segmentiad gwreiddiol. Er enghraifft, roedd aelodau segment U yn fwy tebygol o ystyried bod eu fferm yn fusnes yn bennaf nag aelodau o segment Y, roedd segment M yn fwy tebygol o fod wedi ymuno â chynllun amaeth amgylchedd na segment R, ac ati. Efallai mai un eglurhad o'r cysylltiad cymharol rwydd rhwng model segmentu Cymru (WSM) a chanlyniadau ein harolwg 2021 o ffermydd Bach Iawn a Bach yw bod WSM wedi canolbwyntio ei segmentiad ar naw cwestiwn yn ymwneud â nodweddion ymddygiadol y ffermwyr (wedi'u cymryd o feysydd addasadwyedd ac arloesedd; busnes a chyllid; rhwydweithiau a chefnogaeth; llywodraeth a pholisi), a'n bod ni wedi edrych yn fwy ar arwyddion o'r ymddygiad fel y gwelwyd mewn tystiolaeth o'r fferm ei hun a gweithrediad y fferm a'r aelwyd. Ymddengys mai dyma'r dull mwy nodweddiadol yn astudiaethau cylchraniad y DU, fel y dangosir yn ein hadolygiad o lenyddiaeth.

# 12 Canfyddiadau allweddol

## 12.1 Y ffermydd Bach Iawn a Bach

Bu ein prosiect yn canolbwyntio ar ffermwyr yng Nghymru ar ochr isaf y sbectrwm yn ôl maint economaidd. Mae ffermydd Bach a Bach Iawn, sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am bron i 9 o bob 10 o ffermydd yng Nghymru, yn bwysig o ran pobl a thir ac o ddiddordeb i lunwyr polisi, yn enwedig yng nghyd-destun ailgyfeirio cefnogaeth tuag at y ddarparu nwyddau cyhoeddus ac i ffwrdd o ddulliau mwy seiliedig ar gynhyrchu. Ni ddylid chwaith anwybyddu pwysigrwydd ffermydd Bach i rai o'r categorïau defnydd tir a da byw. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'n harolwg a gynhaliwyd ar ddechrau 2021 yn rhedeg ffermydd lle mai'r brif fenter yw defaid a/neu bîff. Er bod ffermydd bîff a ffermydd defaid yn debyg o ran maint ffisegol (cyfartaledd o 51 hectar a 52 hectar yn y drefn honno), mae ffermydd bîff a defaid gyda'i gilydd yn fwy (83 hectar ar gyfartaledd). Ceir perthynas rhwng maint ffisegol ac economaidd gyda ffermydd Bach yn defnyddio mwy o dir ar gyfartaledd na ffermydd Bach Iawn (ac eithrio ffermydd llaeth, sy'n bosibl ei egluro mae'n debyg yn ôl graddfa dwyster).

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn berchen ar eu fferm, neu'n berchen ar y rhan fwyaf o'u fferm. Y llwybr mwyaf cyffredin ar gyfer ffermio eu daliad presennol oedd prynu'r tir (46%), gyda 31% ychwanegol wedi cymryd yr awenau ar y fferm deuluol; a 19% wedi etifeddu'r daliad. Roedd gan ddwy ran o dair o'r ymatebwyr brofiad blaenorol o weithio ar y fferm deuluol (66%); roedd hyn yn llawer mwy cyffredin ar ffermydd Bach o'i gymharu â ffermydd Bach Iawn. Roedd ymatebwyr wedi bod yn rhedeg eu daliad am 23 mlynedd ar gyfartaledd.

Roedd hanner y ffermydd yn ein sampl (50%) yn rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol neu gadwraeth, neu wedi bod yn y gorffennol.

## 12.2 Aelwydydd sy'n gweithredu ffermydd Bach a Bach iawn

Roedd mwyafrif yr aelwydydd a oedd yn cadw ffermydd Bach Iawn a Bach yn cynnwys dau oedolyn (53%), gydag aelwydydd tri oedolyn yn cyfrif am 20% o'r sampl, ac aelwydydd un oedolyn yn cyfrif am 13% arall. Roedd ffermydd mwy yn tueddu i fod ag aelwydydd mwy yn gysylltiedig â nhw. Nid oedd gwahaniaeth clir rhwng ffermydd Bach Iawn a ffermydd Bach o ran cyfansoddiad aelwydydd.

Oedran cyfartalog yr ymatebwyr oedd 57 a'r ail oedolyn yn 54.

Roedd gan bron i hanner yr ymatebwyr (44%) gymwysterau heblaw am amaethyddiaeth, ac roedd gan 26% gymhwyster mewn pynciau sy'n gysylltiedig â ffermio. Roedd ymatebwyr o ffermydd Bach Iawn ddwywaith yn fwy tebygol o fod â gradd nag ymatebwyr o ffermydd Bach (16% o'i gymharu ag 8%).

Cyfuno ffermio gyda rhyw fath o gyflogaeth oddi ar y fferm neu hunangyflogaeth oedd y norm (71% o aelwydydd fferm Bach Iawn a 64% o aelwydydd fferm Bach); dim ond traean o'r aelwydydd (32%) oedd ddim yn cyflawni unrhyw weithgaredd cyflogedig oddi ar y fferm o gwbl. Roedd gan draean o'r aelwydydd (31%) un aelod o'r aelwyd yn cyflawni rhyw fath o weithgaredd oddi ar y fferm, ac roedd ychydig o dan draean (30%) yn nodi bod dau aelod o'r aelwyd (roedd gan 7% ohonynt fwy na dau aelod sy'n oedolion) yn cyflawni rhyw fath o weithgaredd oddi ar y fferm. Roedd bron i hanner (47%) yr ymatebwyr yn rhedeg gweithgareddau heblaw am amaethyddiaeth o'u daliad.

## 12.3 Incwm cartrefi sy'n gweithredu ffermydd Bach Iawn a Bach

Roedd pedair rhan o bump (80%) o'n hymatebwyr yn gallu ac yn barod i ddweud ym mha fand yr oedd incwm eu haelwyd. Ychydig iawn o aelwydydd (5%) oedd yn dod o fewn y band llai na £10,000 - mae hyn ychydig yn

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl. 

uwch na phensiwn blynyddol y wladwriaeth ar gyfer person sengl. Roedd gan fwy na phedwar o bob pump (82%) incwm cartref rhwng £10,000 a £69,999, ac roedd gan 13% incwm cartref uwch na £70,000. At ei gilydd, mae'n ymddangos bod incwm cyfartalog y grŵp ffermydd Bach Iawn ychydig yn is na'r grŵp ffermydd Bach, ond nid yw'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn sylweddol. Y casgliad pwysicaf yw nad yw maint economaidd fferm yn ganllaw dibynadwy ar gyfer lefel incwm yr aelwyd.

Y ffynhonnell incwm mwyaf cyffredin a nodwyd oedd gwarged masnachol (gwerthiant tynnu costau cynhyrchu) o weithgaredd ffermio (91%), ac yna'r Taliad Sylfaenol (76%), cyflog oddi ar y fferm, enillion cyflog a hunangyflogaeth (64%), taliadau amgylcheddol (54%), pensiynau (46%), arallgyfeirio ar y fferm (35%) ac elw ar fuddsoddiadau megis incwm rhent (33%). Ar gyfer aelwydydd gyda ffynonellau incwm penodol, roedd incwm o warged masnachol a'r Taliad Sylfaenol yn dueddol o gael ei ystyried yn bwysicach o'i gymharu ag incwm o gynlluniau amgylcheddol a phensiynau. Yn groes i'r reddf o bosibl, roedd ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o osod mwy o bwysigrwydd ar warged masnachol yn hytrach na ffermydd Bach lle'r oedd y taliadau hyn ar gael, ac roedd y gwrthwyneb yn wir ar gyfer gwarged o ganlyniad i weithgareddau ar y fferm nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu bwyd (twristiaeth, ynni adnewyddadwy ac ati).

## 12.4 Olyniaeth

Mae canlyniadau ein harolwg yn cyd-fynd â llawer o'r canfyddiadau yn y llenyddiaeth am bwysigrwydd olyniaeth i lawer o agweddau ar wneud penderfyniadau mewn ffermio, ac yn ychwanegu rhai dimensiynau pellach. Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr (57%) wedi ystyried olyniaeth, ychydig yn uwch ymhlith gweithredwyr ffermydd Bach (61% o'i gymharu â 55%). Roedd gan bron i hanner (47%) yr ymatebwyr gynllun i drosglwyddo eu daliad i rywun arall. Ymhlith y rhai a oedd wedi meddwl am olyniaeth, roedd y mwyafrif (73%) yn bwriadu trosglwyddo'r fferm trwy rodd, gan adlewyrchu natur deuluol y diwydiant ffermio ar raddfa Fach Iawn a Bach; nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl band economaidd fferm.

## 12.5 Defnydd o'r Iaith Gymraeg

Roedd ychydig dros draean (36%) o gyfanswm ein sampl yn rhugl yn y Gymraeg ac roedd 6% ychwanegol yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Roedd y gallu i siarad Cymraeg ychydig yn fwy cyffredin ymhlith gweithredwyr ffermydd Bach. Mae'r lefel gyffredinol hon o allu siarad Cymraeg yn cyd-fynd gyda chyfrifiad poblogaeth 2011 a oedd yn dangos ei fod yn fwy tebygol ymysg y gymuned amaethyddol yn hytrach nag yn y gymdeithas gyfan. Mae'n ymddangos bod ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl hefyd yn gysylltiedig â lefelau incwm cartref ychydig yn uwch.

## 12.6 Ymgysylltu â'r gymuned leol

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned ffermio gyda'r teimlad hwn yn gryfach yn ystadegol ymysg gweithredwyr ffermydd Bach o'i gymharu â gweithredwyr ffermydd Bach Iawn. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr hefyd yn teimlo bod eu haelwyd yn rhan o'r gymuned amaethyddol; unwaith eto, roedd ymatebwyr o ffermydd Bach yn teimlo ychydig yn gryfach am hyn o'i gymharu ag ymatebwyr o ffermydd Bach Iawn. Roedd mwyafrif helaeth o'r aelwydydd fferm Bach Iawn a Bach yn cymryd rhan mewn sefydliadau cymdeithasol ac amaethyddol.

## 12.7 Gwneud penderfyniadau a dysgu

Wrth edrych ar ystod o benderfyniadau'n ymwneud â rhedeg y fferm (gan gynnwys cynlluniau amaeth amgylchedd), roedd ymatebwyr i'n harolwg o ffermydd Bach Iawn a Bach yng Nghymru'n credu bod y rhain i gyd yn cael eu gwneud gan y prif berson sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau (33% i 38%) neu'r person hwn gyda'i briod/partner (31% i 34%). Mae'n ymddangos bod penderfyniadau'n ymwneud â buddsoddiadau mewn busnesau oddi ar y fferm yn cael ei gwneud ar y cyd ychydig amlach, a bod penderfyniadau'n ymwneud â

chyflogaeth oddi ar y fferm neu hunangyflogaeth gan aelodau'r aelwyd fel arfer yn cael eu gwneud gan y prif berson sy'n gwneud penderfyniadau (21%), ar y cyd gyda phriod/partner (32%) neu gan unigolyn arall (23%).

Wrth ymateb i ystod o gwestiynau, roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn a Bach yn nodi eu bod bob amser yn dysgu, ac yn hapus i dderbyn cyngor ynglŷn â rheoli'r amgylchedd naturiol, eu bod yn agored i ddefnyddio technoleg newydd ac yn dod o hyd i wybodaeth a chyngor ar y we. Fodd bynnag, roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn ychydig yn fwy tebygol o deimlo'n gryf am y materion hyn na ffermwyr ffermydd Bach.

## 12.8 Rhesymau dros ffermio

Roedd bron i dri chwarter o'r ymatebwyr o ffermydd Bach Iawn a Bach yn nodi eu bod yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf (73%); roedd hyn yn fwy tebygol ymysg gweithredwyr ffermydd Bach na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (83% o'i gymharu â 67%). Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt yn ddiweddarach yn yr holiadur i ba raddau yr oedden nhw'n cytuno bod eu daliad yn fwy o fusnes na dewis ffordd o fyw, roedd bron i draean yn cytuno, traean yn anghytuno a thraean ddim yn cytuno nag yn anghytuno. Unwaith eto, roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o gytuno bod eu fferm yn fwy o fusnes nag yn ddewis o ffordd o fyw. Er bod y rhai a oedd yn ystyried eu ffermydd fel busnes yn bennaf yn llai tebygol o gytuno bod sicrhau ansawdd bywyd da yn bwysicach na gwneud yr incwm gorau posibl (73% o'i gymharu â 88%), y prif bwynt yw bod bron i dri chwarter yn credu bod ansawdd bywyd yn bwysicach nag incwm, hyd yn oed ymysg y grŵp hwn.

Roedd mwy na thri chwarter o'r ymatebwyr (79%) yn ystyried bod croesawu cadwraeth amgylcheddol yn bwysig ar gyfer dyfodol eu haelwyd ffermio; roedd hyn ychydig yn fwy cyffredin ar ffermydd Bach Iawn (80% o'i gymharu â 75%).

Yn deillio o'r adolygiad llenyddiaeth, gofynnwyd cwestiynau i'n cynorthwyo i ddeall pwysigrwydd absoliwt a chymharol y grwpiau canlynol o ffactorau cymell, sy'n wahanol ond eto'n gorgyffwrdd ar brydiau ac yn gallu cyd-atgyfnerthu ei gilydd:

- ***Cyfryngol*** (defnyddio'r fferm fel ffordd o gyflawni rhywbeth) - gwneud incwm boddhaol; diogelu'r incwm ar gyfer y dyfodol; ehangu'r busnes; darparu amodau gwaith braf.
- ***Cymdeithasol*** - ennill cydnabyddiaeth a bri; bod yn rhan o'r gymuned ffermio; parhau â'r traddodiad teuluol; gweithio gydag aelodau eraill o'r teulu; cynnal perthnasoedd da gyda gweithwyr.
- ***Mynegiannol*** - teimlo balchder o fod yn berchen ar rywbeth; hunan-barch am wneud gwaith gwerth chweil; ymarfer galluoedd a thueddfrydau arbennig; cyfle i fod yn greadigol ac yn wreiddiol; cwrdd â her, cyflawni nod, datblygu cymeriad personol.
- ***Cynhenid*** - mwynhad o gyflawni tasgau gwaith; hoffter o fywyd iachus yn ffermio yn yr awyr agored; gweithgaredd pwrpasol, gwerth gwaith caled; annibyniaeth - rhyddid rhag goruchwyliaeth ac i drefnu amser; rheolaeth mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr i'n harolwg yn nodi mai ffactorau ***cynhenid*** oedd y rhesymau pwysicaf pam eu bod yn ffermio. Yr ail grŵp o'r rhesymau pwysicaf a nodwyd amlaf oedd ffactorau ***cymdeithasol*** a ***mynegiannol***, gyda theimladau cryfach ar y cyfan ynghlwm â'r ffactorau cymdeithasol. Yn y ddau achos, roedd y grwpiau hyn o ffactorau'n cael eu hystyried yn bwysicach gan weithredwyr ffermydd Bach na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn. Y rhesymau lleiaf pwysig dros ffermio oedd y ffactorau ***cyfryngol*** (er wrth gwrs, roedd y rhesymau hyn yn bwysig iawn i rai); unwaith eto, roedd gweithredwyr ffermydd Bach yn fwy tebygol o nodi bod y ffactorau hyn yn bwysig na gweithredwyr ffermydd Bach Iawn. Mae ein canlyniadau'n cyd-fynd â'r llenyddiaeth, sy'n dangos ei bod hi'n annoeth tybio mai cynyddu incwm yw prif nod ffermwyr. Rhesymau

Cyfrinachol. © 2021 IHS Markit. Cedwir pob hawl.

cyfryngol yw'r rhai sydd wedi'u polareiddio fwyaf hefyd, gyda'r cyfrannau uchaf o ymatebwyr yn nodi bod y rhain yn ddibwys (10%); roedd 8% o ymatebwyr yn teimlo bod rhesymau cymdeithasol yn ddibwys. Mewn cyferbyniad, dim ond 2% o ymatebwyr oedd yn honni bod ffactorau cynhenid a mynegiannol yn ddibwys.

## 12.9 Ymatebion i'r DU yn gadael yr UE

Casglodd ein harolwg, a gynhaliwyd ar ddechrau 2021 (ar ôl diwedd y cyfnod pontio ymadael a thua dechrau'r trefniadau masnachu newydd a'r polisi amaethyddol domestig newydd) wybodaeth ynglŷn â disgwyliadau incwm, ac effaith newidiadau arfaethedig yn yr amgylchiadau economaidd a rheoliadol yn ystod y cyfnod ansicr hwn (hynny yw, penderfyniadau a oedd eisoes wedi cael eu gwneud) a'r newidiadau a fwriedir nawr bod darlun mwy clir (er nad yw wedi'i ddiffinio'n llawn) yn dod i'r amlwg (penderfyniadau arfaethedig, gydag ystod o debygolrwyddau'n bosibl). Nodwyd gwahaniaeth rhwng yr effaith ar y fferm a ffermio ar un llaw, ac ar y llaw arall, yr effaith ar aelwyd y ffermwr. Gellir disgwyl i'r newidiadau hyn adlewyrchu cymhellion y rhaid sy'n cadw ffermydd sy'n dod o fewn y dosbarthiadau hyn o ran maint economaidd.

Roedd gweithredwyr ffermydd defaid Bach Iawn a Bach yn fwy tebygol o ddisgwyl gostyngiad mewn incwm amaethyddol o ganlyniad i adael yr UE (65% o'i gymharu â 57%), ac nid oedd gweithredwyr ffermydd bîff yn disgwyl unrhyw wahaniaeth; roedd gan weithredwyr ffermydd bîff a defaid ddisgwyliadau rhwng yr ymatebion hyn, gan awgrymu bod disgwyl y bydd incwm amaethyddol yn y sector defaid yn benodol yn lleihau. Roedd gwahaniaeth amlwg yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn gan ddibynnu a yw'r ymatebwr yn ystyried y fferm fel busnes yn bennaf. Roedd tua 65% o'r grŵp hwn yn disgwyl i'r incwm amaethyddol leihau o'i gymharu â 35% yn unig o'r rhai nad oeddent yn ystyried eu fferm fel busnes yn bennaf.

Er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae ein gwybodaeth ynglŷn â chymhelliant yn berthnasol i ymatebion gan ffermwyr i'r DU yn gadael yr UE, cynhaliwyd dau fath o ddadansoddiad ychwanegol.

*(c) Dosbarthu'r gweithredwyr fferm yn ôl eu prif ffactorau cymhelliant*

Rhannwyd ymatebwyr yn grwpiau yn ôl y grŵp o ffactorau cymhelliant mwyaf cyffredin, h.y. cynhenid, cyfryngol, cymdeithasol a mynegiannol. Cafodd ymatebwyr eu dyrannu i'r grŵp lle'r oedd eu sgorau unigol ar eu uchaf o'u cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y sampl gyfan.

*(d) Dosbarthiad gweithredwyr ffermydd yn ôl dwyster y ffactorau cymhelliant*

Cafodd un grŵp ("selogion") ei ddiffinio o ganlyniad i roi sgorau uwch na'r cyfartaledd o fewn pob un o'r pedwar ffactor cymhelliant gyda'i gilydd, a grŵp arall o ganlyniad i roi sgorau llai na'r cyfartaledd o fewn pob un o'r grwpiau hyn ("pesimistiaid"). Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn eistedd o fewn naill o'r grwpiau hyn ("dim un").

Roedd llai na thraean (31%) yr ymatebwyr eisoes wedi gwneud newid ar eu daliad o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE; roedd ychydig yn fwy o weithredwyr ffermydd Bach eisoes wedi gwneud newidiadau o'i gymharu â gweithredwyr ffermydd Bach Iawn (31% o'i gymharu â 27%). Roedd y rhai a oedd yn cael eu cymell yn bennaf gan ffactorau cymdeithasol yn fwy tebygol o fod eisoes wedi gwneud newidiadau ar eu daliad na'r rhai a oedd yn cael eu cymell gan ffactorau mynegiannol (42% o'i gymharu â 20%), ffactorau cynhenid (25%) a ffactorau cyfryngol (32%). Roedd "Selogion" yn fwy tebygol o fod eisoes wedi gwneud newidiadau na "phesimistiaid" (34% o'i gymharu â 19%). Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ôl math o fferm na p'un a oedd y fferm yn cael ei ystyried fel busnes yn bennaf.

Roedd mwy o ymatebwyr o'r farn y byddent yn gwneud newidiadau o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE yn y pum mlynedd nesaf nag a oedd wedi gwneud newidiadau eisoes, gyda'r mwyafrif yn disgwyl gwneud newidiadau.

Roedd bron i hanner (45%) yn credu bod hyn yn “hynod debygol” a 12% yn “eithaf tebygol”. Roedd ychydig llai na thraean (31%) heb benderfynu'r naill ffordd neu'r llall, gan adael 7% o'r farn ei bod yn “annhebygol iawn” y byddent yn gwneud newidiadau a 6% yn credu y byddai’n “eithaf annhebygol”. Ychydig iawn o wahaniaeth a welwyd yn ôl band economaidd, ond roedd gweithredwyr ffermydd Bach ychydig yn fwy tebygol o beidio â chael barn gref un ffordd neu’r llall ar hyn o bryd.

Y prif beth yw’r nodi yw mai dechrau’r rhaglen ddarparu nwyddau cyhoeddus newydd yw’r unig newid yr oedd y mwyafrif (64%) o’r rhai a oedd yn disgwyl gwneud newidiadau’n nodi y byddant yn eu gwneud. Roedd graddau sicrwydd yr oedd ymatebwyr yn ei ddangos o ran y disgwyliad hwn hefyd yn llawer uwch nag mewn perthynas â newidiadau eraill. Yr unig newid arall y bwriedir iddo gael ei wneud gan fwy na thraean yr ymatebwyr (37%) a ddywedodd y byddent yn gwneud newidiadau oedd datblygu gweithgareddau arallgyfeirio newydd ar y fferm. Roedd gweithredwyr ffermydd Bach Iawn yn ei ystyried yn llawer mwy tebygol y byddant yn datblygu gweithgareddau arallgyfeirio ar y fferm newydd na gweithredwyr ffermydd Bach.

O ran newidiadau i aelwyd y fferm, y prif ganfyddiad oedd mai 11% yn unig o’r ymatebwyr a nododd eu bod eisoes wedi gwneud newidiadau yn eu haelwydydd o ganlyniad i’r DU yn gadael yr UE; gofynnwyd i ymatebwyr yn benodol i BEIDIO â chynnwys unrhyw newidiadau o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Gan edrych tua’r dyfodol a bwriadau, gofynnwyd i ymatebwyr ystyried pa mor debygol oedd hi y byddai newidiadau’n digwydd ar eu haelwydydd o ganlyniad i’r DU yn gadael yr UE dros y pum mlynedd nesaf. Roedd y darlun cyffredinol yn awgrymu lefelau cymedrol yn unig o addasiad. Y newid mwyaf tebygol a ddisgwyliwyd gan yr ymatebwyr oedd y byddai aelod o’r teulu’n cymryd yr awenau ar y daliad (10% yn “debygol iawn” ac yn “eithaf tebygol”). Roedd hyn yn cael ei ystyried ychydig yn fwy tebygol ar ffermydd Bach Iawn nag ar ffermydd Bach (13% o’i gymharu â 7%). Fodd bynnag, nid yw'n gwbl glir i ba raddau y gellir priodoli'r newid hwn i'r ffaith bod y DU wedi gadael yr UE.

Gellir gweld nifer o wahaniaethau bach o ran y camau gweithredu a gymerwyd eisoes mewn ymateb i Brexit neu i’r camau a ragwelir dros y pum mlynedd nesaf y gellir eu cysylltu gyda’r prif grŵp cymhelliant y mae gweithredwyr y fferm yn perthyn iddo, lefel dwyster yr ymatebion a nodir ganddynt, a’u hagwedd tuag at y fferm fel busnes. Fodd bynnag, mae'r patrymau'n gymhleth ac, er y byddai modd creu rhesymeg ar gyfer nifer i’r rhain, gyda rhai ohonynt yn gallu cael eu harchwilio gan ddefnyddio’r data helaeth a ddarperir yn ein harolwg, mae’n debyg nad oes unrhyw gysylltiadau syml a hynod bwysig rhwng y nodweddion cymhelliant a welwyd gennym a’r ymatebion gwirioneddol neu arfaethedig i’r amgylchedd newydd a ddaw yn sgil Brexit.

# Manylion Cyswllt

**Dr Dylan Bradley**
Cyfarwyddwr, Agribusiness Consulting
Dylan.Bradley@ihsmarkit.com

## IHS Markit Customer Care

CustomerCare@ihsmarkit.com

**Asia a Rim y Môr Tawel**

Japan: +81 3 6262 1887

Asia Môr Tawel: +604 291 3600

**Ewrop, y Dwyrain Canol, ac Affrica: +44 1344 328 300**

**America: +1 800 447-2273**

**Ymwadiad**

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y cyflwyniad hwn yn gyfrinachol. Gwaherddir yn llwyr unrhyw ddefnydd, datgeliad, atgynhyrchu neu ledaenu yn llawn neu'n rhannol, heb awdurdod mewn unrhyw gyfrwng neu mewn unrhyw fodd, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan IHS Markit neu unrhyw un o'i gysylltiadau ("IHS Markit"). Mae IHS Markit yn berchen ar holl logos ac enwau masnach IHS Markit sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn sy'n ddarostyngedig i drwydded. Mae’r farn, datganiadau, amcangyfrifon a’r rhagamcanion yn yr adroddiad hwn (gan gynnwys cyfryngau eraill) yn eiddo’n llwyr i’r awdur(on) unigol ar adeg ysgrifennu’r adroddiad, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn IHS Markit. Nid oes gan IHS Markit na'r awdur(on) unrhyw rwymedigaeth i ddiweddaru'r adroddiad hwn os bydd unrhyw gynnwys, barn, datganiad, amcangyfrif neu dafluniad ("gwybodaeth") yn newid neu'n dod yn anghywir wedi hynny. Nid yw IHS Markit yn gwneud unrhyw warant, wedi'i fynegi na'i awgrymu, o ran cywirdeb, cyflawnrwydd neu amseroldeb unrhyw wybodaeth yn yr adroddiad hwn, ac ni fydd yn atebol mewn unrhyw ffordd i unrhyw dderbynnydd am unrhyw wallau neu hepgoriadau. Heb gyfyngu ar yr uchod, ni fydd IHS Markit yn atebol o gwbl i unrhyw dderbynnydd, p'un ai mewn contract, mewn camwedd (gan gynnwys esgeulustod), o dan warant, o dan statud neu fel arall, mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir gan unrhyw dderbynnydd o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw wybodaeth a ddarperir, neu unrhyw gamau gweithredu a bennir ganddo ef neu unrhyw drydydd parti, p'un a ydynt yn seiliedig ar unrhyw wybodaeth a ddarperir ai peidio. Ni ddylid cymryd bod cynnwys dolen i wefan allanol gan IHS Markit yn ardystiad o’r wefan honno na pherchnogion y wefan (na’u cynhyrchion/gwasanaethau). Nid yw IHS Markit yn gyfrifol am gynnwys nac allbwn gwefannau allanol. Hawlfraint © 2021, IHS Markit®. Cedwir pob hawl a phob hawl eiddo deallusol gan IHS Markit.